

Canu Gwerin

(Folk Song)



30 - 2007

CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU

Elusen gofrestredig rhif 259772

SWYDDOGION

Llywydd: D. Roy Saer

Is-Lywyddion:

Dr Osian Ellis

Dr Meredydd Evans

Phyllis Kinney

Cadeirydd:

Dr E. Wyn James

Is-Gadeirydd:

Dafydd Idris Edwards

Ysgrifennydd:

Buddug Lloyd Roberts

Hafan, Cricieth, Gwynedd LL52 0BS

Ffôn: 01766 522096

Trysorydd ac Ysgrifennydd Aelodaeth:

Dr Rhidian Griffiths

Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-môr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2HX

Ffôn: 01970 610160

E-bost: griffiths.berllan@btinternet.com

Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru

Journal of the Welsh Folk-Song Society

Annie 'Cwrt Mawr' a Chanorion Aberystwyth	3
Wyn Thomas	
Tair cân werin: 'Broga Bach', 'Yr hen wineddes' a 'Mochyn Carreg Plas'	45
D. Roy Saer	
Y cyd-ddaeiarwr a'r peiriant gwnïo	54
Dan Puw	
Rhigwm Goginan	56
Meredydd Evans	
'O 'mechan i, 'mechan i, cana'	58
Charles Parry	
Cân Moel Emoel	61
Meredydd Evans	
Y Caniedydd Cymreig - rhagor am Ieuan Ddu a'i ganeuon	63
Nigel Ruddock	
Dychangerdd o dref Dolgellau	79
John Clough	
Cerdd galennig o ardal Trefeglwys	83
Dafydd Ifans	
'O deued pob Cristion'	86
Rhiannon Ifans	
Adolygiad: Sally Harper a Wyn Thomas (goln), <i>Cynheiliaid y Gân: Ysgrifau i anrhydeddu Phyllis Kinney a Meredydd Evans / Bearers of Song: Essays in honour of Phyllis Kinney and Meredydd Evans</i> (Caerdydd, 2007)	93
Meinir Macdonald	

Y cyfranwyr biau hawlfraint eu cyfraniadau. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn y Cylchgrawn o reidrwydd yn adlewyrchu barn y Golygydd na'r Gymdeithas.

Contributions are the copyright of the contributors. Opinions expressed in the Journal do not necessarily reflect the viewpoints of the Editor or the Society.

Golygydd: Dr Rhiannon Ifans

Argraffu: Gwasg Morgannwg, Castell-nedd

Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru

Aelodaeth unigol: (Individual membership)	£10.00
--	--------

Aelodaeth deuluol: (Family membership)	£12.00
---	--------

Aelodaeth myfyrwyr: (Student membership)	£3.00
---	-------

Ysgrifennydd Aelodaeth / Membership Secretary:

Dr Rhidian Griffiths, Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-Môr,
Aberystwyth, Ceredigion SY23 2HX

 (01970) 610160

Llun y clawr: Dr Meredydd Evans a Phyllis Kinney yn lansiad y gyfrol deyrnged i'r ddau yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth, Ebrill 2007

Llun a chynllun y clawr: Einion Dafydd

Y mae'n fwriad i *Canu Gwerin* gael ei gynnwys dan brosiect digido'r Llyfrgell Genedlaethol. Gofynnir i gyfranwyr y gorffennol, y presennol, a'r dyfodol roi gwybod i'r Golygydd os ydynt yn dymuno i'w herthyglau beidio â chael eu cynnwys.

It is intended that *Canu Gwerin* be included under the National Library's digitisation project. Future, present and past contributors are invited to notify the Editor if they wish to be exempted from this scheme.

ANNIE ‘CWRT MAWR’ A CHANORION ABERYSTWYTH

Wyn Thomas

Mynegodd Cymru ddiddordeb neilltuol ym mhriodas Tom Ellis,¹ Aelod Seneddol Meirionnydd, ac Annie Davies,² Cwrt Mawr, Llangeitho ar ddiwrnod cyntaf Mehefin 1898. Yng nghapel y Tabernacl, Aberystwyth, y cynhaliwyd y gwasanaeth a thra chwifiai baneri i ddathlu pwysigrwydd yr achlysur o dŵr y castell a'r coleg gerllaw, canai côr o gantorion dethol dan arweiniad y cerddor David Jenkins gadwyn o alawon Cymreig gan gynnwys ‘Y Deryn Pur’ a ‘Clychau Aberdyfi’³ i ddiddanu'r gynulleidfa ddisgwylgar. Yn ystod y gwasanaeth, clywyd yr emyn-dôn ‘Penlan’⁴ am y tro cyntaf ac yn ôl traddodiad, wrth i'r briodferch gamu'n nerfus drwy ddrws yr addoldy y bore hwnnw, safodd Tom Ellis ar ei draed wrth glywed y geiriau:

Pan y'i gwelais, syth mi sefais,
Yn fy nghalon mi feddyliais,
Wele'r ddynes, lana'r deyrnas
A'i gwên yn harddu'r oll o'i chwmpas.⁵

Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, canodd ‘Eos Dâr’⁶ eitemau o ganu penillion fel rhan o ddathliadau'r neithior yn y Pier Pavillion a'i berfformiad yn fynegiant o'i barch a'i edmygedd o'r gwleidydd a'i briod newydd. Ym mhriodas John Herbert Lewis, Aelod Seneddol Rhyddfrydol Sir y Fflint, a Ruth Caine⁷ ddeng mis ynghynt y cafodd Tom Ellis y syniad o ddwyn agweddau ar ganu brodorol ei genedl i ddigwyddiadau'r dydd. Fel un o feibion y werin, bu ei yrfa gyhoeddus hyd at y cyfnod hwnnw yn ymdrech i bwysleisio a hyrwyddo buddiannau Cymru – ei haddysg, ei llenyddiaeth, ei hiaith a'i cherddoriaeth. Drwy gyfrwng ei unplygrwydd a'i weithgarwch a'i gyfathrach â'i gyd-aelodau yn Nhŷ'r Cyffredin, yn Albanwyr, yn Saeson ac yn Wyddelod, llwyddodd i achub pob cyfle i ddwyn sylw i arwahanrwydd y genedl Gymreig ac nid eithriad ychwaith oedd dydd ei briodas, a hynny ym mhresenoldeb y fath dyrfa o foneddigion dylanwadol a ddaeth ynghyd o bob cwr o'r wlad i dalu gwrogaeth i'r pâr ifanc. Breuddwyd fawr Tom Ellis oedd gweld ymreolaeth lwyr yng Nghymru – senedd, a sicrwydd

hunanlywodraeth fyddai'n fodd o ddyrchafu statws y genedl, ond yn ogystal yr oedd yn dyheu am weld Cymru newydd, unedig.

Ers cyfnod sefydlu Mudiad Cymru Fydd yn 1886, yr oedd y gwleidydd o Gefnnddwysarn ger y Bala wedi dadlau'n frwd fod gwahanol agweddau ar weithgarwch Rhyddfrydiaeth yng Nghymru, megis cadwraeth yr iaith Gymraeg a chydabyddiaeth swyddogol iddi, cyfoeth y traddodiad llenyddol a'r angen i'w feithrin, a holl ddylanwad y bywyd cerddorol Cymreig, yn deilwng o gael eu diogelu a'u defnyddio er budd Cymru benbaladr, yn fonedd a gwreng yn ddiwahân.⁸ Fel yr ategodd yn un o'r areithiau:



*Annie Ellis, 1873–1942
(Llun: Mari Ellis, Aberystwyth)*

There is finer ore for the making of Welsh national wealth in its peasant and cottage homes even than in its rocks and hills. And if it is a fitting social aim to repay the services of the past by devotion to the services of the present and future, then shall we be wise and dutiful in patiently planning and strenuously endeavouring to brighten and enrich the life of Wales whence from age to age have arisen the leaders of the causes we love and the discoverers of the light by which we live.⁹

Roedd Annie Davies, fferm Cwrt Mawr, Llangeitho, yn gymeriad o'r un anian. Hanai o linach Fethodistaidd David Charles (Caerfyrddin) ar ochr ei thad ac o linach y Parchedig Peter Williams, y diwinydd a'r esboniwr, ar ochr ei mam.¹⁰ Yn dilyn cyfnod yn ysgol Llangeitho, addysgwyd hi mewn ysgolion preifat yn Aberystwyth, Llundain a Chaer cyn dychwelyd yn 1892 yn fyfyrwraig i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Yno, bu'n astudio Hanes, Saesneg, Cymraeg, Ffrangeg, a Mathemateg ond nid hyd at safon gradd. Roedd yn un o saith o blant ac o bryd i'w gilydd, danfonid hi a'i chwaer Sarah¹¹ i gadw tŷ i'w brodyr, John a Walter yn 59 Chancery Lane,

Llundain – y naill yn fyfyrwr y gyfraith a'r llall yn fyfyrwr meddygol. Yn ystod yr ymweliadau achlysurol hyn â'r brifddinas y cafodd Annie flas ar fywyd cymdeithasol lliwgar Cymry-Llundain. Ymgartrefodd yng nghapel Charing Cross a chroesawyd hi'n wresog i gartref y bargyfreithiwr W. Llywelyn Williams a'i wraig, a oedd yn gyrchfan boblogaidd i Gymry'r brifddinas yr adeg honno. Yno cynhelid ffugeisteddfodau, cyngherddau, ymrisonau, a thrafodaethau achlysurol ac o ganlyniad fe'i llysenwyd 'Y Wladfa' gan y sawl a âi yno. Dyma'r adeg yr oedd Mary Davies 'Mair Mynorydd' yn ei hanterth fel cantores, ond ni fu ei hymrwymiaidau proffesiynol hi ar lwyfannau'r *music halls* hyd yn oed, yn rhwystr iddi ddwyn myfyrwyr ac ymwelwyr ifanc o Gymru, gan gynnwys rhai fel Annie Davies, dan ei hadain a darparu cyfleoedd i'r naill a'r llall i ymddangos ym mywyd cyhoeddus y brifddinas. Pryd hynny y tyfodd cyfeillgarwch mynwesol rhyngddynt ac er bod merch y 'Cwrt Mawr' yn rhyw lun ar delynores ac yn ôl trefn a ffasiwn yr oes, yn canu'r piano, ni ddisgwyliid iddi ddilyn gyrfa mewn unrhyw faes er gwaethaf ei chymhwyster a'i phriodoldeb i wneud hynny. Yn hytrach, cyfrifoldeb y ferch o gefn gwlad Ceredigion yn y man oedd cefnogi ei gŵr ac ymddiddori yn yr un gweithgarwch cymdeithasol a diwylliannol y bu ef mor bleidiol trostynt gan ddilyn yr un egwyddorion Rhyddfrydol ag a goleddai'r ddau.

Cyn canol mis Ebrill 1899, fodd bynnag, roedd Tom Ellis yn ei fedd a gorfodwyd i'r weddw ifanc ddygymod â bywyd ar ei phen ei hun unwaith yn rhagor. Dychwelodd o 9 Cowley Street, Llundain, i fyw yn Aberystwyth¹² a chan ddilyn esiampyl Mary Davies, fe ymrôdd gorff ac enaid i groesawu myfyrwyr Cymraeg y coleg i'w chartref yn 6 Maes Lowri a'u cefnogi yn eu gweithgaredd amrywiol. Yn dilyn perswâd ei chyfeilles, 'Mair Mynorydd', fe ymaelododd Annie Ellis â Chymdeithas Alawon Gwerin Cymru ym mis Medi 1908.¹³ Erbyn hynny, roedd y Pwyllgor Gwaith wedi'i sefydlu ac ymdrechion arloesol aelodau Cymdeithas y Canorion yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, ynghyd â momentwm y casglu cynnar yn graddol gynyddu. Yn ogystal, mae'n rhaid bod dylanwad uniongyrchol ei brawd, John Humphreys Davies,¹⁴ a'i ddiddordeb ysol ef ym myd casglu hen lawysgrifau, hanes llenyddiaeth Gymraeg, a thraddodiad y baledi wedi ei chyfeirio i'r maes. Ers blynnyddoedd, pwysleisiai John bwysigrwydd astudio hanes Cymru a gwerth diogelu'r trysorau Cymreig ar wasgar ymhlith ei gyd-genedl. Cyfeiriwyd ato gan J. Glyn Davies fel prif hynafiaethydd Sir

Aberteifi a 'chwilotwr mileinig am hen lyfrau',¹⁵ a'i gasgliad helaeth ef a Syr John Williams o gyfrolau a llawysgrifau ddaeth yn y man yn sail i sefydlu Llyfrgell Genedlaethol i Gymru. Ymddiddorai J. H. Davies mewn hen rigymau llafar gwlad, carolau, halsingod, arferion gwŷr hysbys, dyddiaduron, a barddoniaeth y Trioedd ac yn rhinwedd ei swydd yn Gofrestrydd Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, rhwng 1905 a 1919 ymdrechodd i uno'r Coleg â bywyd y werin o'i gwmpas. Er nad oedd ganddo ddoniau cerddorol amlwg,¹⁶ yn ôl tystiolaeth ei lawysgrifau ymddengys iddo gofnodi geiriau rhai caneuon traddodiadol o Sir Aberteifi gan gynnwys y faled Saesneg ganlynol:

I was go to Llandysul

I live in Llandysul in Shir Aberteifi
A letter inform me my uncle was dead,
To ask me in minute to go up to Llundain
For big lot of money was left me, 'twas said
So I was determined to go on my siwrne
And booking my ticket, first class was I fain
If I was go third class I was never engounter
Y weddw fach lân, I was see in the train.

The widw and me side by side set together
In the carridge was no one but us and no more
Distawrwydd was broke by my preety companion
Who ask me the time by the watch I was wore.
Wrth gwrs, I tell her and then conversation
Was speaking between us indeed till my brain
Was go on the bendro, rown i bron mynd yn wallgo
Gyda'r widw fach lân, I was see in the train.

She was so taliedd I venture to ask her
How old was the child she was have to her breast
Ah! Sir she did say and she did llefain shocking
And the plentyn she carried to her bosom she pressed
When you speak of my child, I'm quite broken hearted
His father my husband, oh my heart breaks with pain
And what she wass do lean her head on my wasgot
Did widw fach lân, I was see in the train.

By the time the train it was cum to the stashiun
A cwpwl of miles from the big one in town
When the widw was say as she look thro' the window
“Good gracious alive”, why there goes Mr Brown,
He's my late husband's brother, dear sir, would you kindly
Take hold of my baby, I'll be back again
Wrth gwrs, I was say ac allan i'r platform
Aeth y widw fach lân, I was see in the train.

Three minutes go by, the gard whisl blowing
The train was a moving, no widw appears
So I holler out, “Stop, stop” but they pay no 'tenshien
With a puff and a puff, it was off I was fear
I was in this condishun indeed for an hour
My watch, ha! Where was it and where was my chain
My purse and my ticed, loose change was all gone
O ddrato'r hen weddw, I was see in the train.

When I find out my colled indeed I was crying
Then they stopped the train and “tickets” I heard
So I tell the collector while shiggling the baby
The loss I was lost, but he doubted my word
So I call the policeman and a lot come about me
Then they take the babi, How shall I explain!
For indeed 'twas no babi, 'twas a doll bren a dummy
The villain old widow, I see in the train.¹⁷

Yn ogystal â hyn, fe gofnodwyd ganddo fersiwn Cymraeg o'r gân 'Auld Lang S'yne':

Yr hen amser gynt

Bu'n hoff i mi wrth deithio 'mhell
Gael croesaw ar fy hynt
Mil hoffach yw cael henffych well
Gan un fu'n gyfaill gynt.

Cytgan:

Er mwyn yr amser gynt, fy ffrins
Yr hen amser gynt,
Cawn wydraid bach cyn canu'n iach
Er mwyn yr amser gynt.

Yn chwareu buom lawer tro
A'n penau yn y gwynt
A phleser mawr yn cadw co'
O'r hyfryd amser gynt.

Er digwyddiadau mwy na rhi
Er gwario lawer punt
Try pob rhyw goll, ni chollais i
Y cof o'r amser gynt.¹⁸

Fel un o gyfeillion a chymwynaswyr Coleg Aberystwyth,¹⁹ anfonwyd gwahoddiadau cyson at Annie Ellis a'i brawd i fynychu achlysuron Cymreig y myfyrwyr, yn enwedig dathliadau Gŵyl Ddewi ac eisteddfod flynyddol y Gymdeithas Geltaidd. Yn ystod y digwyddiadau hyn y clywid alawon a cheinciau traddodiadol yn ogystal â rhai o gyfansoddiadau cyfoes Cymru'r cyfnod (gweithiau gan Joseph Parry, David de Lloyd, David Jenkins a'u tebyg) yn cael eu perfformio gan unawdwyr a phartïon o blith rhengoedd y myfyrwyr. Yn y man, daeth enwau Gwen Taylor, Tudor Williams, Lewis Mendus, a J. Ifor Rees²⁰ yn gyfarwydd yn y gymdogaeth, yn bennaf oherwydd eu doniau fel cantorion a dehonglwyr medrus y traddodiad brodorol Cymreig.²¹ Ar yr adegau cyhoeddus hyn hefyd, gwahoddwyd rhai fel Jenny Parry 'Telynores Lleifiad', Reuben Roberts, a Lloyd Wyn Roberts (meibion John Roberts 'Telynor Cymru') a Robert Williams 'Eos y Berth' o Lanllechid, i ddarparu eitemau ar y delyn a datganiadau cerdd dant er diddanwch i'r cynulleidfaoedd a ddeuai ynghyd. Ond Annie Ellis yn anad neb arall fu'n ysbrydoliaeth i aelodau'r Gymdeithas Geltaidd yng Ngholeg Aberystwyth i wahodd Mrs Mary Davies i'w hannerch, fel y cyfeiriwyd yng nghofnodion y Gymdeithas ar 8 Tachwedd 1909:

Gan fod Mrs Mary Davies, Llundain, yn ymweld â'r dref yma yn mis Ionawr, penderfynwyd yn ôl awgrym Mrs T. E. Ellis ein bod yn gofyn iddi roi darlith i ni ar 'Welsh Folk Songs' ar nos Fercher, Ionawr 12fed, 1910.²²

Roedd hwn yn benderfyniad arwyddocaol a roes fod i ddatblygiadau allweddol yn hanes Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn y canolbarth ac a fu'n sbardun i weithgarwch ymarferol yn y maes ymysg trigolion Aberystwyth a'r cylch. Gwen Taylor, myfyrwraig yn Adran y Gymraeg oedd

yn gyfrifol am drefnu'r adloniant cerddorol ar gyfer y cyfarfod cyhoeddus pwysig hwnnw ddechrau Ionawr 1910 a chanwyd enghreifftiau o alawon gwerin Cymru gan Dora Rowlands (Llangollen) a Jennie Williams (Aberystwyth)²³ cyn i Mary Davies ei hun ddwyn y ddarlith i ben drwy ganu dwy alaw draddodiadol syml.²⁴ Fel hyn yr adroddwyd am yr achlysur yng nghofnodion y Gymdeithas Geltaidd:

Darlithiodd y gantores enwog yn Seisnig [*sic*] gan nad oedd yn ddigon hyderus ynddi ei hun i geisio areithio yn iaith y Gymdeithas. Yr oedd y cyfarfod yn hir-ddisgwyliedig, ac erbyn wyth o'r gloch, yr oedd Neuadd yr Arholiadau yn orlawn o fyfyrwyr, aelodau, y 'staff' ac ymwelwyr sydd yn enwog yn hanes Cymru, fel Mrs T. E. Ellis.²⁵

Ar gais arbennig golygydd cylchgrawn y myfyrwyr, lluniwyd crynodeb o'r ddarlith hanesyddol hon gan Gwenan Jones, Trysoryddes y Gymdeithas Geltaidd a myfyrwraig yn yr Adran Addysg, a ymddangosodd yn rhifyn Chwefror 1910 o *The Dragon*:

Mrs Davies said that folk-songs were the direct expression of the mind of the people. Music is the most expressive of the arts, and true folk-music is an outcome of the whole man. It is national rather than individual, and is distinct from art music. There are three kinds of folk-music. The first consists of Harp melodies, which are instrumental airs and 'penillion' airs ...

The second class, Ballad music, is less Welsh in character and far inferior to the third class, Folk songs. These are often found with the original words, and the old modal scales have been kept. This has caused seeming irregular rhythms and unnatural modulations, which were taken as ignorant errors by 18th century folk critics. But the loss of these would rob the folk-song of their characteristic qualities which give them their charm.²⁶

Wedi dwyn sylw'r gwrandawyr i gyd-destun cerddoriaeth frodorol y genedl ac at rai o brif gasgliadau cerdd y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan gynnwys cyhoeddiadau John Parry 'Ddall' (Rhiwabon), Edward Jones 'Bardd y Brenin' a Maria Jane Williams (Aberpergwm), cyfeiriodd Mary Davies yn ei hanerchiad at y gwaith arloesol o gywain caneuon gwerin a gyflawnwyd gan gefnogwyr y maes ym Mangor:

Many [folk songs] are still uncollected, and the Folk-Song Society, together with the 'Canorion' of Bangor are doing their best to unearth them.²⁷

Roedd cyfraniad Dr John Lloyd Williams i fyd cerddoriaeth draddodiadol y genedl, ynghyd â gwerth arbennig *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* a ymddangosodd am y tro cyntaf yn 1909, yn hysbys i lawer yn y cylchoedd Cymreig bryd hynny ond Coleg y Gogledd fu'n brif ganolfan i weithgarwch o'r fath ers cyfnod sefydlu'r Gymdeithas Alawon Gwerin yn 1906 a nod y mwyafrif o garedigion y maes yr adeg honno oedd ennyn mwy o gefnogaeth mewn ardaloedd eraill ac ymhlith carfanau eraill o Gymry'r dydd. Llwyddiant ysgubol fu ymweliad Mary Davies ag Aberystwyth y mis Ionawr hwnnw. O ganlyniad i'w darlith ac ymhen dim o dro, penderfynwyd sefydlu cangen o Gymdeithas y Canorion yn y Coleg gyda'r gobaith y byddai'r bwrwm a welwyd ym Mangor yn gynharach yn y ganrif yn cydio yn y canolbarth hefyd. Fel yr hysbysodd Ysgrifennydd y Gymdeithas Geltaidd ar drothwy 1910:

Creodd araeth [*sic*] ddyddorol ac addysgiadol Mrs Mary Davies FRAM, Llundain, gymaint o ddyddordeb ymhlith y myfyrwyr mewn alawon gwerin nes y teimlwyd fod yr amser wedi dod i sefydlu Cymdeithas o Ganorion yn y Coleg tebyg i'r Gymdeithas sydd eisoes mewn bodolaeth ym Mangor.²⁸

Mae'n rhaid bod yr awydd i sefydlu cangen o Gymdeithas y Canorion yn Aberystwyth ynghyd â datblygiadau o'r fath yn galonidid aruthrol i arloeswyr yn y maes bryd hynny ac yn gyfrwng i wireddu breuddwydion J. Lloyd Williams fel Golygydd y *Cylchgrawn* ac Alfred Perceval Graves fu mor hael ei gefnogaeth i'r gwaith yn y Gogledd. Ond er cymaint y brwdfrydedd i sefydlu Cymdeithas y Canorion yn Aberystwyth, cafwyd er hynny, gryn anghytundeb ynghylch statws a swyddogaeth cangen o'r fath ymhlith aelodau'r Gymdeithas Geltaidd yn y Coleg. Penodwyd unigolion i wasanaethu fel aelodau cynorthwyol ar bwyllgor y Gymdeithas Geltaidd, ac yn eu plith yr Athro Edward Edwards (Llywydd), yr Athro David Jenkins (Llywydd Mygedol yr Adran Gerddoriaeth), yr Athro Edward Anwyl (Llywydd Mygedol yr Adran Lenyddol), D. Brynmor Anthony (Is-lywydd), Gwen Taylor (Trysoryddes), R. R. Jones, Dolgellau (Ysgrifennydd) a Dora Rowlands (Aelod o'r Pwyllgor).²⁹ Ond ystyrid Cymdeithas y Canorion yng Ngholeg Aberystwyth yn adain o'r Gymdeithas Geltaidd yn hytrach na

chymdeithas annibynnol, a chyfrifoldebau pennaf yr is-bwyllgor hwn oedd cynnal gweithgaredd a pherfformiadau cerddorol fel cyfrwng diddanwch o fewn i'r Coleg ac yn y gymuned y tu hwnt. Er 1899 roedd yr arfer o drefnu Cyfarfod Adloniadol (ynghyd ag eitemau cerddorol), eisteddfod ac Ymgomwest (*soirée*) flynyddol, pan ddeuai telynorion a datgeiniaid canu penillion adnabyddus i'r Coleg i ddiddanu'r myfyrwyr a'u gwesteion, wedi'u hen sefydlu. Sicrhau parhad yr adloniant cerddorol hwnnw oedd dyletswydd pennaf y Canorion yn Aberystwyth yn y misoedd cynnar hynny ac er i natur a chynnwys y cyngherddau hyn droi yn fwy Cymreig a gwerinol eu naws yn dilyn ymweliad Mary Davies yn 1910, nid oedd casglu na chofnodi alawon gwerin yn y gymdogaeth y tu hwnt i'r Coleg yn flaenoriaeth i'r aelodau ar y dechrau, o'i gymharu â'r hyn a gyflawnwyd gan Gymdeithas y Canorion ym Mangor rai blynnyddoedd ynghynt.³⁰ O dipyn i beth, fodd bynnag, gwelwyd ôl eu dylanwad a thyfodd eitemau o ganu traddodiadol Cymru yn fwy amlwg a phoblogaidd yng nghyngherddau wythnosol Coleg Aberystwyth. Sefydlwyd triawdau a phedwarawdau ymhlith y myfyrwyr yn bennaf i berfformio trefniannau lleisiol o ganeuon gwerin y genedl ac er bod rhai casglyddion digon dibrofiad efallai ymhlith aelodau'r Canorion hynny, ni chafwyd yr un cyswllt agos rhwng cywain alawon brodorol a'u perfformio yn seremonïau a chyfarfodydd cyhoeddus Aberystwyth fel a gafwyd gan John Morris, R. E. Vaughan Jones, Owen Bryngwyn, a'u tebyg yng Ngholeg y Gogledd ym Mangor yn gynharach yn y ganrif. Fodd bynnag, Dora Rowlands (Dora Herbert Jones yn ddiweddarach) oedd cantores amlycaf Canorion Aberystwyth yn y cyfnod rhwng 1910 ac 1913. Hi, yn anad neb arall, fu'n ymgorffori'r adfywiad canu gwerin a oedd ar droed yng Nghymru'r adeg honno, a'i deongliadau meistrolgar hi o alawon fel 'Doli', 'Yr Hen Erddyan', a 'Gwcw Fach' fu'n gyfrwng i ennyn diddordeb ymhlith y myfyrwyr eraill yn y maes.³¹ Ei gallu anghyffredin hi fel unawdydd a chantores draddodiadol fu'n fodd hefyd i ddenu sylw a chefnogaeth gerddorol rhai fel Lewis Knight,³² Tudor Williams³³ a Gwen Taylor, ac yn y man y myfyrwyr hyn a ystyrir yn bedwarawd lleisiol swyddogol Cymdeithas y Canorion yn y coleg.³⁴

Yn eisteddfod flynyddol y Gymdeithas Geltaidd ym mis Chwefror 1910³⁵ gwahoddwyd y cyfansoddwr David Jenkins (Pennaeth yr Adran Gerdd) a Madam Lucie Barbier, athrawes ganu swyddogol y Coleg, i feirniadu'r cystadlaethau cerdd a chyhoeddwyd yn ystod y digwyddiad hwnnw y byddai

Mrs Tom Ellis yn cynnig gwobr o £1-1-0 am gasgliad gwreiddiol o alawon Cymreig anghyhoeddedig yn Eisteddfod y Gymdeithas y flwyddyn ddilynol.³⁶ Roedd hyn yn arwydd pellach o haelioni a chefnogaeth ymarferol Annie 'Cwrt Mawr' ynghyd â'i dymuniad i weld sefydlu'r arfer o gasglu caneuon brodorol fel rhan naturiol o weithgaredd yr achos yn Aberystwyth, yn unol â nod ac amcanion Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn genedlaethol. Roedd cynnal cystadleuaeth o'r fath yn adlewyrchu'r hyn a ddigwyddai yn Eisteddfodau Cenedlaethol y cyfnod hefyd a chynrychiolai awydd swyddogion Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru i weld casglyddion caneuon traddodiadol ar waith ym mhob cwr o Gymru.³⁷ O ganlyniad i'w darlith, roedd Mary Davies wedi llwyddo i ddarbwylllo nifer o efrydwyr Cymraeg Aberystwyth o werth arbennig y caneuon traddodiadol hyn a'r angen i ddwyn deunydd ynghyd ar fyrder er mwyn sicrhau perfformiadau ohonynt a'u poblogeiddio ymhlith Cymry'r dydd. Cydnabu hefyd mai trwy gyfrwng y traddodiad llafar yn unig y byddai alawon o'r fath yn goroesi, a than arweiniad di-syfl Annie Ellis mentrwyd i ffurfioli gwaith y Canorion cynnar yn Aberystwyth, er mwyn cydymffurfio â dyheadau arloeswyr Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn y Gogledd.

Erbyn canol mis Mawrth 1910, ddeufis wedi ymweliad Mary Davies â'r dref, roedd yr ysfa i ddeall mwy am fyd y caneuon gwerin ar gynnydd ymhlith y myfyrwyr a mabwysiadwyd yr arfer o gael nodiadau yn olrhain hanes, cefndir a thras yr alawon brodorol berfformiwyd yng nghyngherddau cyhoeddus y Gymdeithas Geltaidd – arwydd pellach o ddiddordeb y datgeiniad yn y traddodiad a'u hawydd i ddrychafu hynodrwydd y grefft ymysg cynulleidfaoedd digon anwybodus y cyfnod. Fel y dengys rhaglen y cyngerdd a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 1910:

Alaw: Cân y Broga

Mr Tom Williams

Cawsom yr alaw hon oddi wrth Mr Jack Edwards, Great Darkgate Street, Aberystwyth yr hwn a glywodd ei chanu gan frodor o Lanon 48 mlynedd yn ôl. Dyddorol yw sylwi fod ystori y broga i'w chael hefyd yn llên gwerin Lloegr – gweler Chappells – 'Book of English folksongs'. Digwydda y flattened 7th fwy nag unwaith yn yr alaw, ac y mae hyn yn nodweddiadol o wir alawon gwerin. Y mae hon heb ei chyhoeddi hyd yn hyn a chanwyd hi y noson hon am y tro cyntaf yn gyhoeddus.³⁸

Yn yr un cyngerdd, canodd yr Athro David Jenkins, Pennaeth yr Adran Gerdd, y gân ‘Rhywun’ ar yr alaw ‘Clywais lawer sôn a siarad’ a gasglwyd ganddo yn ardal Aberaeron, ac yn dilyn cymeradwyaeth y gynulleidfa, ymrwymodd i gynnal noson arbennig ar faes alawon gwerin dan adain y Gymdeithas Geltaidd yn 1911.³⁹ Ond roedd cyngerdd mis Mawrth 1910 yn achlysur o bwys hefyd am mai dyma pryd yr ymddangosodd y Ffrances, Madam Lucie Barbier, am y tro cyntaf yn canu caneuon gwerin yn y Gymraeg. Fel yr adroddodd gohebydd *The Dragon*:

Mae Madam Barbier, serchog wraig ein hathraw Ffrancaeg [*sic*] newydd eisoes wedi ymdaflu yn hollol i fywyd Cymreig yn ogystal ag i fywyd cyffredinol y Coleg. Canodd yn Gymraeg am y tro cyntaf yng nghyngerdd mis Mawrth eleni pryd y clywsom hi yn canu ‘Doli’, alaw a gasglwyd gan J. Lloyd Williams. ‘Ffarwel Mari’ a ‘Gwew fach ...’ Nid yn aml y clywir y fath ganu swynol a chlasurol hyd yn oed yn ein Coleg ni.⁴⁰

Bu’r cyngerdd dan nawdd y Canorion y mis Mawrth hwnnw yn llwyddiant ac yn gyfrwng i ddwyn sylw penodol i faes canu gwerin y genedl ymhlith myfyrwyr Aberystwyth, fel y tystia’r Ysgrifennydd wrth gofnodi ei atgofion o’r digwyddiad:

Mae y Gymdeithas [Y Canorion] wedi dechrau yn odidog dan nawdd Y Gymdeithas Geltaidd a hyderwn y bydd iddi dyfu yn gyflawn faintioli, yn anrhydedd i’r fam-Gymdeithas. Rhwydd hynt iddi.⁴¹

Cyfrol J. Lloyd Williams, *Ceinion y Canorion*⁴² oedd prif ffynhonnell brintiedig cantorion Coleg Aberystwyth yr adeg honno ac yn wyneb y fath fwrwm cerddorol, cynyddodd y diddordeb ym myd yr alawon gwerin a’r arferion brodorol i’r fath raddau fel y gwahoddwyd John Humphreys Davies, Cofrestrydd y Coleg, i draddodi darlith ar fyd y ‘Baledi Cymreig’ ddiwedd mis Tachwedd 1910.⁴³ Roedd Mary Davies yn bresennol bryd hynny hefyd, yn bennaf er mwyn canu rhai o’r enghreifftiau cerddorol ac i gyflwyno eitemau perthnasol a recordiwyd ganddi mewn gwahanol ardaloedd o Gymru drwy gyfrwng y ffonograff.⁴⁴ Ers dechrau’r flwyddyn golegol ym mis Hydref 1910, etholwyd swyddogion newydd i weithredu ar bwyllgor Cymdeithas y Canorion i barhau’r gwaith da a gyflawnwyd eisoes. Yn eu plith yr oedd:

Yr Athro Stanley Roberts (Llywydd)

Mr John Hughes (Is-lywydd)

Mr Eddie J. Thomas (Ysgrifennydd)

Miss Dora Rowlands a Miss Dilys Jones (Aelodau o'r Pwyllgor)⁴⁵

Er cymaint oedd y cyfrifoldeb i drefnu eisteddfod, cyngherddau achlysurol ac Ymgomwest flynyddol, ni chaniatawyd i'r Canorion yn Aber fod yn gorff annibynnol ac fe barhaodd yr aelodau i weithredu dan oruchwyliaeth swyddogion y Gymdeithas Geltaidd, a hynny er gwaethaf eu llwyddiant a'u dylanwad yn y Coleg.⁴⁶ O bryd i'w gilydd deuai rhai o'r Canorion ynghyd i ddiddanu mewn cyngherddau eraill yn y Coleg – digwyddiadau fel *The Capping Soirée*⁴⁷ adeg y seremonïau graddio a'r *Annual Sports Concert*⁴⁸ a rhoddai hyn gyfle i ddwyn sylw pellach i'r diddordeb cynyddol ym myd caneuon gwerin Cymru, yn enwedig ar gyfer y myfyrwyr di-Gymraeg a'r ymwelwyr o wledydd tramor. Dora Rowlands, Gwen Taylor, Lewis Mendus, a Tom Williams oedd y diddanwyr mwyaf gweithgar a llwyddiannus yn hyn o beth. Fel y cyfeiria un o ohebwyr *The Dragon*:

We have been led confidently to expect artistic and sympathetic performances from them⁴⁹

sy'n ategu apêl a phoblogrwydd y cantorion hyn ar adeg pan oedd y gefnogaeth i faterion Cymreig, yn enwedig materion a ddaliai gyswllt agos â chefn gwlad Cymru, yn prysur ddirywio.

Deuai Annie Ellis i gefnogi digwyddiadau o'r fath a galwyd arni'n aml i gyflwyno'r alawon neu i draddodi anerchiad byr i ddwyn sylw i weithgaredd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru mewn ardaloedd eraill yr adeg honno. Fel un o Is-lywyddion CAGC⁵⁰ ynghyd â David Lloyd George, Yr Arglwydd Mostyn a Syr John Rhys, roedd yn ymwybodol o bwysigrwydd lledaenu enw da'r Gymdeithas, denu aelodau newydd, a sicrhau mwy o gasglyddion ifanc brwdfrydig fyddai'n barod i genhadu a chywain alawon traddodiadol mewn ardaloedd gwahanol o Gymru a'u dwyn i sylw J. Lloyd Williams ym Mangor. Gobaith Annie Ellis oedd y deuai cynnyrch y casglyddion newydd hyn yn y man yn ddeunydd i'w gyhoeddi ar dudalennau *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* ac y byddai'n gyfrwng i ymestyn repertoire ac ehangu gorrwylion myfyrwyr ac aelodau staff y 'Coleg ger y lli'.

Yn eisteddfod y Gymdeithas Geltaidd ym mis Mawrth 1911 er enghraifft, dyfarnwyd gwobr o hanner gini i John Hughes (o Bencader), myfyriwr yn

Adran y Gymraeg, am gasglu tair cân werin Gymreig anghyhoeddedig ac er mai ef yn unig fu'n barod i fentro y flwyddyn honno,⁵¹ fe barhaodd Annie Ellis i noddi'r gystadleuaeth am flynyddoedd. Ei gobaith oedd y deuai alawon newydd i olau dydd a fyddai'n cynnal y diddordeb yn y maes ac yn diwallu anghenion cynheiliaid y traddodiad yn dilyn eu cyhoeddi ar dudalennau *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*.⁵²

Ym mis Mawrth 1911 cynhaliwyd dau ddigwyddiad arall o bwys yn hanes Canorion Aberystwyth.⁵³ Fel rhan o ddathliadau Gŵyl Ddewi ar 3 Mawrth 1911, perfformiwyd detholiad o'r chwareugan *Aelwyd Angharad* gan J. Lloyd Williams ac L. D. Jones 'Llew Tegid' fu mor boblogaidd yn siroedd y gogledd adeg sefydlu Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru.⁵⁴ Yn ogystal â darparu diddanwch o safon, llwyddodd y perfformiad o'r opereta yn Aberystwyth i uno'r Cymry a'r di-Gymraeg, fel yr eglurodd gohebydd *The Dragon*:

In a College where many cannot speak Welsh there is an obvious difficulty, which it is unwise to ignore, but a very solution was found this year in the performance of selections from the operetta 'Aelwyd Angharad'. Ignorance of Welsh was not a barrier to the enjoyment of the music and the company made a charming picture in their quaint costumes.⁵⁵

Oherwydd y prysurdeb eisteddfodol a'r prinder amser i ymarfer ar yr adeg honno o'r flwyddyn, sylwodd gohebydd *The Dragon* nad oedd pob agwedd ar y perfformiad cyntaf hwnnw o'r *Aelwyd* yn deilwng o ganmoliaeth:

The performance itself was a little ragged, especially in the concerted pieces, and the enunciation of some of the speakers was not clear. But despite these indications of insufficient rehearsal, the presentation of the Operetta as a whole was very effective.⁵⁶

Dora Rowlands oedd seren y perfformiad o *Aelwyd Angharad* yn 1911 (roedd hi erbyn hynny wedi ennill ei lle fel cantores fwyaf adnabyddus y Coleg) ac yn ôl ei harfer fe lwyddodd i swyno'r gynulleidfa trwy gyfrwng ei chymeriadu dihafal a'i dehongliad cyfareddol o'r alawon Gymreig:

The leading parts were well sustained and, in particular, the singing of Miss Dora Rowlands, as Gwen, gave unmixed pleasure. Llelo Llawchwith (Mr Roger Thomas), however would do well to

check his tendency to exaggerate humour into buffoonery. Restraint would add greatly to the force of his acting.⁵⁷

Roedd carfan o fyfyrwyr Bangor a Chaerdydd ynghyd â rhai cyn-fyfyrwyr o goleg Aberystwyth yn bresennol yn y perfformiad cyntaf hwn yn y canolbarth o *Aelwyd Angharad*, ac fe arweiniodd hynny yn y man at ledaenu poblogrwydd y gwaith i ardaloedd eraill o Gymru.⁵⁸ Llwyddiant yr achlysur ac apêl cyffredinol y gerddoriaeth a barodd i ohebydd *The Dragon* annog aelodau'r Gymdeithas Geltaidd i fentro eto i'r maes a dwyn adloniant tebyg i sylw myfyrwyr y dyfodol.⁵⁹

Uchafbwynt gweithgaredd cerddorol y Canorion yn 1911 fodd bynnag, oedd ymweliad pedwar o fyfyrwr Aberystwyth â Pharis i berfformio alawon gwerin Cymreig dan gyfarwyddyd Madam Lucie Barbier, athrawes leisiol y Coleg.

Fel prif gynrychiolydd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn y canolbarth a *chaperone* i'r diddanwyr ifanc, teithiodd Annie Ellis yn eu cwmni'n ogystal. Fel yr adroddodd J. Lloyd Williams flynyddoedd lawer yn ddiweddarach:



Dora Rowlands (Llangollen) yn 1912. Myfyrwraig yn Adran y Gymraeg, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, a chantores draddodiadol amlycaf Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn y cyfnod cynnar.

AMPHITHÉÂTRE RICHELIEU - SORBONNE

CONFÉRENCE

sur le Folk - Lore Gallois

Par le Professeur J. H. DAVIES M. A.

Registrar of the University College of Wales (Aberystwyth).

ET

AUDITION DE CHANTS GALLOIS

*Sous le Patronage de l'Association
des Professeurs de Langues Vivantes de l'Enseignement Public*

Le VENDREDI 31 MARS 1911, à 8 heures 1/2 du soir

Ouverture des portes à 8 heures.



CARTE D'INVITATION VALABLE POUR DEUX PERSONNES

*Tocyn mynediad i gyngerdd y Pedwarawd Cymreig ar 31 Mawrth 1911
yn y Sorbonne, Paris (Llun: Mari Ellis, Aberystwyth)*

The visit of four Welsh students from Aberystwyth – Miss Dora Rowlands, Miss Gwen Taylor, Mr Tudor Williams and Mr L.S. Knight – to Paris, under the able guidance of Madame Barbier is worth mentioning. They sang six Welsh folk-tunes arranged in parts, and nine as solos, at the *Salle des Sociétés Savantes*, and also at the *Sorbonne*, and gave great delight to the audiences assembled.

In a letter dated March 31st [1911], Mrs T. E. Ellis who, with Mrs Herbert Lewis accompanied the party says: 'I must write to tell you of the splendid reception the 'Caneuon' have had. The students who came over from Aberystwyth have done their part well, and have charmed the various audiences that have listened to them. 'Yr Hen Erddygan' has been the favourite quartette. Last night at a very 'smart' gathering, the audience began to applaud before the end of the second line. It really has been delightful hearing these simple and charming Welsh songs sung in this gay city – where simplicity is so lacking ...

Tonight the students sing at the *Sorbonne* and Mr Timothy Lewis is giving a lecture on 'Welsh Folk Songs and Music'.⁶⁰

Er mai trafod llên gwerin a thraddodiadau llenyddol y gwledydd Celtaidd⁶¹ ac nid ymdriniaeth o ganeuon a cherddoriaeth werin Cymru oedd testun darlith Timothy Lewis y noson honno,⁶² fe gafwyd ymateb hynod gadarnhaol i holl berfformiadau'r pedwarawd ac i safon a chynnwys y trefniannau a ganwyd ganddynt. Nid ar chwarae bach yr oedd ymgymryd â menter fel hon. Y bwriad yn ystod yr ymweliad â Pharis yn 1911 oedd cynnal cyfres o gyngherddau hwnt ac yma yn y ddinas er mwyn arddangos doniau'r pedwarawd a dathlu cyfoeth yr alawon Cymreig ymysg y trigolion. Drwy gysylltiadau Madame Lucie Barbier llwyddwyd i ddenu nawdd a chefnogaeth ar gyfer y digwyddiadau unigol gan gymdeithasau, sefydliadau ac unigolion gwahanol, fel a ganlyn:

- | | |
|--------------|--|
| Mawrth 28ain | Cyngerdd prynhawn dan adain <i>Musique d'Ensemble</i> a (1911)
chyda nawdd Mme. Desmarais |
| Mawrth 29ain | Cyngerdd yr hwyr dan adain <i>Le Lied en Tous Pays</i> yn (1911)
<i>La Salle des Sociétés Savantes</i> |
| Mawrth 30ain | Cyngerdd prynhawn dan adain <i>Audition d'Élèves</i> (1911) |
| Mawrth 30ain | Cyngerdd yr hwyr yn <i>La Sociétés d'Entre Nous</i> (1911) |
| Mawrth 31ain | Cyngerdd prynhawn dan adain <i>Musique d'Ensemble</i> a (1911)
chyda nawdd Mme. Benard |
| Mawrth 31ain | Cyngerdd yr hwyr dan adain <i>L'Association des</i> (1911)
<i>Professeurs de Langues Vivantes de l'Enseignement Public</i>
yn Amphitheatre Richelieu, Prifysgol Paris y Sorbonne ⁶³ |

Er bod rhai aelodau o'r pedwarawd wedi mynegi pryder fod gormod o ddeunydd traddodiadol yn rhaglen y cyngherddau a gynhaliwyd ganddynt ym Mharis, mae'n amlwg yn ôl tystiolaeth papurau dyddiol y cyfnod i'r cynulleidfaoedd a ddaeth ynghyd gael eu bodloni gan gyfoeth y lleisiau ifanc, ansawdd y sain, ac amrywiaeth y caneuon brodorol Cymreig a berfformiwyd.⁶⁴ Fel hyn yr ymatebodd golygydd *Le Pays Breton* yn dilyn y cyngherddau:

A group of students from the Welsh University in Aberystwyth came to Paris last week to show the French that if the Welsh are the best football players in the world, they are also the best singers.⁶⁵

Bu'r digwyddiad hefyd yn gyfrwng i ddwyn sylw i'r berthynas agos rhwng

Cymru a Llydaw, i'r cysylltiadau ieithyddol a'r tebygrwydd diwylliannol rhyngddynt. Yn ogystal, bu perfformiadau'r pedwarawd o Gymru yn gymorth i danio chwa o genedlaetholdeb ymysg Llydawyr y brifddinas a chafwyd apêl ar dudalennau'r wasg i ddefnyddio'r iaith a sicrhau ei pharhad drwy gynnal cyngherddau tebyg yn y dyfodol. Roedd ymateb brwdfrydig René Lenormand, sylfaenydd cymdeithas Le Lied en Tous Pays, a sefydlwyd gan gerddorion a llenorion y ddinas i hyrwyddo caneuon Ffrengig mewn gwledydd tramor a chaneuon rhyngwladol yn Ffrainc, yn adlewyrchu barn y mwyafrif a ddaeth ynghyd i'r cyngherddau Cymreig:

Bravo! Everything went beautifully and I am conquered by these voices, both fresh and throaty at the same time. They have a strength which is not found here, and also a sonorous quality completely captivating.⁶⁶

Ar dudalennau papur dyddiol *Le Matin* ar 2 Ebrill fodd bynnag y cafwyd y ganmoliaeth amlycaf i gamp a gorchest y cantorion ifanc:

They are not professionals; they are students. Their voices are perfect; their style is flawless. They sang Welsh folk songs in excellent harmony; some were serious or heroic, some were cheerful and tender. The songs have a unique and characteristic colour and accent, which was noted eloquently by Prof. Lewis. These young people, Messrs. Williams and Knight, Misses Rowlands and Taylor, who were warmly acclaimed and received by the public, were accompanied by M^{me}. Barbier, a French woman, to whom we are indebted for having brought our music to England. In a charming short address, she expressed the wish that our composers might go to Wales and be inspired by the unpolished and healthy art which was made known to us, and she pointed out that this would be one of the nicest ways by which one could demonstrate the 'entente cordiale'.⁶⁷

Parhaodd cyswllt agos Annie Ellis â Choleg Aberystwyth trwy gydol 1912 ac 1913. Sicrhaodd ail berfformiad o *Aelwyd Angharad* gan aelodau'r Canorion ym mis Chwefror 1912⁶⁸ a phan benodwyd hi'n Llywydd Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr adeg y Pasg y flwyddyn honno (arwydd pellach o'r parch eithriadol oedd iddi ymhlith Cymry Aberystwyth y cyfnod hwnnw), trefnodd adloniant yn seiliedig ar alawon a cheinciau traddodiadol Cymreig yng nghwmni Dora Rowlands a'r pedwarawd lleisiol a fu ym

Mharis y flwyddyn flaenorol.⁶⁹ Trwy gyd-ddigwyddiad, roedd Tom Ellis wedi trefnu achlysur tebyg a oedd yn cyfuno cerddoriaeth a barddoniaeth Gymraeg i ddwyn cyfarfod cyntaf o gyn-fyfyrwyr y Coleg ynghyd un mlynedd ar hugain ynghynt.

Fel gweithwraig ddyfal a chefnogydd selog i fywyd diwylliannol Aberystwyth, cyflawnodd Annie Ellis waith gorchestol fel prif gynrychiolydd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn y canolbarth cyn dyfodiad Dr J. Lloyd Williams i'r Coleg yn 1914.⁷⁰ Erbyn y cyfnod hwnnw, roedd y gamp o gynnu diddordeb yn y maes, o godi'r ymwybyddiaeth o alawon y traddodiad, a chenhadu ymhlith cynheiliaid y gân wedi eu cyflawni a hynny'n unig oherwydd ei hymdrechion diflino hi. Yn yr un modd, roedd y gwaith o gasglu alawon brodorol yn ardaloedd diarffordd Sir Aberteifi (Tregaron, Llandysul, Pen-uwch a'r cyffiniau) hefyd yn prysur fynd rhagddo – ac Annie 'Cwrt Mawr' yn ddolen gyswllt bwysig rhwng casglyddion profiadol y maes (rhai tebyg i'r Fonesig Ruth Herbert Lewis) a'r gymdogaeth y gwyddai hi gymaint amdani.

Wrth gyfeirio at lwyddiant yr ymgyrchoedd casglu alawon gwerin hyn ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, cyfeiriodd J. Lloyd Williams at y newid graddol a fu yng ngweithgaredd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn y cyfnod:

The Officials of the Society continue to collect interesting folk songs and to accumulate more information about those already collected. The centre of interest has this year shifted from Caernarfon and Meirioneth to Cardiganshire and Montgomery where Mrs Mary Davies assisted by Mrs T. E. Ellis, the Misses Davies, Plas Dinam and others have secured some interesting 'finds' and several new workers. Many phonographic records have also been obtained in this district.⁷¹

Ymweld â Sir Aberteifi i feirniadu yn Eisteddfod Llangeitho wnaeth Mary Davies ym mis Gorffennaf 1910 ac yn ôl ei harfer, gwnaeth yn fawr o'r cyfle drwy gasglu rhai caneuon gwerin nodweddiadol o'r gymdogaeth yn ystod ei arhosiad yn y canolbarth. Fel un o gasglyddion mwyaf profiadol y Gymdeithas yr adeg honno, roedd cael cefnogaeth Annie Ellis a oedd yn enedigol o'r fro ac yn gyfarwydd â'r ardal a'i thrigolion ac a siaradai Gymraeg, yn fanteisiol iawn iddi. Yn ystod ymweliad Mary Davies â Llangeitho yn 1911 y recordiwyd cân 'Y Ddau Farch' gan wraig fferm Penrheol (Llangeitho) a hynny drwy gyfrwng ffonograff ac ym mharlwr

fferm y Cwrt Mawr.⁷² Tra oedd yn yr eisteddfod, fodd bynnag, cynigiodd Annie Ellis wobr o ddwy gini am y perfformiad gorau o gân werin Gymreig, sy'n tystio ymhellach i'w hawydd i gefnogi a diogelu hen arferion y traddodiad llafar yn ei chymdogaeth enedigol.⁷³

24. Y DDAU FARCH. (*The Two Steeds.*)

Doh G.

Pan oe - dwn ar fo - reu - ddydd, Tal and the
doodle and the doodle and the day, Yn rhod - io maes o'm
cy - - - fydd cy - far - fod wnae - thum
a dau farch Yn ym - gom ar y my - - -
- nydd Rei tal and the doodle and the doodle and the day, Yn
ym - gom ar y my - - - nydd.

2 "Dywedai y cel [ceffyl] gwannaf
'Nawr wrth y ceffyl cryfaf—
'Fe fum i undydd yn fy mharch
Yn gystal march a thithau.

3 Pan ês yn hen glyhercyn
Ces gario yd i'r felin,
A beth ddigwyddodd i fy rhan
Ond gogred gwan o cisin.

4 Tynasant fy mbedolau,
Gyrrasant fi i'r mynyddau,
A thra bo anadl yn fy ffröen
Ni ddeuaf byth tuag adre'.⁷⁴

'Y Ddau Farch' – cân werin a recordiwyd gan Mary Davies yn ffermdy Cwrt Mawr, Llangeitho (Llun: *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*)

Mae'n rhaid bod y cyfle i gydweithio unwaith eto gyda Mary Davies ar yr achlysur hwn wedi bod yn brofiad amheuthun i Annie Ellis ac yn baratoad da ar gyfer ei hymweliad ag ardal Llandysul yng nghwmni'r Fonesig Ruth Herbert Lewis ym mis Mehefin 1913. Cyfeiria rhifyn cyntaf *Cylchgrawn Alawon Gwerin Cymru* at gyfoeth y caneuon gwerin a oedd ar gael yn yr ardal ddeheuol hon o'r sir. Yno, ar lannau afon Teifi, yn ôl J. Lloyd Williams y cofnodwyd 'Ym Mhontypridd mae 'nghariad', 'Y Fwyalchen Ddu Bigfelen', a'r gân 'A ei di'r Perot Pêr?' a ymddangosodd yn llawysgrif 'Orpheus' o ganu gwerin cynnar a gyflwynwyd yn Eisteddfod Llangollen yn 1858.⁷⁴ Gwyddai John Humphreys Davies yn dda am yr ardal hefyd, ac am gyfoeth geiriol caneuon a baledi'r fro,⁷⁵ ac yn ddi-os, mae'n siwr iddo gyngori ei chwaer ar y mater a'i chyfeirio i'r mannau lle yr oedd bywyd diwylliannol y gymdogaeth ar ei gryfaf. Yn ogystal, tystia un o lythyrau Ruth Herbert Lewis at Amy Preece, Ysgrifenyddes Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru bryd hynny, eu bod ar un o'r teithiau casglu wedi cael cymorth a chyfarwyddyd un o gyn-fyfyrwyr Aberystwyth a darlithydd yng Ngholeg Hyfforddi Abertawe, yn ystod eu harhosiad yn y dref.⁷⁶ Am wythnosau cyn dyfodiad Annie Ellis a Ruth Herbert Lewis i ardal Llandysul bu Miss Mary Hughes⁷⁷ (chwaer John Hughes, myfyriwr yn Adran y Gymraeg, Coleg Aberystwyth, a'r un a gafodd y wabr am y casgliad gorau o alawon gwerin anghyhoeddedig yn eisteddfod y Gymdeithas Geltaidd yn 1911) yn ddiwyd yn chwilio am gantorion a chefnogwyr canu gwerin y gymdogaeth er mwyn i'r ddau ymwelydd gael eu recordio. Cofnododd Ruth Lewis ei hatgofion o'r daith gasglu yn yr ardal rhwng 24 Mehefin a 26 Mehefin 1913 ar ffurf dyddiadur a chyfeirir ynddo at lwyddiant diamheuol Annie Ellis yn dwyn perswâd ar rai o drigolion y fro i rannu eu caneuon a'u recordio drwy gyfrwng y ffonograff.⁷⁸ Enwogrwydd Annie Ellis, fel gwraig un o gyn-wleidyddion Rhyddfrydol amlycaf ei gyfnod, a'i chyfeillgarwch â rhai o weinidogion Anghydfurfiol blaenllaw'r genedl, fu'r dylanwad pennaf ar gymeriadau ardal Llandysul. Fel y cyfeiria J. Lloyd Williams:

Lady Lewis, Mrs Tom Ellis and Mrs Mary Hughes [*sic*] had an interesting song-collecting experience in the Llandyssul-Llangelor district. 'A great deal of tact and diplomacy had to be used in dealing with the old singers, and the arguments employed varied according to the temperament of the persons. In spite of every effort, they failed to induce one old lady of 96 to sing any of her songs.'⁷⁹

Yn un o'i llawysgrifau cofnododd Annie Ellis eiriau rhai o'r caneuon a glywyd yn ystod y daith yng nghyffiniau Llandysul yn 1913 a hynny am nad oedd Ruth Herbert Lewis yn deall digon o Gymraeg i allu dilyn rhediad nac ystyr y penillion.⁸⁰ Gan Mrs Jenkin Jones, Manordeifi, Charles Street, Llandysul, casglwyd y caneuon canlynol:

Hapus Ddydd

O hapus ddydd pan oeddwn
Yn llon o gylch fy mam,
Heb hidio fawr am undyn,
Gan neb ni fynnwyn gam.
Dedwyddwch lond fy mynwes,
A gwridog ruddiau iach,
Fy oriau'n llawn plaserau,
Pan oeddwn yn blentyn bach.⁸¹

Cân Serch i fy Hen Gariad

Mi welais ryw ddydd fy hen gariad,
Mi welai fy llygaid o draw,
Mi ddaethai yn llon ac yn serchog
Tuag ataf i siglo fy llaw.
Ond nawr ni ddaw e'n agos
Dim mwy na 'ta fe wedi ei gloi.
Rhowch i mi resymol resymau,
Beth ga's eich meddyliau chwi droi.⁸² Shic Shac
Tra byddo calch ar dalcen plas
Ac ar y glomen blufyn glas
A thra bo'r ych yn rhodio'r ddôl,
F'anwylyd fach, ni ddwâi nôl.⁸³

Deryn Bach

Deryn bach yn y llwyn ganai['n] fwyn,
Nes yn synnu gyda'i swyn,
Swyna'i lais, eiria' lu
Ar y gangen fry.

O mae'r deryn wrth ei fodd,
Pan mae'n diolch am bob rhodd,
Moliant Duw, nodau gwiw
Cana'r deryn bach.⁸⁴

Y Wennol

Gwennol fwyn, ti ddaethost eto
I'n dwyn ar gof fod haf ar wawrio,
Wedi bod yn hir ymdeithio,
Croesaw, croesaw iti.

Nid oes un rhyw berchen aden
Mor gariadus [â'r] wen ddolen,
Pawb a'th weled sydd yn llawen
Meddai'r wennol, 'twi, twi, twi'.⁸⁵

Llwyddwyd hefyd i holi Jenkin Jones, ei gŵr (crydd a hanai o Dregaron) wedi iddo ddychwelyd o'i waith. Ond fel y cyfeiria Ruth Herbert Lewis yn ei dyddiadur:

He was rather early Victorian in his choice of songs. He sang us 'Lliw Gwyn Rhosyn yr haf', and 'Yr asyn a fu farw'. He knew 'Hen ŵr mwyn' but could not remember 'Dei Cantwr'. Most of what he knew had been published.⁸⁶

Yn ogystal â'r caneuon hyn, fodd bynnag, cofnododd Annie Ellis ddau bennill o eiriau'r gân serch 'Shôn Dafydd' yn ystod perfformiad Jenkin Jones:

Sion Dafydd

Sion Dafydd a fydd addfwyn
Pan gyntaf gwelais chi
A'ch gwallt oedd fel y frân, Shôn,
A'ch talcen gwyn yn hy.
Ond nawr mae'ch pen yn foel, Shôn,
A'ch barf fel sidan gwyn
A gwywo wnaeth [eich] gruddiau glân
Ond hardd i chwi er hyn.

Am drigain mlynedd hir, Shôn
'Rym wedi byw yn hir,
A charu pan yn ieuanc, Shôn
A charu ry'm o hyd.
Ffarwel yn awr fy annwyl, Shôn,
Mi welaf angau draw,
Cawn gwrdd yfory'n ieuanc,
Ffarwel, rhowch im eich llaw.⁸⁷

Nid nepell o Bencader, cyfarfu Annie Ellis a Ruth Herbert Lewis â James Thomas, gŵr dall o'r Gelli Newydd, Gwyddgrug, a ganodd dair cân iddynt. Yn ei dyddiadur, disgrifia Ruth Herbert Lewis un o'r alawon, 'Cŵn hela', fel a ganlyn:

A delightful tune to an early 17th century ballad (*vide* J. H. Davies) with a prolonged note at the start of each line and the third line repeated very fast.⁸⁸

Er na chofnododd Annie Ellis yr alaw yn y cyswllt hwn, fe sicrhodd fod geiriau tri o'r penillion yn nhafodiaith de Sir Aberteifi wedi eu diogelu:

Cŵn hela

Pan oeddwn yn trafeili,
Mewn lle cyfyng ar lan Cothi,
'Mysg y coed ac elti' gwylltion,
Lle mae'n gorwedd bryfed gewrion.

Druan bach, ni allent beidio,
Maent, mae'n fynych wedi treio,
Dim yn hidio am fath enaid,
Dim mwy na'r corgwn dôf a'r defaid.

Beth 'ta hap i Dafis enwog,
O'r Trawsmawr a'i gŵn calonog [*sic*]
Yn nghyd â helwyr tre Caerfyrddin
A tharo maes i ddechrau'ch dilyn.⁸⁹

Dehongliad James Thomas o 'Gân yr Asyn', fodd bynnag, oedd yr un a ddenodd sylw Annie Ellis ar y daith gasglu gofiadwy honno, yn bennaf am fod y cyffyrddiad chwareus yng nghwpled olaf y gân wedi apelio'n fawr ati:

Cân yr Asyn

Trigolion bro a bryniau
A phawb yn ddiwahan,
Cydnwch yma'n gryno
I wrando hyn o gân.
Rhyw hanes am ddamweiniau
Sy'i glywed nos a dydd,
O herwydd hyn mae llawer,
Yn teimlo'i bronnau'n brudd.

Cytgan

Rhowch hanes yn ddi-gêl,
I gadw'r oes a ddêl
Am un o'r prif ddamweiniau,
Fuodd yn y Swansea Vale.

Ar fore dydd yr angladd
Daeth tyrfa fawr ynghyd
I roi'r gymwynas ola'
Tra'i gorph e' yn y byd.
Roedd pob un yno'n wyllo
Heb neb yn gwneuthur gwên,
Wrth weld y corph yn gorwedd
Is-law i gwt yr ên.

Ym mynwent plwyf Llangellwain,
Fe'i claddwyd dan y gwys
A phob un o'i berthnasau,
A deimlent alar dwys,
Ac yno bydd yn gorffwys
Nes codi'r seren ddydd,
A chael pedolau newydd
A'i draed yn rhodio'n rhydd.⁹⁰

Cyn ffarwelio â chyffiniau Llandysul llwyddodd Annie Ellis i gofnodi fersiwn o'r gân 'O bra boys' o ganu Siân Jones, gwraig ffraeth a byrlymus 94 oed o Lanfihangel-ar-arth:

O bra boys

Ow ni'n rhodio pentre Buar

O bra boys;

Fe glywn i fab a merch yn siarad,

O bra boys;

Ar lan afon mewn lle dirgel

Ar fore ddydd, tywyll tawel,

Pan oedd y mab ar bwynt ymadael,

O bra boys.

Clywn ni'r mab yn dweud o ddifrad

O bra boys;

Ryw eiriau breision wrth ei gariad,

O bra boys;

Er 'y mod yn bur newynog

Rwy'ti'n mhoilid ar fy stumog,

'Rhen soga segur sych yn serchog,

O bra boys.

Gronda Samuel dawel dirion

O bra boys;

Y ti yw'r mwynaf ar fy nghalon,

O bra boys.

Ond dy gael yn gymwys gydmor,

Cyn yr êl hi'n rhy ddiweddar;

Waeth gwn ar fyrder âf i'r ddaear,

O bra boys.

Wyt ti'n cofio'r porc a'r wyau,

O bra boys;

Welais i'n slurio yn dy weflau,

O bra boys;

Llawer boled llawn o gwrw,

Gest ti gen i nes bo ti'n feddw;

Doest gen ti ddim cof am hwnnw,

O bra boys.⁹¹



Ar ymweliad â siop Glaspant, Llangeler (Mehefin 1913) y tynnwyd y llun hwn o Annie Ellis a rhai o drigolion y gymdogaeth. (Llun: Nest Price, Pen Ucha, Caerwys)

Wrth ddirwyn eu gwaith i ben yn ardal Llandysul, gobaith Ruth Herbert Lewis ac Annie Ellis oedd y byddai Mary Hughes a rhai o gefnogwyr eraill Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn y parthau hynny yn parhau'r gwaith o gasglu caneuon traddodiadol y fro ac yn mentro i ardaloedd cyfagos fel Rhydlewys a Chastellnewydd Emlyn. Cyfeiriwyd droeon yn ystod yr ymweliad at gyfoeth y deunydd brodorol yn yr ardaloedd hynny o dde Ceredigion a gogledd Sir Gaerfyrddin ac er i Annie Ellis fynegi ei dymuniad i ddychwelyd yno yn ystod misoedd yr haf 1913, ni cheir unrhyw dystiolaeth i brofi iddi gyflawni ei bwriad.⁹² Eto i gyd roedd cenhadaeth Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru ac ysbryd y casglu wedi cydio'n ddwfn ynddi ac

ymdrechodd lawer tro i annog rhai o fyfyrwyr Aberystwyth ar sail eu diddordeb ym myd y canu traddodiadol, i'w dilyn i'r maes. Un o'r myfyrwyr hynny a ddeuai i ymweld â hi'n gyson yn ei chartref ym Maes Lowri, Aberystwyth, oedd y darpar weinidog, Lewis Mendus – gŵr a fu'n flaenllaw ym mywyd cerddorol a diwylliannol y Coleg ac a fentrodd o bryd i'w gilydd i faes casglu alawon brodorol.⁹³ Mewn llythyr at Annie Ellis yn 1913 fel hyn y disgrifiodd Mendus ei brofiad cyntaf o gofnodi alaw Gymreig:

I drove my grandfather to meet the St. David's motor bus this morning and in driving home alone, my thoughts went back to Laura Place and Cwrt Mawr and I remembered that I once told you I would try to get some folk songs. Well, I pulled up at a cottage and before long the old woman was singing away finely! She sang two songs. I took them down. But I fear they won't be a new contribution.⁹⁴



Benjamin Davies, Cefnillechclawdd, Dre-fach ger Llandysul, gŵr 82 mlwydd oed a ganodd nifer o ganeuon gwerin i Ruth Lewis ac Annie Ellis ym mis Mehefin 1913. (Llun: Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan)

Er na theimlai'r casglwr ifanc fod ei gyfraniad yn un gwerthfawr, cofnododd benillion dwy gân gyfarwydd ynghyd â nodiant sol-ffa un ohonynt:

Mae gennyf ddafad gernig
Ag arni bwys o lân [sic];
Yn pori ar y mynydd
Ym mys y meillion mân

Chorus (quickly)

Cered y byd i'r sawl a'i caro
A finnai'n llon ac iach,
Cael llymed nawr ac yn y man
O'r cwrw melyn bach.

Roedd gennyf hefyd fochyn,
A marlad bychan twt,
A deg o ddefaid tewion
A mochyn heb un cwt.⁹⁵

Fersiwn o'r gân 'Twll bach y clo' oedd cynnwys yr ail gyfres o benillion a gofnodwyd ganddo:

Y gŵr a aeth i fyny i'r llofft uwch ben
Y wraig aeth ag allwedd y drws o dan ei phen,
A Gweno'n gweu sanau wrth olau tân glo
A 'huwcyn'⁹⁶ oedd yn spïo trwy dwll bach y clo.

Chorus

Clywch floedd fechgyn
Clywch, clywch, clywch *etc., etc.*⁹⁷

Er na chofnododd gerddoriaeth 'Twll bach y clo', hyderai Lewis Mendus y byddai ei gyfeilles, Morfydd Llwyn Owen, yn ddigon cyfarwydd â'r alaw i allu ei gyfeirio at fersiwn cyhoeddedig ohoni.⁹⁸ Tystia natur gyfeillgar yr ohebiaeth fu rhwng Mendus ac Annie Ellis dros y blynyddoedd fod y gweinidog o Drefforest yn ymddiried gryn dipyn iddi ac yn barod i rannu ei gyfrinachau â hi – gan gynnwys hynt a helynt ei garwriaethau. Cyfeiria Mendus ati'n aml fel 'Morthor Confessor', 'upon whom I can inflict a mood now and then knowing that she uses my confessions with discretion'.⁹⁹

Naws debyg sydd i gynnwys llythyrau Dora Rowlands at Annie Ellis yn ystod ei chyfnod fel myfyrwraig yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth hefyd. Bu diddordeb Dora yn y Gymdeithas Geltaidd, yng ngweithgaredd y Canorion a bywyd diwylliannol Cymreig y Coleg, ynghyd â'i gallu cynhenid fel perfformwraig yn ddolen gyswllt agos rhyngddynt. Mae'n rhaid hefyd eu bod wedi dod i adnabod ei gilydd yn dda yn ystod yr ymweliad â Pharis yn 1911 a rhannent ddiddordeb byw ym myd yr alaw werin a gobeithion y Gymdeithas. Yn ôl ei harfer ymddiddorai Annie Ellis yn fawr yn y merched o Gymru a ddeuai i Aberystwyth i astudio – gofalai

amdanynt a chroesawai nifer ohonynt i'w chartref a'u cefnogi yn eu bywyd colegol. Bu'n ysbrydoliaeth i nifer ohonynt ac yn gefn i'r rhai anghenus, fel y cyfeiriodd Dora Rowlands:

Y dylanwad mwyaf grasusol arnom ni, ferched y coleg, yn f'amser i oedd caredigrwydd a hynawsedd Mrs. Tom Ellis. Roedd croeso bob amser i ni yn ei chartref artistig a chwaethus yn Laura Place. Bob p'nawn Sul, yr oedd y bwrdd te yn grwn o ferched y Coleg, a bu yn ail gartre i nifer ohonom. Dyna'n wir 'addysg bellach' o bwys i bob un ohonom. Y wraig osgeiddig hon, heb fymryn o rodres – yn llywio'i chartref mewn 'steil' a hyn i gyd yn Gymraeg, gan brofi i ni nad Saeson yn unig oedd yn fyddigions.¹⁰⁰

Flynnyddoedd yn ddiweddarach, wedi iddi briodi ac ymgartrefu yn Llundain, sefydlodd Annie Ellis gronfa *The Students' Loan Fund* i gasglu arian ar gyfer myfyrwyr tlawd y Coleg yn Aberystwyth, a'r ffynhonnell swyddogol hon a ddarparai ysgoloriaethau i'r rhai a wynebai drafferthion ariannol yn ystod eu cyfnod yn astudio. Ond roedd perthynas Annie Ellis a Dora Rowlands yn wahanol i unrhyw berthynas arall rhyngddi a myfyrwyr y Coleg. Datblygodd cyfeillgarwch mynwesol rhyngddynt rhwng 1910 ac 1913 a barodd am oes gyfan.¹⁰¹ Cyfeiriai Dora ati fel 'Fy mam yn Aber, mam annwyl iawn iawn i mi ...'¹⁰² ac wedi profiadau bythgofiadwy Ffrainc a Pharis, cyfarchai hi'n aml fel 'Fy Anwylaf *Notre Dame*' fel arwydd o'r agosatrwydd arbennig a nodweddai eu perthynas. Wrth wynebu salwch ac anawsterau marwolaeth ei mam yn ystod ei blwyddyn gradd yn Aberystwyth, byddai Dora yn troi at Annie Ellis am gysur a chydymdeimlad, ac amlygir hyn droeon yn ei llythyrau:

Diwrnod ofnadwy oedd ddod, diwrnod fy mhen blwydd a bu Mam farw tua wyth o'r gloch. Yr oedd hi'n gofyn am gael myned. Yr oedd yn boen mor fawr. Mae 'nghalon yn rhy llawn i ddweyd llawer ond gwn yn eithaf eich bod chwi yn gwybod.¹⁰³

Yn dilyn ei chyfnod yn Aberystwyth ac wedi iddi gwblhau ei chwrs gradd yn Adran y Gymraeg, daeth cyfle i Dora Rowlands weithio fel ysgrifenyddes yn swyddfa'r aelod seneddol, Syr John Herbert Lewis a dal cyswllt agos ag un o hoelion wyth Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru ynghyd â'r cylch cerddorol Cymreig yn Llundain gan gynnwys Morfydd Llwyn Owen a Mary Davies. Bryd hynny, mynegodd Dora ei llawenydd mewn gair at Annie Ellis:

I had such a lovely letter from Mrs [Herbert] Lewis the other day and she said you had been talking to her about what I was going to do and discussing things ... She asks would I like to live with her for 3 months and go to a secretarial school in South Kensington (one that you know of, I think) and pay her back by keeping Kitty and Mostyn company and giving them 2 lessons a week in Welsh and speaking Welsh with them ... Think, Notre Dame, anwyl, I should be in the same town as you again and likely to see you often.¹⁰⁴

Ar gais Annie Ellis fe ddaeth Dora Rowlands yn athrawes Gymraeg i T. I. Ellis hefyd yn ystod ei gyfnod yn ysgol Westminster (Llundain) ac yn hyn o beth, parhaodd y cyswllt agos rhyngddynt a gwiredwyd dymuniad Dora i gael dangos ei diolchgarwch i'r un a fu mor gefnogol iddi yn ystod ei gyrfa golegol:

I think of you, oh so often fy anwyl, anwyl Notre Dame. I would love to do something worthy of you – and I do hope and pray that I may do something with my life – something lasting as an outcome of your kindness to me - ... I have an intense longing these days to do something for my country or my language or its music.¹⁰⁵

Fisoedd yn ddiweddarach roedd Dora'n mynegi'r un dyhead unwaith yn rhagor:

Diolch a chan diolch i chwi am eich calon fawr garedig. Ni welais erioed newid ar honno ac mi fydd yn ddiwrnod du iawn arnai os achosa i iddi unrhyw friw. Mae gennyf ofn ofnadwy i chi orfod meddwl llai ohonai, oes yn wir. My only hope of ever thanking you, for the countless 'little unremembered acts of kindness', the strong undercurrent of sympathy I always feel when I'm with you, the influence that keeps me 'yn ymdrechu tua'r nod' will be in serving you, if only I can.¹⁰⁶

Yn dilyn marwolaeth ddisyfyd ei gŵr yn 1899, nodweddyd bywyd Annie Ellis gan ymroddiad llwyr i wasanaeth y naill achos a'r llall. Fel aelod blaenllaw o lys Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, a Phanel Penodi Canolog y Brifysgol yng Nghymru¹⁰⁷ bu'n chwarae rhan weithredol yn nhwrf a datblygiad addysg uwchradd y genedl. O ganlyniad i ddiddordeb arbennig ei brawd, John Humphreys Davies, ym myd casglu llawysgrifau bu'n aelod

dylanwadol o Gorff Llywodraethol Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Fel areithydd huawdl galwyd arni'n aml i gynrychioli The League of Nations¹⁰⁸ a bu'n frwd iawn ei chefnogaeth i Gwilym Davies a'i Neges Heddwch flynyddol.¹⁰⁹

O safbwynt cerddorol ymddangosodd droeon yng nghyfaryfodydd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru ym Mangor (Mehefin, 1913) ac yn y Fenni (Awst, 1913) yn adrodd hanes ei phrofiad yn casglu yn ardal Llandysul¹¹⁰ gan grybwyll yn enwedig yr anawsterau a gafwyd i ddarbwyllio unigolion y fro i ganu a chofnodi alawon a'r angen mawr yn y cyfnod hwnnw am weithwyr pellach yn y maes:

Mrs Ellis went on to say that the movement wanted assistance of all kinds, the musical genius who could rapidly write down what he heard, the student to bring scientific knowledge, the minister, the doctor, and the school master who were the highest authorities in the village on everything, the monied and leisured classes who subscribed, and the humble classes who interested old people in a way that made them produce their greatest possessions, while a more clever person took down the tunes and words.¹¹¹

Yn ystod absenoldeb Ruth Herbert Lewis bu Annie Ellis hefyd yn barod ar adegau i gadeirio cyfarfodydd o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, yn enwedig wedi iddi gartrefu yn Llundain yn y cyfnod ar ôl Medi 1913, a thystia ei nodiadau ar gyfer darlith gyhoeddus ar draddodiadau cerddorol Cymru a draddodwyd ganddi yn Falmouth ei bod yn ddigon hyddysg a phrofiadol yn y maes i allu traethu'n awdurdodol arno:

It was in 1844 that Welsh folk music received recognition – in that year, the volume published by Maria Jane Williams of Aberpergwm showed that Welsh folk music could be so beautiful in form and expressive in feeling – and ‘Y Fwyalchen’, ‘Y Deryn Pur’ and other songs immediately took their places among the best of the Welsh melodies.

... I daresay you have all heard of the fanatical enthusiasm of the folk song collector. It is a pity that there was none of this enthusiasm in Wales say 200 years ago – it is certain that if there had been, much treasure would have been stored up that has now disappeared for ever.¹¹²

Credai fod yr angen am gefnogaeth i waith Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn parhau, ac fel ei gŵr Tom Ellis flynyddoedd ynghynt, credai na ddylid anwybyddu'r agwedd werthfawr hon ar fywyd diwylliannol y genedl – er gwaethaf dirmyg a gwg y cyfansoddwyr proffesiynol fu mor elyniaethus i gynnyrch y traddodiad brodorol ar ddechrau'r ugeinfed ganrif:

If people spend their time in collecting old implements, vessels, old furniture, old MSS; are the old songs of Wales of less value than their old furniture or their proverbs or folk tales?

... Every year, the older folk singers are passing on and the opportunity of procuring new songs are getting fewer.¹¹³

Fel un a fu'n amlwg yn y maes ac a gafodd brofiad helaeth o gasglu deunydd yn ne-orllewin Cymru, sylweddolai Annie Ellis bwysigrwydd y grefft a'r angen dybryd am barhad i weithgarwch o'r fath er mwyn cynnal cyhoeddiadau tebyg i'r *Cylchgrawn* ac i sicrhau sefydlogrwydd yn hanes y Gymdeithas fel mudiad ag iddo arwyddocâd cenedlaethol.

Yn 1913 ymgartrefodd Annie Ellis yn Llundain unwaith yn rhagor gan ymroi i agweddau gwahanol ar fywyd Capel Charing Cross. Bu'n aelod brwdfrydig o'r Ysgol Sul a'r Gymdeithas Ddirwestol,¹¹⁴ cyfrannai erthyglau'n gyson i gylchgrawn *Y Gorlan*¹¹⁵ ac ynghyd â Ruth Herbert Lewis sefydlodd gymdeithas i ddiogelu buddiannau merched o Gymru a ddeuai i weithio yn Llundain. Priododd y Parchedig Peter Hughes Griffiths, gweinidog Charing Cross, yn 1916. Parhaodd ei chyswllt â Chymdeithas Alawon Gwerin Cymru am weddill ei hoes ac er iddi ddymuno ymddiswyddo o'i chyfrifoldebau fel Is-lywydd y mudiad yn 1916, gofynnwyd iddi ailystyried yng ngoleuni ei phrofiad a'i dylanwad yn y maes.¹¹⁶ Fel un o ganolfannau pwysicaf yn hanes cerddorol a diwylliannol Cymry-Llundain y cyfnod, a chyrchfan boblogaidd i fyfyrwyr a dieithriaid o Gymru, yng nghapel Charing Cross y cafodd Annie Ellis gyfle i werthfawrogi dawn Morfydd Llwyn Owen fel cantores, cyfeilyddes a chyfansoddwraig. Flynyddoedd yn ddiweddarach bu'n barod iawn ei chefnogaeth i Leila Megane cyn iddi adael Prydain i gael hyfforddiant pellach gan Jean de Reszke ym Mharis.¹¹⁷ Yn ddi-os, roedd bywyd cymdeithas y capel yn gyforiog o gyfarfodydd llenyddol, eisteddfodau (yn bennaf rhwng aelodau capeli Cymraeg y brifddinas) a nosweithiau diwylliannol, a dylanwad rhai fel Mary Davies a Ruth Herbert Lewis yn amlwg ar weithgareddau'r cyfnod. Yn y man, roedd enw'r Parchedig Peter

Hughes Griffiths yn ymddangos ar dudalennau *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* fel ffynhonnell geiriau rhai o'r alawon gwerin a gwybodaeth am arferion y Calan Cymreig¹¹⁸ ac ysbrydolwyd sawl aelod o'r gynulleidfa hyd yn oed i gasglu caneuon traddodiadol o Gymru mewn gwahanol rannau o'r byd o ganlyniad i ddylanwad uniongyrchol selogion y mudiad o'u hamgylch.¹¹⁹

Fel arwydd o werthfawrogiad aelodau Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru o gyfraniad Mary Davies i fywyd cerddorol y genedl, trefnodd Annie Hughes Griffiths a Sir E. Vincent Evans (Trysorydd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru ar y pryd) dysteb genedlaethol yn 1927 i gydnabod maint ei dylanwad yn y maes a chyda'r un ymroddiad a gofal, pan ddaeth salwech difrifol i darfu ar yrfa lewyrchus Laura Evans-Williams¹²⁰ fel cantores ac athrawes leisiol yn Llundain, bu Annie Hughes Griffiths yn flaenllaw yn sefydlu cronfa i'w chynorthwyo hithau hefyd yn ei hangen. Cymeriad rhadlon, parod ei chymwynas oedd Annie 'Cwrt Mawr' a'i gofal o'r tlawd, yr anghenus a'r difreintiedig yn ei chymdogaeth yn flaenoriaeth amlwg iddi trwy gydol ei hoes.

Etifeddodd T. I. Ellis ddiddordeb ei fam yn nhraddodiad canu gwerin Cymru. Yn ystod ei ymweliadau achlysurol â chartref Dr Mary Davies yn 12a Eaton Road, Hammersmith, pan oedd yn ddisgybl yn Ysgol Westminster (Llundain) y dysgodd yntau rai o'r alawon traddodiadol, a pharhaodd i ymwneud â'r maes tra roedd yn fyfyrwr yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Yno bu'n flaenllaw yn y Gymdeithas Geltaidd,¹²¹ canai unawdau dan gyfarwyddyd Madam Lucie Barbier yng nghyngherddau'r Coleg,¹²² a lluniodd adolygiadau o gyfarfodydd diwylliannol y myfyrwyr ar dudalennau *The Dragon*. Yn 1926, penodwyd yntau'n Ysgrifennydd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru gan ddilyn Dora Herbert Jones i'r swydd¹²³ ac fel Tom Ellis ei dad, bu'n weithiwr di-febl dros faterion Cymreig yn enwedig ym myd addysg.

Cyn diwedd ei hoes etholwyd Annie Hughes Griffiths yn Is-lywydd Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, bu'n gynrychiolydd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn y Gyngres Geltaidd a gynhaliwyd yn Llundain yn 1930 (ynghyd â Jennie Williams, Aberystwyth),¹²⁴ a bu'n gefnogol iawn i weithgareddau cerddorol Urdd Gobaith Cymru, yn enwedig ymysg plant ac ieuenctid y Mudiad. Ar adeg pan nad oedd cynrychiolaeth o Gymdeithas Alawon Gwerin Cymru yng Ngholeg Prifysgol Cymru,

Aberystwyth, a chyn dyfodiad J. Lloyd Williams i'r dref, bu'n barod i ysbrydoli myfyrwyr y cyfnod a chwifio baner y traddodiad brodorol yn un o gadarnleoedd cerddoriaeth gyfoes Ewropeaidd y dydd. O ganlyniad i egni ac ymroddiad Annie 'Cwrt Mawr' yn unig yr heuwyd had byd canu gwerin y genedl yng nghanolbarth Cymru, a'i brwdfrydedd heintus hi fu'n ysgogiad i lawer i fentro a thalu sylw haeddiannol i'r maes ym mherfformiadau'r gymdogaeth. Er nad oedd yn arloeswraig gwnaeth ddiwrnod da o waith yn enw Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, brwydrodd yn ddyfal a diflino ar ei rhan, a bu'n gennad ffyddlon ac yn batrwm i eraill ei efelychu.

NODIADAU

- 1 Tom Ellis, 1859–1899.
- 2 Annie Jane Davies, 1873–1942 – seithfed plentyn teulu Cwrt Mawr, Llangeitho.
- 3 Mewn llythyr at David Jenkins dyddiedig 25 Ebrill 1898 rhydd Tom Ellis resymau dros ei ddewis o alawon: 'I should on many grounds like to have 'Clychau Aberdyfi' for it is a love-lyric
itinkles like marriage-bells
it has a flavour and reminiscences of Meirioneth'
gw. T. I. Ellis, *Thomas Edward Ellis – Cofiant*, ii (Lerpwl, 1948), t. 43.
- 4 Emyrn-dôn o waith David Jenkins (1848–1915) a gyfansoddwyd yn arbennig ar gyfer y briodas, gw. John Hughes (gol.), *Y Llawlyfr Moliant Newydd* (Abertawe, 1956), t. 135.
- 5 Gw. Mari Ellis (gol.), *Y Golau Gwan – Llythyrau Tom Ellis at Annie Davies* (Caernarfon, 1999), t. 186.
- 6 Canodd Daniel Evans 'Eos Dâr' gyfres o benillion a oedd yn gorffen gyda'r cwpled: 'Mae Cymru gyfan yn bloeddio'n awr / Byw byth fyddo Cynlas a Chwrt Mawr.'
- 7 Y Fonesig Ruth Herbert Lewis, yn ddiweddarach – un o gasglyddion mwyaf gweithgar ac aelod blaenllaw o Gymdeithas Alawon Gwerin Cymru.
- 8 Ymunodd T. E. Ellis hefyd â Chymdeithas y Brythonwys yn 1886, sef cymdeithas o Gymry-Llundain a deimlai'r awydd i drafod pynciau llenyddol, cerddorol a chymdeithasol. Trefnai'r gymdeithas gyngerdd blynyddol ar adeg Gŵyl Ddewi ac roedd y gantores Mary Davies 'Mair Mynorydd' yn un a ymddangosai'n gyson ar yr achlysuron hynny.
- 9 T. E. Ellis, 'Social Life in Rural Wales', *Speeches and Addresses*, (Wrexham, 1912), t. 139.
- 10 Mari Ellis, 'T. E. Ellis a Cheredigion', *Ceredigion*, xiv, rhifyn 2 (2002), 24–37.
- 11 Sarah Maria Davies (g. 1864), merch hynaf teulu Cwrt Mawr, Llangeitho. Er iddi ddymuno bod yn genhades, priododd y Parchedig John Maurice Saunders yn 1887 fu'n weinidog yn yr Unol Daleithiau ac yn Seland Newydd am gyfnod. Yn ystod ei

- mordeithiau ysgrifennodd storïau byrion ar gyfer *Y Drysorfa, Yr Ymwelydd Misol a Young Wales*. Sicrhodd gryn enwogrwydd fel awdures ac areithydd cyhoeddus, gw. Mari Ellis, 'Sarah Maria Saunders y Ddynes Newydd', *Y Casglwr*, rhif 74 (2002), 3–8.
- 12 Bu'n byw am gyfnod yn 'Llwyn', Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth, ond oherwydd yr angladdau niferus a âi heibio i'w chartref i gyfeiriad mynwent y dref, symudodd i rif 6 Maes Lowri (Laura Place) nid nepell o'r coleg a bu'n byw yno hyd at 1913.
 - 13 Llsg. Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Archif Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, Gohebiaeth B1 (1905–1939). Llythyr dyddiedig 24.9.1908 oddi wrth Mary Davies at L. D. Jones 'Llew Tegid', Bangor.
 - 14 John Humphreys Davies, 1871–1926. Trydydd mab Robert J. a Frances Davies, Cwrt Mawr, Llangeitho ac un o ysgolheigion amlycaf ei gyfnod. Yn ystod ei yrfa, bu'n gyfrifol am ddwyn llenyddiaeth Gymraeg o safon i olau dydd, gan gynnwys Llythyrau Morisiaid Môn a rhai o weithiau Morgan Llwyd. Penodwyd ef yn Gofrestrydd Coleg y Brifysgol, Aberystwyth yn 1905. Cyhoeddwyd ei gyfrol *A Bibliography of Welsh Ballads* yn 1911 a bu'n ohebydd cyson ar dudalennau *Cymru Coch*, O. M. Edwards. Fel hyn y canodd Bedwyn iddo:
'Wele wyneb annwyl inni – a gŵr
Garodd wlad ei eni,
Carodd wres ei hanes hi,
A chwarddodd gyda'i cherddi.'
 - 15 Llsg. Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Casgliad John Humphreys Davies. Llythyr oddi wrth J. Glyn Davies dyddiedig 3.2.1896.
 - 16 Daeth John Humphreys Davies yn aelod o Gyngor Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn 1909 a chynorthwyai'r gwaith drwy roi sylwadau ar farddoniaeth a mydr y caneuon gwerin gyhoeddwyd yng *Nghylchgrawn* y Gymdeithas. Cyfeiriai'r darllenwyr at ffynonellau'r geiriau ac ychwanegai benillion o gasgliadau llawysgrifol a oedd yn ei feddiant. Dyma a ddywed J. Lloyd Williams amdano yn *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*: 'Principal Davies knew little about music but he was the highest authority in Wales on its ballad literature and his exhaustive knowledge was always at the command of the Society.'
 - 17 Llsg. Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Llawysgrif Cwrtmawr 958A – 'Caniadau' (geiriau caneuon gwerin o Sir Aberteifi). Ymhlith y casgliad hwn yn llaw John Humphreys Davies ceir geiriau 'I blas Gogerddan', 'Yn iach i ti Gymru', 'Ar hyd y nos', 'Gwenith Gwyn', 'Codiad yr Hedydd', 'Merch Megan', 'Llwyn Onn', 'Alawon fy ngwlad', 'Clychau Aberdyfi', 'Cainc y delyn', 'Morwynion glân Meirionydd', 'Yr hen amser gynt', a 'Bugail Aberdyfi'.
 - 18 Ibid.
 - 19 Penodwyd Annie Ellis yn aelod o Gyngor Coleg y Brifysgol, Aberystwyth yn 1902 a pharhaodd i wasanaethu'r sefydliad yn ffyddlon am gyfnod o ddeugain mlynedd hyd at Hydref 1942.
 - 20 Myfyrwyr yn Adran y Gymraeg oedd Gwen Taylor (o Wrecsam) a T. Ifor Rees

- (graddiodd y ddau yn 1910), tra astudiaï Tudor Williams o Aberhonddu (a raddiodd yn 1911) yn yr Adran Ffiseg. Myfyriwr diwinyddol a astudiaï yn yr Adran Groeg oedd Lewis Mendus (graddiodd yntau yn 1910).
- 21 Llsgr. Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Casgliad University College of Wales, Aberystwyth SRC and Societies. Y Gymdeithas Geltaidd, cyfrol G2.
 - 22 Ibid. Y Gymdeithas Geltaidd – cofnodion y cyfarfod ar 8 Tachwedd 1909.
 - 23 Gw. Gwenan Mair Gibbard, *Brenhines Powys: Cyfraniad Dora Herbert Jones i fyd yr alaw werin yng Nghymru*, (Llanrwst, 2003), a Wyn Thomas, 'Ffarwel i Aberystwyth ...'- Jennie Williams a byd yr alaw werin yng Nghymru', *Cynheiliaid y Gân – Cyfrol deyrnged i Meredith Evans a Phyllis Kinney* (Caerdydd, 2007), tt. 251–79.
 - 24 Anhysbys, 'Welsh Folk Songs', *The Dragon*, xxxii, rhif 3 (1910), 146.
 - 25 Llsgr. Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Casgliad University College of Wales, Aberystwyth SRC and Societies. Y Gymdeithas Geltaidd, cyfrol G2. Cofnodion 12.1.1910.
 - 26 Gwenan Jones, 'Y Gymdeithas Geltaidd: January 12th', *The Dragon*, xxxii, rhif 3 (1910), 146.
 - 27 Ibid.
 - 28 Llsgr. Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Casgliad University College of Wales, Aberystwyth SRC and Societies. Y Gymdeithas Geltaidd, cyfrol G2. Cofnodion cyfarfod 17 Ionawr 1910.
 - 29 Ibid.
 - 30 John Morris, 'Y Canorion a'r casglu cynnar', *Canu Gwerin* (1990), 5–28.
 - 31 Graddiodd Deborah Jarrett Rowlands neu 'Dora' Rowlands o Langollen yn y Gymraeg yn 1913.
 - 32 Myfyriwr o Abertawe oedd Lewis Stanley Knight, a raddiodd mewn Hanes yn 1912.
 - 33 Tenor o ardal Defynnog ger Aberhonddu oedd Tudor Williams. Graddiodd yn 1911.
 - 34 Gwenan Mair Gibbard, op.cit.
 - 35 Ar 26 Chwefror 1910 y cynhaliwyd yr eisteddfod.
 - 36 Llsgr. Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Casgliad University College of Wales, Aberystwyth SRC and Societies. Y Gymdeithas Geltaidd, cyfrol G2. Cofnodion 26 Chwefror 1910. Er na nodwyd gofynion y gystadleuaeth ar yr achlysur hwnnw, erbyn cyfarfod y Gymdeithas Geltaidd ar 5 Mai 1910 cyfyngwyd y nifer i dair cân werin anghyhoeddiedig.
 - 37 Ym Mhrifwyl Caerfyrddin 1911, er enghraifft, gwobrwywyd Soley Thomas (ffermwr o'r Van ger Llanidloes) a Jennie Williams o dref Aberystwyth am eu casgliadau o alawon traddodiadol siroedd Ceredigion, Penfro a Chaerfyrddin.
 - 38 Llsgr. Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Casgliad University College of Wales, Aberystwyth SRC and Societies. Y Gymdeithas Geltaidd, cyfrol G2. Rhaglen cyngerdd Mawrth 16eg, 1910.

- 39 Ibid.
- 40 Llsgr. Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Casgliad University College of Wales, Aberystwyth SRC and Societies. Y Gymdeithas Geltaidd, cyfrol G2. Adroddiad Cyngerdd 16 Mawrth 1910.
- 41 Ibid.
- 42 J. Lloyd Williams, *Ceinion y Canorion* (Bangor, c. 1909).
- 43 Llsgr. Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Casgliad University College of Wales, Aberystwyth SRC and Societies. Y Gymdeithas Geltaidd, cyfrol G2. Cyfarfod 30 Tachwedd 1910.
- 44 DJW, 'Y Gymdeithas Geltaidd', *The Dragon*, xxxiii, Tachwedd (1910), 95. Nid oes cofnod o'r eitemau a chwaraewyd ganddi yn ystod y ddarlith. Gw. hefyd Wyn Thomas, 'Y Ffonograff Cymreig a byd yr alaw werin', *Canu Gwerin* (2006), 40–64.
- 45 Llsgr. Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Casgliad University College of Wales, Aberystwyth SRC and Societies. Y Gymdeithas Geltaidd, cyfrol G2. Sesiwn 1910–1911.
- 46 Yn rhifynnau 1910 o *The Dragon* rhestrir enwau swyddogion Cymdeithas y Canorion ar wahân i swyddogion y Gymdeithas Geltaidd. Erbyn 1911, fodd bynnag, dim ond aelodau pwyllgor y Gymdeithas Geltaidd sy'n ymddangos yng nghylchgrawn y myfyrwyr.
- 47 Anhysbys, *The Dragon*, xxxiii, November (1910), 113.
- 48 J. E. D., art.cit. 225–6.
- 49 R. O. W., 'The Capping Soirée – An Impression', *The Dragon*, Cyf., XXXIII, November (1910), 59.
- 50 Dyrchafwyd hi yn Is-lywydd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn 1909–1910, gw. *Second Annual Report and Financial Statement*, (Bangor, 1910).
- 51 Yr Athro Stanley Roberts (Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth) oedd beirniad y gystadleuaeth i lunio casgliad o ganeuon gwerin y flwyddyn honno. Roedd yn aelod amlwg o Gymdeithas Alawon Gwerin Cymru ym mlynnyddoedd cynnar ei sefydlu. Graddiodd John Hughes (Pencader) yn y Gymraeg yn 1912. Roedd yn frawd i Mary Hughes (gw. isod) a fu'n weithgar yn cynorthwyo Ruth Herbert Lewis yn y gwaith o gasglu alawon gwerin yn ardal Llandysul ym mis Mehefin 1913.
- 52 Gw. *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, ii, rhif 2 (1919), 107, 111–13. Yn un o gasgliadau eisteddfod myfyrwyr Aberystwyth yr ymddangosodd yr alaw 'Y Byddar a'r Mud' sef fersiwn anghyfarwydd o 'Cob Malltraeth' dan y ffugenw 'Devinos'. Mewn cystadleuaeth debyg y gwelwyd yr alaw 'Y Ferch o'r Bedlam' am y tro cyntaf hefyd. Gwaith 'Mynwy' oedd y casgliad eisteddfodol hwnnw, er na wyddai Golygydd y *Cylchgrawn* yn 1919 pwy ydoedd.
- 53 Erbyn 1911 nid oedd y Canorion yn cael eu rhestru fel cangen o'r Gymdeithas Geltaidd nac ychwaith fel cymdeithas annibynnol yn *The Dragon*.

- 54 *Aelwyd Angharad, neu Hwyrnos Lawen Llwyngwern, Chwareugan, yn dangos dull ac arferion bywyd gwledig Cymru Fu gan J. Lloyd Williams a Llew Tegid* (Bangor, d.d.). J. Lloyd Williams a gyfansoddodd y gerddoriaeth ac L. D. Jones 'Llew Tegid' a luniodd y geiriau ar gyfer yr *operetta* hon. Perfformiwyd y gwaith am y tro cyntaf gan blant Capel Seion, Cricieth ym mis Mehefin 1899, gw. Hywel Teifi Edwards, 'Aelwyd Angharad', *Cynheiliad y Gân – Cyfrol deyrnged i Meredydd Evans a Phyllis Kinney* (Caerdydd, 2007), tt. 58–74.
- 55 A.E.C., 'The St. David's Day Soirée', *The Dragon*, xxxiii, May (1911), 164–5.
- 56 Ibid. 164.
- 57 Ibid. 164.
- 58 Rhoddwyd perfformiadau pellach o'r *Aelwyd* gan 'Gymdeithas Angharad' yn Neuadd y Plwyf (Aberystwyth) ar 30 Tachwedd 1920. Erbyn hynny roedd J. Lloyd Williams yn byw yn y dref ac yn bennaeth yr Adran Fotaneg yn y Coleg. Cyfeiria T. I. Ellis mai yn ystod ymweliad J. Lloyd Williams â'r Cwrt Mawr yn 1919 y cafwyd y syniad o berfformio *Aelwyd Angharad* yn Aberystwyth yn 1920. Ymhlith y perfformwyr yr adeg honno yr oedd Cassie Davies, Mair Howells, D. Lloyd Jenkins a D. H. Jenkins.
- 59 Yn dilyn llwyddiant *Aelwyd Angharad* yn 1911, mae'n amlwg fod aelodau'r Gymdeithas Geltaidd yn Aberystwyth wedi talu mwy o sylw i gerddoriaeth y genedl. Bwriadwyd gwahodd Mary Davies yn ôl i draddodi'r ddarlith flynyddol, er nad oes tystiolaeth bellach i hyn ddigwydd. Er hynny, cadwodd David Jenkins ei addewid a rhoddodd gyflwyniad ar 'Alawon Cymru' ym mis Chwefror 1912 a Dora Rowlands yn canu'r enghreifftiau cerddorol.
- 60 J. Lloyd Williams, 'The History of the Welsh Folk Song Society', *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, Cyf., III, Rhan 2 (1934), 99.
- 61 John Humphreys Davies, Cofrestrydd Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth a wahoddwyd i ddarlithio yn y *Sorbonne* y noson honno ond oherwydd salwch, gorfodwyd iddo ofyn i'w gyd-weithiwr Timothy Lewis i lenwi'r bwlch ar ei ran.
- 62 Roedd Timothy Lewis yn ddarlithydd yn Adran y Gymraeg, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth yr adeg honno.
- 63 Dyddiadur 1911 Annie Ellis ym meddiant Dr Mari Ellis, Aberystwyth.
- 64 Am ymdriniaeth lawnach ar ymweliad y pedwarawd â Pharis yn 1911 gw. Wyn Thomas, 'Cerdorion a cherddoriaeth Cymru yn Ffrainc, 1911–1913' (i'w gyhoeddi). Trefnwyd ymweliad â Pharis gan bedwarawd arall yn 1913 ond ni theithiodd Annie Ellis na Ruth Herbert Lewis gyda hwy bryd hynny.
- 65 Anhysbys, *Le Pays Breton*, 1 Ebrill 1911.
- 66 Llsg. Ll.G.C. 22694D f. 82. Llythyr oddi wrth René Lenormand at M^{me}. Lucie Barbier, dyddiedig 3 Ebrill 1911.
- 67 Anhysbys, *Le Matin*, 2 Ebrill 1911.
- 68 Perfformiwyd *Aelwyd Angharad* unwaith eto ar 30 Tachwedd 1920 gan the UCW Angharad Society gw. *The Dragon*, xliii, February (1921), 108–10 lle disgrifir y gwaith

fel a ganlyn: 'Aelwyd Angharad is a natural growth of the soil, rooted deeply in all that we conceive to be characteristically Welsh' (t. 108).

- 69 Anhysbys, 'The Old Students' Association', *The Dragon*, xxxiv, May (1912), 260.
- 70 Penodwyd Dr J. Lloyd Williams yn olynydd i'r Athro R. H. Yapp i Gadair yr Adran Fotaneg yn Aberystwyth ym mis Hydref 1914. Yn dilyn ei ymadawiad o Fangor, cychwynnodd gyfnod ffrwythlon arall yn ei hanes fel cerddor, ysgolhaig a golygydd *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*.
- 71 J. Lloyd Williams, 'Report of the Musical Editor', *Second Annual Report and Financial Statement for the year ending 30th June, 1910* (Bangor, 1910), t. 7.
- 72 Mrs Jones, Penrheol, Llangeitho, oedd yn canu, gw. *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, i, rhif 3 (1911), tt. 146–7. Canwyd y gân 'Cariad Cyntaf' yn Eisteddfod Llangeitho (1890) hefyd, gw. *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, i, rhif 4 (1912), 166–7.
- 73 J. Lloyd Williams, 'Editor's Note', *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, i, rhif 2 (1910), 66. Cefnogai aelodau teulu Cwrt Mawr eisteddfod flynyddol Llangeitho drwy noddi cystadlaethau a chyflawni eu dyletswydd fel Llywyddion y Dydd o bryd i'w gilydd. Rhoddwyd lle amlwg iddynt yng ngweithgareddau'r gymdogaeth ac ystyrid hwynt fel uchelwyr neu 'sgweiers' y fro. (Dr Mari Ellis, mewn sgwrs â'r awdur, Medi 2004).
- 74 *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, i (1909), tt. 24–8. Gw. hefyd Meredydd Evans, 'Pwy oedd Orpheus Eisteddfod Llangollen 1858?', *Hanes Cerddoriaeth Cymru*, v (Caerdydd, 2002), 59–64.
- 75 Gwyddai John Humhreys Davies am waith David Jones ('Mole catcher') a chasglwr baledi o ardal Llandysul o ganol y ddeunawfed ganrif, gw. *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, i, rhif 4 (1912), 203.
- 76 Llsg. Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Archif Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, Gohebiaeth B1 (1905–1939). Llythyr dyddiedig 21.7.1912 at Amy Preece.
- 77 Wedi graddio mewn Saesneg ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth yn 1911, penodwyd Mary Hughes, Pentop, Llanllwni yn athrawes Saesneg a Hanes yn Ysgol Ramadeg Llandysul cyn iddi dderbyn swydd fel darlithydd yng Ngholeg Hyfforddi Abertawe. Yn ystod ei chyfnod fel athrawes yn Llandysul sefydlodd barti drama a daeth ei chyflwyniadau blynyddol yn ddigwyddiadau o bwys yn y dref. Perfformiwyd gweithiau fel *When we are married* (J. B. Priestly) a *Joan of Arc* (yn y Gymraeg a Saesneg) ganddynt. Priododd David Lewis, mab hynaf J. D. Lewis, sylfaenydd Gwasg Gomer, Llandysul, a chofnodwr rhai o faledi Sir Aberteifi. Gwobrwywyd ef yn Eisteddfod Genedlaethol Caerfyrddin (1911) am y casgliad gorau o faledi'r sir. Cofnododd Mary Hughes rai o'i hatgofion mewn erthygl fer yng nghylchgrawn yr ysgol, gw. Mary Lewis, 'I Remember', *The Adastr*, rhif 7, Christmas Term (1939), tt. 19–21.
- 78 Kitty Idwal Jones, 'Adventures in Folk-song Collecting', *Welsh Music*, v, rhif 5, Gwanwyn (1977), 33–52.
- 79 J. Lloyd Williams, 'The History of the Welsh Folk Song Society', *Cylchgrawn*

Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, iii, rhan 2, rhif 10 (1934), 101.

- 80 Llsgr. Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Casgliad T. I. Ellis A384. Llyfr nodiadau o wneuthuriad Jack Edwards, Stationer, Aberystwyth.
- 81 Ibid. tt. 7–8. Nodwyd y geiriau a'r alaw mewn sol-ffa. Dyddir y cofnod, 24.6.1913.
- 82 Ibid. t. 5. Nodwyd y sol-ffa ar gyfer llinellau 2, 5, 7, ac 8 yn unig.
- 83 Ibid. t. 7. Dim ond geiriau pennill cyntaf y gân hon a gofnodwyd gan Annie Ellis.
- 84 Ibid. t. 9. Nodir y geiriau a'r sol-ffa yn llinellau 1, 5, 6, 7, ac 8 yn y llsg.
- 85 Ibid. t. 11. Nodir y geiriau'n unig ar gyfer y gân hon.
- 86 Kitty Idwal Jones, art.cit. 45.
- 87 Llsgr. Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Casgliad T. I. Ellis A384, tt. 15–17.
- 88 Kitty Idwal Jones, art.cit. 47.
- 89 Llsgr. Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Casgliad T. I. Ellis A384, tt. 23–5.
- 90 Ibid. 31–5. Cofnod anghyflawn o'r faled yw hwn, ysywaeth.
- 91 Ibid. 39–43.
- 92 Rai wythnosau'n ddiweddarach, urddwyd hi i Orsedd Beirdd Ynys Prydain yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Y Fenni (Awst 1913).
- 93 Roedd Mendus yn ganwr ac ymddangosodd droeon ar lwyfannau Aberystwyth yn perfformio yng nghwmni Dora Rowlands. Gw. *The Dragon*, xxxiv, Mai (1912), 269.
- 94 Llsgr. Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Casgliad T. I. Ellis, A351. Llythyr oddi wrth Lewis Mendus at Annie Ellis dyddiedig 9 Medi 1913.
- 95 Ibid.
- 96 Mae Mendus yn cynnig 'hewkin' fel fersiwn wahanol o'r gair 'Huw cyn' ynghyd â'r eglurhad canlynol: 'Huwcin [sic], she explained was a man from the North and generally a rascal. Anyway, a term of reproach'.
- 97 Llsgr. Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Casgliad T. I. Ellis, A351. Llythyr oddi wrth Lewis Mendus at Annie Ellis dyddiedig 9 Medi 1913.
- 98 Cyn canol mis Medi 1913, roedd Lewis Mendus wedi'i sefydlu'n weinidog yn Nhrefforest (Pontypridd), man geni a chartref Morfydd Owen.
- 99 Llsgr. Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Casgliad T. I. Ellis, A351. Llythyr oddi wrth Lewis Mendus at Annie Ellis dyddiedig 9 Medi 1913.
- 100 Alun Oldfield-Davies (gol.), 'Dora Herbert Jones', *Y Llwybrau Gynt* (Llandysul, 1972), t. 99.
- 101 Bu Dora Rowlands yn byw yng nghartref Annie Ellis yn Llundain am gyfnod yn 1915 cyn iddi ddechrau gweithio i'r Aelod Seneddol, John Herbert Lewis.
- 102 Llsgr. Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Casgliad T. I. Ellis A349. Llythyr oddi wrth Dora Rowlands at Annie Ellis. (d.d. ond c. 1913).
- 103 Llsgr. Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Casgliad T. I. Ellis A349. Llythyr oddi wrth Dora

- Rowlands at Annie Ellis. (d.d.).
- 104 Llsg. Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Casgliad T. I. Ellis A349. Llythyr oddi wrth Dora Rowlands at Annie Ellis dyddiedig 13 Gorffennaf 1913 o Neuadd Alexandra, Aberystwyth.
 - 105 Llsg. Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Casgliad T. I. Ellis A351. Llythyr oddi wrth Dora Rowlands at Annie Ellis dyddiedig 14 Awst 1913.
 - 106 Llsg. Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Casgliad T. I. Ellis A351. Llythyr oddi wrth Dora Rowlands at Annie Ellis dyddiedig Mawrth 1914. Danfonwyd y llythyr o 23 Grosvenor Road, Westminster – cartref Ruth Herbert Lewis yn Llundain. Symudodd Dora i fyw yng nghartref Annie Ellis yn 1915 (gw. Llsg. Llyfrgell Genedlaethol Cymru C1990/7/12 - Dyddiadur Kitty Idwal Jones, 27.4.1915).
 - 107 Penodwyd hi i'r pwyllgor hwn yn dilyn marwolaeth Dr Mary Davies yn 1930.
 - 108 Yn 1924 teithiodd Annie Ellis a Mrs Gwilym Davies i'r Unol Daleithiau i ddenu cefnogaeth gwagedd yr Unol Daleithiau i'r 'League of Nations'.
 - 109 Llsg. Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Casgliad T. I. Ellis, A228.
 - 110 *The Fifth Annual Report and Financial Statement for the Year ending 30th June 1913* (Wrexham, 1913), t. 2.
 - 111 Ibid. t. 2.
 - 112 Llsg. Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Casgliad T. I. Ellis, A384 (Nodiadau ac areithiau). Traddodwyd y ddarlith hon yn Falmouth, Cernyw (d.d.).
 - 113 Ibid.
 - 114 Roedd Annie Ellis yn Ysgrifenyddes Cangen Charing Cross o'r North Wales Women's Temperance Association a Dr Mary Davies yn Llywydd.
 - 115 Cylchgrawn misol Capel Charing Cross.
 - 116 Llsg. Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Archif Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru A1. Cofnodion 1908–1934.
 - 117 Roedd Annie Hughes Griffiths yn bresennol ym mhriodas Leila Megane a T. Osborne Roberts yng Ngwesty'r Waldorff, Efrog Newydd ar 24 Mawrth 1924. Teithiodd yno yng nghwmni Mrs Gwilym Davies ar ran mudiad 'The League of Nations'.
 - 118 *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, iii, rhif 9, Rhan 1 (1930), tt. 31–3.
 - 119 Er enghraifft, cofnododd Silyn Roberts, un o aelodau Capel Charing Cross y gân 'Gwew Fach' yn ystod ei ymweliad â Chanada.
 - 120 Laura Evans-Williams (1883–1944) o Henllan ger Dinbych. Cantores broffesiynol ac un o unawdwy'r blaenllaw y byd oratorio ym Mhrydain ddechrau'r ugeinfed ganrif. Yn dilyn hyfforddiant yn yr Academi Gerdd Frenhinol yn Llundain (c.1906), sicrhodd gryn enwogrwydd o ganlyniad i berfformiad o *Messiah* (Handel) a pherfformiad cyntaf o *The Apostles* (Elgar) yng Ngŵyl Harlech. Ystyriwyd hi'n ddehonglydd caneuon gwerin Cymreig o gryn allu. Gw. John Davies, 'Who was Harry Drew?', *Cerddoriaeth Cymru*, x, rhif 5, Gaeaf 2000–01 (2001), t. 23.

- 121 Anhysbys, 'St. David's Day Soirée: The Concert', *The Dragon*, xl, June (1918), tt. 127–8.
- 122 Anhysbys, 'Lit. and Deb Concert', *The Dragon*, xl, no. 1, December (1917), t. 40.
- 123 Llsgr. Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Casgliad T. I. Ellis B172. Llythyr oddi wrth Dora Herbert Jones dyddiedig 14 Awst 1926.
- 124 Welsh Folk Song Society, *The 21st Annual Report and Financial Statement (June 1929–June 1930)*, (Wrexham, 1930), t. 2. Jennie Williams neu Jennie Ruggles-Gates – casglwraig caneuon gwerin a chantores o dref Aberystwyth, gw. Wyn Thomas, 'Ffarwel i Aberystwyth ...' – Jennie Williams a byd yr alaw werin yng Nghymru', *Cynheiliaid y Gân – cyfrol deyrnged i Meredydd Evans a Phyllis Kinney* (Caerdydd, 2007), tt. 251–79.

TAIR CÂN WERIN: 'BROGA BACH', 'YR HEN WINEDDES' A 'MOCHYN CARREG PLAS'

D. Roy Saer


Broga Bach



1. Brog - a bach aeth maes i rod - io, Am-i-dym da - di



dym - dym-do; Ar gef-en ei farch a'i gyf - rwy cry - no,



Twy - wy - a - di - o, Am-i-dym-da - di dym-dym-do.

2. I chwilio am wraig i drin ei ddodre'n,
 Am-i-dym-da-di dym-dym-do;
 Pwy lygadai ond llygoden,
 Twy-wy-a-di-o,
 Am-i-dym-da-di dym-dym-do.

* * *

3. Medde'r broga, 'O, lygoden'; ...
 'Onid difyr pe prioden?' ...
4. Medde hithe, 'Mi ymgroga', ...
 Cyn y cyma' i ddim ond broga!' ...

5. Ond o'r diwedd fe'u cymodwyd, ...
Ac un diwrnod fe'u priodwyd, ...
6. Oen a phys i ginio; ...
Fe ddaeth mintai fawr i wyllo, ...
7. Hwn oedd hwyliad ; ...
Fe ddaeth cath a barlad heibio, ... [Ond daeth?]
8. Llyncwyd y llygoden druan
Gan y gath yn union deg; [Yn lle Byrdwn 1]
Aeth y barlad yntau heibio
Efo'r broga yn ei geg, [Yn lle Byrdwn 2]
Ami-dym-da-di dym-dym-do.

GEIRFA: 7.1 hwyliad: darpariad am wled
7.3 barlad: ceiliog hwyaden

AMRYWIAD: 2.1 Chwilio am

Ymddangosodd y fersiwn uchod ar yr alaw, heb ddynodi ei ffynhonnell a chan gynnwys geiriau'r ddau bennill cyntaf yn unig, ar daflen a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Alawon Gwerin Cymru ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Treorci, 1928. Yr oedd 'Broga Bach' yn un o ddwy gân osod yno yn y Gystadleuaeth Corau Plant am Darian Goffa Iorwerth Glyndwr John.

Daw gweddill y geiriau (sef penillion 3–8) oddi ar ddatganiad yn ystod yr un cyfnod gan Mrs Dora Herbert Jones, pan recordiwyd hi ar 29 Mehefin 1927 yn stiwdio The Gramophone Record Company (EMI yn ddiweddarach) yn Hayes, Middlesex, a hyn i gyfeiliant Syr Henry Walford Davies ar y piano. Y bwriad ar y pryd oedd rhyddhau recordiau masnachol o'r gantores yn canu caneuon gwerin Cymraeg, ond, fel y soniodd wrthyf un tro, hi ei hunan a roes ben ar y cynllun am nad oedd yn ddigon bodlon â'i datganiadau. O ganlyniad, yn ei gofal hi yr arhosodd y disgiau 'prawf' (bump ohonynt) nes iddi eu cyflwyno ym mis Rhagfyr 1966 i gasgliad Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan.

Hyd y gwn i, ni argraffwyd y fersiwn cerddorol a ganodd DHJ na chynt na chwedyn. Fel y darfu pethau, fersiwn *arall* – sef yr un a ymddangosodd yn ein Cylchgrawn (Cyfrol I, Rhan 4, t. 178) yn 1912 – a enillodd ei le yn gyhoeddus gerbron cenedlaethau diweddar. Cam tyngedfennol, mae'n siwr, yn yr hanes fu cynnwys hwnnw yn 1949 yn llyfryn Mrs Enid Parry, *Wyth Gân Werin* (a gyhoeddwyd o Gaerdydd gan Hughes a'i Fab), ac fe'i

hatgynhyrchwyd yn 1981 yng nghasgliad ein Cymdeithas ninnau *Caneuon Gwerin i Blant* o dan olygyddiaeth Phyllis Kinney a Meredydd Evans.

O gymharu'r ddau fersiwn â'i gilydd, rhaid dweud taw rhyfedd ddigon yw ffurf yr un mwyaf hysbys. Mae rhediad yr alaw yn dra anarferol, ac ymddengys fel pe bai ei chychwyn a'i chanol wedi eu trawsosod. Ac ystyrier y geiriau hwythau: o anwybyddu'r rhannau byrdwn fe geir mai tair llinell sydd i naratif y pennill – a bod yr olaf o'r llinellau hynny heb ateb odl y ddwy linell arall.

Perthnasol yma yw cyfeirio yn ôl at Gylchgrawn 1912. Wrth i Dr J. Lloyd Williams, y Golygydd, gyhoeddi'r fersiwn hwn yno, dyfynnodd eiriau Mr Jack Edwards, Aberystwyth, sef y gŵr a oedd wedi ei ganu i Mr Robert Bryan (ar gyfer Mrs Mary Davies) yn Ionawr 1910 – a chyfleir i'r canwr ei hunan ganfod anhawster wrth geisio priodi'r alaw â'r ychydig linellau a gofiai o'r geiriau, geiriau a ddysgasai gyntaf ryw hanner canrif yn flaenorol.

Dim ond un pennill, ynghyd ag un llinell strae (ond a oedd yn cynnig yr odl goll ar gyfer 'llygoden') a ymddangosodd yng Nghylchgrawn 1912.¹ Ateb Mrs Enid Parry yn 1949 i'r sefyllfa hon fu cael ei gŵr, yr Athro Thomas Parry, i lunio pum pennill ychwanegol. Patrymwyd y rheini ar ffurf deialog rhwng y broga a'r llygoden, ac ynddynt ceir y llygoden yn gwrthod pob abwyd a gynigir nes i'r broga roi'r gorau i unrhyw obaith am briodi – mae'r rhediad, felly, yn dra gwahanol i eiddo fersiwn DHJ. Cynhwyswyd hefyd gyfieithiad Saesneg o'r cwbl – un reit ffurfiol-farddonllyd – gan David Bell.

Eironig, ar un olwg, i drosiad Saesneg gael ei lunio ar sail creadigaeth mor ddiweddar yn y Gymraeg – oherwydd, mewn gwirionedd, yn yr iaith Saesneg ei hunan y tarddodd cân 'Broga Bach' yn wreiddiol. Cydnabuwyd hyn yng Nghylchgrawn 1912, lle nododd Miss A. G. Gilchrist, 'There are many English and Scottish versions of this – all with some sort of nonsense refrain, ...' A'r gwir a lefarodd: mae fersiynau Saesneg ar y gân yn ddirifedi² (gan ddwyn amryfal enwau, e.e. 'The Frog and the Mouse' a 'Froggie Went A-Courting', i grybwyll dim ond dau), a hyn oherwydd bod ei gwreiddiau mor hynafol – ymddengys cyfeiriadau at ryw ffurf neu'i gilydd arni o ganol yr unfed ganrif ar bymtheg ymlaen, ac mae'r testun cynharaf a erys o'i geiriau yn perthyn i'r flwyddyn 1611. (A throi at gyfnod llawer iawn diweddarach, fy nghof personol o'r gân tua hanner canrif yn ôl yw clywed fersiwn ohoni'n cael ei ganu'n aml ar y radio gan yr Americanwr Burl Ives i gyfeiliant ei gitâr.)

Am darddiad yr alaw sydd ynghlwm wrth y geiriau Cymraeg, synnwn i fawr nad oes cytras neu hyd yn oed gysail iddi yn bodoli wrth ochr geiriau Saesneg yn rhywle. Deniadol fyddai dilyn y trywydd hwnnw ymhellach ryw dro – hyd yn hyn nid wyf wedi taro ar ffurf gerddorol gyfatebol.

Yr Hen Wineddes

Doh y canwr = D

1. Mae gan bawb ryw fath o gar- iad Erbyn Ffair Gla-me; Os 'dyw pawb â mi 'run fwr- iad, Gwell 'ddo a ros ga(r)-tre! Ond gwnaf mi af yn fab ca- lon- nog: Pwy a wŷr Na chaf fi ryw ferch fach ser- chog; Gwnaf, gwnaf, gwnaf, mi af, Er mwyn gweld y mer- ched glân.

* Yn y bennell canwr yn canu y canwr yn canu y canwr yn canu

1. Mae gan bawb ryw fath o gariad
Erbyn Ffair Glame;
Os 'dyw pawb â mi 'run fwrriad, [Os nad yw?]
Gwell (i)ddo aros ga(r)tre!
Ond gwnaf, mi af yn fab calonnog:
Pwy a wŷr
Na chaf fi ryw ferch fach serchog;
Gwnaf, gwnaf, gwnaf, mi af,
Er mwyn gweld y merched glân. [merched braf?]
2. Mi a gwrddes â gwineddes
Wedi gwishgo'n deidi;
Ro(e)dd (h)i'n r(h)odio fel bren(h)ines—
Mi edryches arni.
Mi a godes ei gown shidan:
Wfft i'r fath beth!
Beth oedd y baish ond denfydd ffetan!
Gwir, gwir, digon gwir:
S(d)im ots am y baish on(d) ca(e)l y gown (h)ir!

3. Hithe ddywedodd wrtho i'n sosi,
'I'll go fetch polisman!
 Atebes inne'n wa(e)th na (h)ynny,
 'Faint yw prish y ffetan?'
 (H)ithe ddywedodd wrtho i ailwaith
 Lawer gwaith;
 Atebes inne yn fwy penfaith,
 'Llath, llath, faint yw e'r llath?'
 Ni weles i erioed ei fath!
4. Ond o'r diwedd daeth y bobi,
 Gwyddwn beth o(edd) (e)i amcan;
 'R(h)en wineddes wedi baglu
 Rywffo(r)dd yn y ffetan!
 Ffwrdd â finne fel y ca(d)no
 Tua thre,
 Fel pe bawn i'n llwyr ffarwelio:
 Glou, 'n glou, es i'n glou,
 Fel y *steam* o Landeloy!

GEIRFA:

- 1.2 Glame: Galanmai
- 2.1 gwineddes: gwniadyddes
- 2.7 ffetan: sachliain
- 3.7 penfaith: hirben, craff
- 4.9 *steam*: trên

Cân yw hon a geir – ar Dâp AWC 609 – ymysg archifau sain Amgueddfa Werin Cymru. Fe'i recordiais, ar ran y Amgueddfa, ar 8 Awst 1963 ac o ganu Ben Jenkins, gŵr 82 oed a hanai'n wreiddiol o Abercastell gerllaw Mathri yng ngogledd sir Benfro, ond a drigai erbyn hynny y drws nesaf i dafarn y Square and Compass, sydd ar ochr y ffordd rhwng Mathri a Chroes-goch. Yno yn yr awyr agored ac yn sŵn traffig y'i canodd, gan bwysu'i ben drwy ffenest fy nghar. Codasai'r gân flynyddoedd yn gynharach o glywed ei chanu gan frodor arall o Abercastell, sef Ben Phillips 'Ben Bach', y canwr gwerin enwog. (Gwas fferm tua'i gynefin a fuasai Ben Jenkins ar hyd ei oes.)

Fersiwn yw'r alaw ar ffurf fwyaf cyfarwydd yr hen gainc delyn – a chaine ddawns – ‘Hob y Deri Dando’, ond iddi gael ei datganu’n fwy hamddenol na honno.

Fe welir bod ei hieithwedd yn gyforiog o ffurfiau tafodieithol – yn wir, bron gymaint felly â geiriau ‘Bwmba’, hen ffefren arall yng ngogledd y sir. Gyda llaw, fe arferid y dywediad ‘Sdim ots am y baish ond cal y gown hir’ yno gynt ar lafar gwlad fel dihareb – hyn gan fabwysiadu delweddaeth sydd fymryn yn fwy llednais nag eiddo’r sylw cyfatebol ‘Fur coat and no knickers!’ a ddigwydd yn Saesneg. Yn achos y Gymraeg mae’n werth gofyn, wrth gwrs, ai’r dywediad a esgorodd ar y gân ynteu fel arall y cariodd y dylanwad.

Ôl-nodyn: Rai misoedd yn ôl ymddangosodd yr adysgrifiad uchod o eiriau datganiad Ben Jenkins yn *Ontrac* (rhif 17, Gwanwyn 2007), sef cylchgrawn chwarterol trac, y corff datblygu traddodiadau gwerin Cymru.

Mochyn Carreg Plas

1. Di - gwy-ddodd tro go hy - nod A - ba - rodd in - ni
syn - dod. Yng Nghar-reg Plas di - gwy - ddodd hyn, Yng
Nghar-reg Plas di - gwy-ddodd hyn: Dwy'n mo-chyn un o'r hy - chod.

*** digwyddid rithm 1. I yn ail barner 2. bariau 6 a 8*
**y nodyn hwn yn eiddau yn y copi gwreiddiol.*

1. Digwyddodd tro go hynod
A barodd inni syndod;
Yng Ngharreg Plas digwyddodd hyn: (x2)
Dwy'n mochyn un o'r hychod!
2. Ei oedran oedd chwech wythnos,
Sef mis ac un pythefnos,
Pan ddygwyd ef, er gwaetha'r drefn, (x2)
Rhyw awr tu cefn i'r cyfnos.

3. Daeth yno ddau bolisman
I chwilio am wrthrych aflan
Oedd wedi'i fwyta gan ei fam, (x2)
Oedd reibus am ryw ebran!
4. Atebai'r rheini'n union
Y gwyddent hwy yn burion
Mai lleidr deudroed fu'n y cwt: (x2)
Un twt â thraed go fyrion!
5. 'Rôl gorffen yr ymchwiliad
Trwy wlad y Gadareniaid,
Ond y mochyn bach ni chaent— (x2)
Wel dyma anffawd ffyliaid!
6. Ond hyn ddywedaf eto,
Fel awgrym wrth fynd heibio:
Pwy bynnag sydd am gadw hwch, (x2)
Gofaled am ei bwydo!

CYWIRIADAU: 5.3 chaent > chawd (i odli ag 'anffawd')
6.4 Gofaled > Gofalwch (i odli â 'hwch')

Daw'r uchod o gasgliad caneuon Mr Tal Griffith (1901–59), Pwllheli, casgliad ysgrifenedig a gyflwynwyd yn 1979 i ofal Amgueddfa Werin Cymru gan ei ferch, Mrs Eulonwy Karlsen, Wimbledon. Cyhoeddwyd eisoes chwe eitem o'i gynnwys yng Nghylchgrawn y Gymdeithas hon, gweler *Canu Gwerin / Folk Song*, 3/1980, 28–34.

Yn y rhifyn hwnnw o'n Cylchgrawn rhoir hefyd fywgraffiad o Tal Griffith, ynghyd â manylion am y casgliad a'i gefndir. Cyfrifydd a fu Tal Griffith wrth ei alwedigaeth ond cofir amdano yn bennaf fel arweinydd Côr Glannau Erch, parti o ddynion a bechgyn lleol. O ystyried mai ffermwyr neu weision ffermydd Llŷn ac Eifionydd oedd y rhan fwyaf o'r cantorion hyn (a hefyd o feddwl am ddiddordebau a chwaeth eu cynulleidfaoedd arferol), naturiol ddigon fod 'caneuon llofft stabal', gan gynnwys clasuron fel 'Cerdd Bach-y-saint' a 'Mochyn Carreg Plas', yn ganolog i'w *repertoire*. (Arwyddgan y côr oedd 'Yn Hogyn Gyrru'r Wedd', gyda llaw.)

Fel mae'n digwydd nid yw llyfr caneuon Tal Griffith yn cynnig unrhyw wybodaeth gefndir ynglŷn â'r gân uchod (fel y gwna am lawer o'i eitemau),

ond erys ambell fanylyn am ei tharddiad ar gof a chadw. Lleolir fferm Carreg Plas ym mhen draw penrhyn Llŷn, nid nepell o Aberdaron, a dyddir geiriau'r gerdd i ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Er iddynt gael eu rhyddhau'n ddiennw yn y lle cyntaf, fe'u piodolir i un o 'Feirdd y Rhos' (sef ardal Rhoshirwaun gerllaw). Achlysur y cyfansoddi fu diflaniad porchell ar y fferm, ac mae'n debyg i'r gerdd gyfan redeg yn bymtheg pennill, gan roi dyfarniad y prydydd ar y dirgelwch yn hollol groyw wrth gloi'n rhybuddiol – sef mai'r hwch newynog a fwytasai ei hepil. (Fe gofir, ar y llaw arall, mai *gorfwydo*'r creadur a barodd dranc 'Y Mochyn Du' yn y faled adnabyddus o fro'r Preselau yn y de-orllewin!)

Yn ei dydd yr oedd 'Mochyn Carreg Plas' gyda'r enwocaf o gerddi tro trwstan Llŷn. Cyhoeddwyd fersiwn anghyflawn arall o'i geiriau, yn bedwar pennill, yn 1980 ar y record hirfaith *Caneuon Llofft Stabal* (Sain Recordiau Cyf. / Amgueddfa Werin Cymru) ac eto yn 2005, trwy'r un cyhoeddwyd, ar y gryno-ddisg ddwbl, *Caneuon Plygain a Llofft Stabal*. Fe'i recordiwyd yn wreiddiol i'r Amgueddfa Werin yn 1964 gan John Roberts, Tŷ-rhos, Rhydlïos, ger Llangwnnadr. Y pedwar pennill a ganwyd ganddo oedd rhifau 1, 2 a 6 o'r rhai a welir uchod, ynghyd â'r un canlynol yn drydydd pennill:

Chwiliasant dai Anelog
A chytiau moch godidog:
Er hynny oll, ond methu'n lân (x2)
Cael Siôn a Siân yn euog!

Ymddengys i mi y gallai hwn eistedd yn gyffyrddus rhwng penillion 3 a 4 uchod. (Fe ganfyddir, wrth gwrs, yn ôl y geiriau a groniclodd Tal Griffith fod ambell fwlch yn y dilyniant yn weddol amlwg.)

Cyn belled yn ôl ag 1909, ymddangosodd yr alaw uchod yng Nghylchgrawn ein Cymdeithas (ei rifyn cyntaf oll), ond ar gyfer baled lofruddiaeth 'Y Blotyn Du'. Diau iddi gael cylchrediad ehangach fel un o donau'r hen eitem enwog honno nag wrth eiriau 'Mochyn Carreg Plas', a gwyddys ei bod yn dra phoblogaidd gynt yng ngogledd-orllewin Cymru ar gyfer canu sawl cerdd neu bennill ar fesur triban.

* * *

CYDNABOD: Ymysg archifau Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, er mewn gwahanol gyfryngau, y ceir pob un o'r tair cân a esgorodd ar y trafodaethau uchod. Diolchaf i'r Amgueddfa am ganiatâd parod i'w

cyhoeddi yn awr, ac i'r aelodau staff a'm cynorthwyodd ynglŷn â'r ymchwil perthynol, Meinwen Ruddock, Lowri Jenkins, Hywel Evans, a Niclas Walker.

NODIADAU

- 1 Heb fod ymhell o Aberystwyth, ym mis Mawrth 1974, casglwyd gan Mary Middleton, ar ran Amgueddfa Werin Cymru, y rhigwm canlynol oddi wrth Mrs Mary Thomas, Bwlch-y-gwynt, Ffair-rhos (diolch i Dr Robin Gwyndaf am fy nghyfeirio ato):
Broga Bach a'th ma's i rodio
Ar gefen ei farch a'i gyfrwy cryno
I 'mofyn gwraig i drin ei ddodrefn:
Pwy leicodd ef ond Miss Llygoden.
'Miss Mouse', gyda llaw, yw'r gwrthrych serch mewn amryw fersiynau Saesneg ar y gân.
- 2 Gweler, er enghraifft, wefan y Roud Folk Song Index, gwefan Wikipedia, neu *The Oxford Dictionary of Nursery Rhymes*, gol. Iona a Peter Opie (Rhydychen, 1951).

Y CYD-DDAEARWR A'R PEIRIANT GWNÏO

Dan Puw

Ychydig cyn ymddeol prynodd fy nhad ddau fwthyn yn Arenig, ger y Bala, ac wedi moderneiddio tipyn arnynt aeth Mam ac yntau i fyw i un ohonynt. Daeth cyfnither i Mam a'i gŵr i fyw drws nesa.

Ymhen blynnyddoedd, wedi i'r pedwar ohonynt adael yr hen fyd trafferthus yma, arna i y disgynnodd y cyfrifoldeb o osod 1 a 2 Pantyrhedydd i denantiaid. Buan y profais mai gwaith anodd felltgedig yw dod o hyd i Gymry sy'n fodlon byw mewn ardal wledig braidd yn anghysbell fel Arenig, er cymaint y galw am dai 'fforddiadwy' yn lleol. Dim ond dau Gymro a fu'n byw yno mewn cyfnod o bum mlynedd ar hugain, ac fe drodd un o'r rheini allan i fod yn fochyn digydwbybod cyn belled ag yr oedd glanweithdra a thalu'r rhent yn y cwestiwn.

O dan yr amgylchiadau wnes i ddim troi 'nhrwyn ar Timothy John Rickards pan ddaeth heibio rhyw ddiwrnod i chwilio am le i roi ei eiddo daearol dros dro. Doeddwn i ddim yn siwr iawn beth i'w wneud ohono chwaith pan welais o gynta ar ei foto-beic, yn enwedig pan ddaeth o oddi ar y cyfrwy a thynnu ei helmed. Roedd o'n siŵr o fod rhyw naw modfedd yn dalach na fi, yn fain fel coes cribin, ac yn hollol foel ar wahân i ryw fymryn o flew rownd ei ben, ond bod y rhan ôl o'r blewiach hynny wedi ei adael i dyfu'n hir, a'r mymryn hwnnw wedi ei drefnu'n blethen daclus fain, fain, rhyw droedfedd o hyd, i orwedd ar ei war.

Bu'n denant reit dda, chwarae teg. Roedd iddo'i bersonoliaeth unigryw ei hun wrth gwrs. Gwirionai ar hen foto-beics, ac yn aml iawn byddai un ohonynt gydag ef yn y tŷ! Byddai hefyd bosteri moto-beics ar hyd y waliau. Amheuw'n ambell dro pan awn heibio fod arogl rhywbeth melysach na'r baco siag a rowliai yn fy ngŵydd yn y mwg oedd yn y tŷ. Beth bynnag am hynny cadwodd y lle'n dw't ac yn lân, talodd y rhent yn gyson, a hyd y gwn, ni achosodd unrhyw drafferth i neb tra bu yno. Pan gawn achos i'w ffônio yn achlysurol, yr un fyddai'r atebiad bob tro, 'Greetings, fellow-earthling'!

Ond yn sydyn reit cyhoeddodd ei fod yn dirwyn y denantiaeth i ben, ac yn prynu tŷ iddo'i hun – yn union dros y ffordd i Bantyrhedydd. Haulfryn oedd

enw'i dŷ newydd, hen dŷ a arferai berthyn i'r rheilffordd, a darn helaeth o'r hen lein yn 'ardd' iddo. Yr haf wedyn, tra'n hel defaid, y gwelwyd pa mor wirioneddol unigryw oedd y ffelo-yrthling. Methai Euros, fy mab, yn lân â gweld o ychydig bellter be aflwydd oedd lliw y *boiler-suit* a wisgai yn yr ardd. Ond wrth ddod yn nes sylweddolodd mai'r unig beth oedd amdano oedd ei welingtons! Y pnawn hwnnw datgelwyd inni mai fy nghyn-denant oedd noethlymunwr cynta'r Arenig!

A beth sydd gan hyn i'w wneud â chanu gwerin medde chi?

Wel, rhyw dair blynedd yn ôl, ac yntau'n sôn am werthu Haulfryn (am dipyn o elw gobeithiai!) ac ymfudo, fel y gallai pobl Sbaen oedd o'r un anian ag ef gael tremio ar ei gorff gosgeiddig, roeddwn i'n digwydd pasio, a Nel yr ast ddefaid wrth fy sawdl. 'I've got something for you,' meddai llais o'r ardd. Diwedd Mawrth oedd hi, a'r hin heb gynhesu digon bryd hynny i'r dillad ddod i ffwrdd! 'A mate of mine from Mansfield bought an old sewing machine in a second hand sale, and found this in the case. He gave it to me hoping I might know someone who knew something about it. You have it, you're interested in music aren't you.'

Beth oedd y *this* ond baton ddu, bron i ddwy droedfedd o hyd, wedi ei haddurno gyda'r ffurelau arian arferol. Wedi ei argraffu ar un ohonynt roedd y geiriau: PRESENTED AS A TOKEN OF RESPECT TO J. LLOYD WILLIAMS BY THE GARU DOLBENMAU CHORAL SOCIETY. 1877.

Fe'i cedwais o dan fy ngôt y munud hwnnw rhag ofn iddo newid ei feddwl! Er bod enw Garndolbenmaen wedi ei gamsillafu yn ddybryd, mi wyddwn i yn iawn faint ein dyled i'r gŵr fu'n arwain y Gymdeithas Gorawl honno dros ganrif a chwarter yn ôl. Tybed ymhle y bu'r baton rhwng marwolaeth John Lloyd Williams a'r sêl ym Mansfield? Sut aflwydd y trôdd i fyny yn y fan honno, na fyddai rhywun ar y daith wedi ei achub? A thybed faint a dalwyd am y cês a'i gynnwys?

Beth bynnag yw'r atebion i'r cwestiynau, mae'r ffon fach yma a gyflwynwyd imi gan gyd-ddaeawr yn llawer mwy gwerthfawr yn fy ngolwg i na'r un injian wñio!

RHIGWM GOGINAN

Meredydd Evans

Yn rhifyn 89 o'r cylchgrawn *Llafar Gwlad* digwyddais weld llythyr yn cynnwys pedwar pennill a arhosodd ar gof un o'r darllenwyr (o ganu ei thad) ers pan oedd yn blentyn yng Ngoginan, Ceredigion, yn nhridegau'r ganrif ddwaetha. Bethan M. Williams oedd y plentyn hwnnw ac anfonai ei llythyr i'r cylchgrawn o gyfeiriad yn swydd Lanark, yn yr Alban.

Sgrifennais air ati ar ddechrau Medi 2005 yn gofyn a ddigwyddai fod yn cofio'r alaw a ganai ei thad i'r geiriau, a sut y daeth y gân i'w feddiant o? O fewn dim amser cefais ateb yn nodi mai Llewelyn Bebb, Blaendyffryn, Goginan, oedd enw ei thad, ei fod yn arweinydd y gân yng nghapel Dyffryn Goginan, iddo dderbyn hyfforddiant cerddorol gan J. T. Rees, Penygarn, a'i bod yn bosibl ei fod wedi ei dysgu oddi wrth ei fam oedd 'yn hoff o ganu'. Yn yr un amlen rhoes imi fersiwn sol-ffa o'r alaw:

{ : s | d : d : d ? m : m : m | s :-? m :-: m }
O me - chan i, me - chan i ca - na, Cei

{ | f :-: f ? m :-: m | r :-? -: f | m :-: f ? s :-: l }
fuwch a dau lo bach; O mam, nis gall-af

{ | s :-? d :-: r | m : f : m ? r : m : r | d :-? -: l }
ga - nu, Nid y - dwyf ddim yn iach.

2. O mechan i, mechan i cana,
Cei gaseg wen a chyw;
O mam, nis gallaf ganu,
Nis gallaf yn fy myw.
- 3 O mechan i, mechan i cana,
Cei ddau oen llywaeth mawr;
O mam, nis gallaf ganu,
Nis gallaf ddim yn awr.

4. O mechan i, mechan i cana,
Cei globyn mawr o wŵr;
O mam, nis gallaf ganu,
Nis gallaf rydw i'n siŵr.

Mae'n syndod fel y daw ambell gân i'r golwg o hyd. Diolch i gof cyndyn Bethan M. Williams am hon. Os oes rhywun a all fwrw golwg pellach arni bydd y Gymdeithas yn falch o glywed am hynny. Beth, tybed, sydd y tu ôl iddi?

[*Gol.* Fe ddaeth ateb, fel mae'n digwydd – gweler yr erthygl ganlynol.]

'O 'MECHAN I, 'MECHAN I, CANA'

Charles Parry

Yn *Llafar Gwlad* rhifyn 89 (Awst 2005), t. 4, cyhoeddwyd y rhigwm 'O 'mechan i, 'mechan i, cana' gan Bethan M. Williams, penillion a glywodd gan ei thad pan oedd hi'n blentyn yng Ngoginan yng Ngheredigion yn y tridegau. Roedd y penillion yn *Llafar Gwlad* yn canu cloch ac wedi chwilota deuthum o hyd i gân o'r enw 'Whistle, daughter, whistle' yn yr ail gyfrol o waith Cecil Sharp, *English Folk Songs from the Southern Appalachians* (Oxford, 1952), sef rhif 134 yn y gyfrol honno, t. 169. Nodir yno i'r gân gael ei chanu gan Mrs Margaret Jack Dodd yn Beechgrove, Virginia, ar 25 Mai 1918. Dyma'r fersiwn a gafwyd ganddi hi:

[WHISTLE, DAUGHTER, WHISTLE]



1. Whis - tle, whis - tle, daugh - ter, and you shall have a sheep. I



can - not whis - tle, mo - ther, nor nei - ther will I yet.



Whis - tle, whis - tle, daugh - ter, and you shall have a cow. I



can - not whis - tle, mo - ther, nor nei - ther will I now.

Ar dudalen 392 o gyfrol Sharp, rhestrir cyfeiriadau at fersiynau eraill o 'Whistle, daughter, whistle', o Loegr, Iwerddon ac America. Ceir y testun heb yr alaw yn Robert Ford, *Children's Rhymes...* (Paisley, 1904), t. 136, a cheir y testun a'r gerddoriaeth yn y manau canlynol: Patrick Weston Joyce,

Ancient Irish Music (Dublin, 1901), rhif 26; Cecil James Sharp & Charles L. Marson, *Folk Songs from Somerset* (London, 1904-9), rhif 62 (a gyhoeddwyd hefyd yn *English Folk Songs*, Selected Edition, i, 100, ac yn *One Hundred English Folk-Songs*, t. 134); ac yn olaf William Wells Newell, *Games and Songs of American Children* (New York & London, 1903), t. 136.

Gyda llaw, onid aeth rhywbeth o'i le ym mhennill olaf y testun Cymraeg? Oni ddylai'r ferch fod yn fodlon canu er mwyn cael gŵr? Dyma mae'r testun Americanaidd yn ei awgrymu.

Recordiwyd y gân 'Whistle, daughter, whistle' gan Peggy Seeger yn yr Unol Daleithiau ar Folkways Records (albwm rhif FA 2049) yn 1955 ac 1962. Cyhoeddwyd geiriau'r fersiwn hwn ar y daflen sy'n gysylltiedig â'r recordiad, fel a ganlyn:

WHISTLE, DAUGHTER, WHISTLE

Mother, I would marry, yes, I would be a bride,
And I would have a young man forever at my side;
For if I had a young man, oh how happy I would be,
For I am tired and oh so weary of my singularity.

Whistle, daughter, whistle, and you shall have a cow,
I cannot whistle, mother, I guess I don't know how;
But if I had a young man, oh how happy I would be,
For I am tired and oh so weary of my propriety.

Whistle, daughter, whistle, and you shall have a sheep,
I cannot whistle, mother, I can only weep;
But if I had a young man, oh how happy I would be,
For I am tired and oh so weary of my virginity.

Whistle, daughter, whistle, and you shall have a man,
I cannot whistle, whw-whw-wh-wh-wh-wh-wh;
You impudent little daughter, and what makes you whistle now?
I'd rather whistle for a man than whistle for a cow.

Mewn nodiadau ar y geiriau uchod dywedir:

The theme of 'Whistle, Daughter' is commonly found in Western Europe as well as throughout the United States. This particular version seems to be a more literary one, making use as it does of such

abstract terms as ‘singularity’, ‘propriety’, and ‘virginity’ – words not typical of folk song and indicative of urban influence.

Ceir enghreifftiau niferus o’r gân ‘Whistle, daughter, whistle’ ar y we o fewnbwnio teitl y gân werin, ac mae rhai o’r amrywiadau a welir yno yn rhai tra diddorol.

CÂN MOEL EMOEL

Meredydd Evans

Rywbyrd yn niwedd pedwardegau'r ganrif ddwaetha oedd hi pan gefais y cyfle gwyh i ganu ar gyfres fer o raglenni radio o Neuadd y Penrhyn, rhaglenni o hen gerddi, hefo Ifan O. Williams yn cynhyrchu. Y prif gantorion oedd John Thomas, Maes-y-fedw; Bob Roberts, Tai'r Felin; ac Owen Williams 'Eos Gwynant'. Yn pyncio ambell gân hefyd roedd Emrys Cleaver a minnau. Y telynorion, yn rhannu'r rhaglenni rhyngddynt, oedd Telynores Maldwyn ac Osian Elis.

Rhyfeddwn at y tri henwr. Buont wrthi dros flynyddoedd lawer yn diddanu'r Cymry ond dyma nhw wrthi hi eto mor egniol ag erioed, a dyna'r union air i ddisgrifio'r canu, er eu bod yn ymarfer eu crefft o fewn amgylchedd farwaidd a thawel stiwdio ddigynulleidfa. Ar y pryd, ymhlith perfformwyr soffistigedig y cyfrwng, byddai cryn drafod ar 'dechneg radio' ond ni fennai hynny'r gronyn lleiaf ar y tri hyn! Cyfrwng modern neu beidio, canu'i hochor hi – dyna'u harfer nhw. Nid gweiddi, sylwer, ond canu'n agored, braf.

O'm rhan fy hun, er cymaint fy edmygedd o'r tri ohonynt, John Thomas a gâi, ac a gaiff, y flaenoriaeth gen i. Roeddwn wedi clywed amdano cyn dyddiau'r 'Noson Lawen' (rhaglen yr oedd o a Bob wedi ymddangos arni fwy nag unwaith) ac un cyfaill imi, y gwalch hwnnw, Tec Lloyd, wedi sôn yn benodol wrthyf am un o ganeuon 'masweddus' yr hen ganwr, cân parlwr cefn diferched fel 'tae. Yn ystod un o'r rhaglenni cornelais John Thomas a'i wahodd i ddod am dropyn bach cyn cychwyn am adre, hefo'r gŵr a'i gyrrodd yn ei gar i Fangor. Felly y bu ac aeth y tri ohonom i dafarn y Waterloo, o fewn tafliad carreg i Neuadd y Penrhyn.

Ar y pryd, gyda llaw, roedd John Thomas ychydig dros ei ddeg a phedwar ugain ac yn ddall. Wedi i'r ddiod ddod i'r bwrdd dwedais wrtho imi glywed fod ganddo gân am rywbeth a ddigwyddodd ar ben Moel Emoel (ychydig i'r gogledd o'i gartref yng nghyffiniau'r Bala). Oedd, roedd ganddo fo un felly. A gawn i ei chlywed? 'Oes 'na ferched yma?' 'Nagoes'. 'Iawn, mi cana hi ichi'. A chanodd hi'n hwyliog. Yn ddiweddarach cefais y geiriau gan

berthynas iddo, i'w canu ar 'Tôn y Melinydd':

Aeth tair o ferched ifanc
I ddechrau gwneuthur te
I fyny dros Foel Emoel,
'Does achos enwi b'le:
Glywi di, glywi di Mari fach?
Glywi di, glywi di Mari fach?
Glywi di Mari annwyl?

Yn dechrau ar y fisit
Yn gynnar y prydawn
Nes darfu pob un yfed
Nes oedd ei bol hi'n llawn: Glywi di, glywi di

A hwy a aethant allan
Gan ddechrau gwneuthur dŵr
Nes oedd rhyw genllif dychrynlyd
Yn dod i lawr yn stŵr: Glywi di, glywi di

Fe chwalwyd pont y Penmaen,
Fe chwalwyd Glasfryn Bach,
Fe foddodd saith o ddefaid
A thri o loiau bach: Glywi di, glywi di

Os byddwch yn mynd i barti,
Beth bynnag fydd y sbort
Gobeithio na wnewch b-p
Dim mwy na llond y pot: Glywi di, glywi di

'Moel Emoel' y gelwid y gân gan y canwr, meddai'r perthynas wrthyf, a
'Dyna'r cwbl sydd ohoni gan John Thomas.' Tybed a foddwyd sawl peth
arall yn ôl ffurf lawnach arni?

Y CANIEDYDD CYMREIG – RHAGOR AM IEUAN DDU A'I GANEUON

Nigel Ruddock

Dilyniant yw'r ethygl hon i 'Tair Cân Ieuan Ddu a'u Geiriau Gwreiddiol' yn *Canu Gwerin* 28, tt. 42–51. Bwriedir dosbarthu'r drafodaeth i dri phrif bennawd, sef:

- (I) awgrymu geiriau ar gyfer dwy gân arall yn *Y Caniedydd Cymreig*¹
- (II) trafod pum eitem yn *Y Caniedydd Cymreig* sydd o ffynonellau ansicr
- (III) *Y Caniedydd Cymreig* a chyhoeddiadau cynnar Ieuan Ddu

Wrth dynnu ynghyd dystiolaeth y tair adran uchod bydd modd cynnig amlinelliad o'r modd yr aeth Ieuan Ddu ati i gynhyrchu'r *Caniedydd Cymreig*.

(I) Geiriau dwy gân arall yn *Y Caniedydd Cymreig*

Mae Dau Ddrws ar y Dafarn (*Y Caniedydd Cymreig*, t. 74)

Ceir dau drihan a allai fod yn gysylltiedig â'r alaw hon. Maent i'w gweld mewn tair ffynhonnell, sef llawysgrif LIGC 1138B,² *Y Darian*,³ a *Tribannau Morgannwg*.⁴ Maent yn ymwneud â James Watkin Davies a fu'n cadw 'Y Tafarn Uchaf' (New Inn) yn Ystradfellte a hynny, yn ôl tystiolaeth *History of the Vale of Neath*,⁵ yn y cyfnod c. 1839–1856. Adwaenid ef fel Watcyn Rhys y Gwaudd, ac ef yw testun cofiant llawysgrif LIGC 1138B 'Cofiant ... a Gweithiau Barddonol ... Watcyn Rhys y Gwaudd' a gyflwynwyd yn Eisteddfod Pontneddfechan yn 1910 gan un yn dwyn y ffugenw 'Eryr'. Mae'r tribannau yn amrywio rhywfaint yn ôl y ffynhonnell. Dyma sut y maent i'w gweld yn *Y Darian*:

Pob rhyw un a ddelo
At Watcyn Rhys y Cymro,
Caiff gwrw da am chwech y cwart,
A merch fach smart i'w dendio.

Dau ddrws y sydd i'm tafarn,
 Un ddod fewn ac un fynd allan;
 A phawb a fydd a'i geg yn sych
 Caiff ddiod wych am arian.

Sylwer mai dim ond chwe sillaf sydd yn y llinell 'Pob rhyw un a ddelo', a honno'n dechrau'n acennog. Wrth ollwng y geiryn rhagferfol byddai'r un peth yn wir am 'Dau ddrws y sydd i'm tafarn'. Mae hynny'n golygu nad oes angen anacrwsis i ganu'r geiriau uchod. Wrth ddefnyddio geiriad Ieuan Ddu er mwyn cyfiawnhau'r anacrwsis ceir y ffurf a ganlyn:



Ysgrifennir pedwerydd curiad bar 6 fel tripled yn nodiant Ieuan. Dewiswyd dehongli'r cyfuniad hwnnw fel addurn i'r nodyn A – addurn y gellir ei hepgor heb wneud unrhyw niwed i'r alaw. Mae'n debyg y byddai canwr yn gwneud defnydd o'r anacrwsis (neu beidio) yn ôl gofynion ei bennill. Byddai'n naturiol i gantorion newid y llinell honno gan Watcyn Rhys sy'n sôn am y ddau ddrws. Wrth gwrs, y newid amlycaf fyddai defnyddio'r fannod o flaen y gair 'tafarn'. Sylwer hefyd fod 'tafarn' fel arfer yn air gwrywaidd yn y Wenhwyseg.

Mae sawl ffordd o esbonio'r anghysondeb rhwng teitl Ieuan a'r geiriau a geir yn y triban. Beth bynnag, fe allai geiriad Ieuan ddangos ei fod braidd yn ddidaro ynghylch yr union eiriau a glywodd. Ceir anghysondeb tebyg ynghylch dwy o'r tair cân a drafodwyd yn yr erthygl flaenorol. Mae testun y tribannau hefyd yn arwyddocaol, gyda'u hawgrym o fercheta a diota. Anodd dychmygu na fyddai Ieuan wedi bwriadu disodli'r geiriau hyn o'r cychwyn cyntaf. Mae'r gân hon eto i'w lleoli yng ngodre deheuol Bannau Brycheiniog yng nghylch ehangach Merthyr. Yng nghyswllt triiogaeth ei ganeuon, dyma'r disgrifiad a rydd Ieuan Ddu yn ei ragymadrodd i'r *Caniedydd Cymreig*: '... these are principally the Airs of Dyfed; some of them are common to Dyfed, Gwent, and Morganwg.' Mae'n werth ystyried i ba raddau y gellir derbyn y gosodiad hwnnw. Ceir rhagor o wybodaeth ar

ddiwedd ei ragymadrodd lle ceir rhestr o 43 o alawon ynghyd â'r paragraff isod:

The persons from whose singing I have written the *Airs* which are hereunder named, (and which, with my own original *Airs*, to which my name appears attached throughout the book, are copyright,) are Mr. Edward Thomas, Cefn Penar; Mr. Rees Evans, Ton Côch; Mr. Robert Roberts, Merthyr; Mr. J. Price, Gyfarthfa, (from whose singing all the *Dyfed* *Airs* are written, with the exception of those I knew from my childhood,) and some five or six others, who contributed each a tune to the list given below.

(Gweler Rhan II am ragor o fanylion ynghylch yr uchod.)

Mae'n gallu bod yn anodd deall beth yn union oedd cymhelliad Ieuan wrth restru'r 43 alaw hyn. Awgrymir yn aml mai dyma gyfanswm yr alawon ar gyfer caneuon traddodiadol a geir yn y gyfrol. Serch hynny, fe ddywed Ieuan ei hun, 'The number of the hitherto unpublished *Airs* which this volume contains is about fifty.' Rhoddir sylw pellach i'r cyfanswm tebygol yn Rhan II. Os rhoi cydnabyddiaeth yw'r nod, pam nad yw'n enwi'r ffynonellau i gyd? Un posibilrwydd yw y gallai'r rhestr gynrychioli ffordd Ieuan o sicrhau nad oedd neb yn mynd i'w gyhuddo o gyhoeddi alawon pobl eraill ac esgus mai ef ei hun oedd y ffynhonnell. Efallai fod arwyddocâd arbennig i'r ffaith mai 43 oedd cyfanswn yr alawon a gyhoeddodd Maria Jane Williams. Yn ei ragymadrodd i ailargraffiad *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg* sonia Daniel Huws am y 'cyd-daro' ynghylch nifer y caneuon.⁶ A yw rhestr Ieuan i fod i ddangos iddo gasglu o leiaf gynifer o ganeuon â Maria Jane Williams?

I ddychwelyd at gwestiwn tarddle tebygol y caneuon, ceir rhywfaint o oleuni drwy amcangyfrif. A bwrw bod y tri chyntaf a enwir yn y paragraff uchod wedi cyfrannu tair cân yr un, ac ychwanegu'r chwe chân a gasglwyd fel eitemau unigol, ceir cyfanswm o ryw 15 eitem sydd â'u gwreiddiau y tu allan i Ddyfed. Mae hynny'n cynrychioli tua 30% o'r cyfanswm. Golyga hyn fod J. Price wedi cyfrannu 28 eitem. Nid yw'n syndod fod un person wedi cyfrannu cymaint o ganeuon. Y ffaith sy'n arwyddocaol yw fod Ieuan wedi casglu cyn lleied gan y gweddill. Fe allai hyn awgrymu bod Ieuan wedi mynd ati o'r cychwyn i greu casgliad o ganeuon Dyfed.

Mae'n debyg fod elfen o frogarwch yng nghymeriad Ieuan. Yn ei draethawd

Hanes o'r Delyn yn Ngwent a Morganwg, 1840, a gyhoeddwyd dan y teitl *The Harps and Harpers of Gwent and Morganwg*,⁷ cyfrifir 'Y Ferch o'r Scer' ymhlith 'many beautiful airs remembered throughout Dyved'. Mae'n bosibl hefyd y byddai wedi bod yn haws marchnata ei gyfrol ym Merthyr wrth bwysleisio'r ffaith nad oedd y rhan fwyaf o'r caneuon i'w clywed yn y cylch – wedi'r cwbl, pam ddylai gwŷr Morgannwg dalu am gael canu eu caneuon eu hunain!

Mewn gwrthgyferbyniad ag *Ancient National Airs* (a gyhoeddwyd yn breifat ar gyfer rhestr o danysgrifwyr o haenau uchaf y gymdeithas) fe gyhoeddodd Ieuan Ddu *Y Caniedydd Cymreig* mewn rhannau – tair rhan swllt ynghyd ag un arall am chwe cheiniog. Pris *The Welsh Harper*⁸ yn 1839 oedd 25 swllt. Yn y copi o'r *Caniedydd Cymreig* sydd yn Llyfrgell Casnewydd ceir rhai o anerchiadau Ieuan i'w danysgrifwyr:

... drwg gan yr Awdwr hysbysebu i dderbynwyr ffyddlonaf y Llyfr ...
bod ugeiniau o dderbynwyr mewn gwahanol fanau a ddigalonir hyd
yn nod a'r meddwl o orfod talu Chwe Cheiniog am ran o lyfr.

Hawdd yw gweld bod Ieuan angen ei sgiliau marchnata. Mae'n rhaid cofio ei fod yn torri tir newydd wrth gyhoeddi'r gyfrol, ac mae'n debyg iddo wneud colled arni.⁹ A yw'r sôn sydd yn y rhagymadrodd am gyhoeddi atodiad i'r llyfr yn abwyd i weld beth fyddai ymateb y farchnad? Dywed David Morgans yn *Music and Musicians of Merthyr and District*, 'He also intended publishing his melodies in a more expensive form, with harp and pianoforte accompaniments.'¹⁰ Mae hynny'n mynd yn groes i ysbryd yr hyn a ddywed yn *Y Caniedydd Cymreig* – ond eto i gyd, efallai ei fod yn gweld cyfle i fanteisio ar ran arall o'r farchnad.

Y Garreg Lwyd (*Y Caniedydd Cymreig*, t. 172)

Trafodir cân Ieuan Ddu 'Lisa Dal y Sarn' ar yr alaw 'Y Garreg Lwyd' ymhellach yn Atodiad 1. Dyma ail bennill cân Ieuan Ddu:

Os cul yw Aeron fwyn,
Gwna les o gylch i'r tir;
Os ar ei min mae brwyn,
Mae hefyd feillion îr,
A llawer derwen wech,
Nad rwydd ei gwneyd yn ddarn,

Wna'r las fro'n ddryd;
Ond dim fel pryd
Hoff Lisa Dal y Sarn.

Sonnir am 'Y Garreg Lwyd' fel teitl cân hela gan T. C. Evans 'Cadrawd' yn *History of Llangynwyd*, ac yn yr un gyfrol ceir 'Cerdd Hela Craig y Bwllfa', sy'n awgrymu bod y Garreg Lwyd yn enw lle yng nghylch Aberdâr. Ceir yr un enw o leiaf dair gwaith ar gyfer mannau uchel yng nghyffiniau'r Bannau.

Mae sôn pellach am y Garreg Lwyd ym mhennill 151 *Yr Hwiangerddi* gan O. M. Edwards. Ceir amrywiadau eraill ym mhennill 59 *Hwiangerddi F'ewyrth Huw*, ac yn rhif 44 *Hen Hwian-Gerddi* Ceiriog. (Efallai fod lle i ailystyried honiad Ceiriog fod y casgliad hwnnw mor 'amddifad o Hwiangerddi Deheudir Cymru'.) Tebyg yw pennill rhif 174 yng nghyfrol O. M. Edwards, sydd hefyd yn cynnwys Pen y Graig fel enw priod. Mae'n ogleisiol fod Garreg Lwyd, Pen-y-graig a Thal-sarn yn digwydd o fewn ychydig filltiroedd i'w gilydd ger Capel Gwynfe ar Fannau Sir Gâr. Yn anffodus nid yw O. M. Edwards yn nodi ffynonellau ar gyfer ei benillion. Ni lwyddwyd i ddod o hyd i bennill cyfatebol ymysg y 177 o benillion sydd yn *Y Gweithiwr Cymreig* a grybwyllir gan Dr Meredydd Evans yn ei erthygl 'Rhigymau Plant' (*Canu Gwerin* 19), nac ychwaith ymysg y 144 o eitemau a nododd Cadrawd yn llawysgrif Caerdydd 2.332. Beth bynnag am hynny, mae ffurfiau berfol cymysg y pennill yn drawiadol, ac mae'n debyg fod y rhain i'w clywed yng Ngheredigion a gogledd Sir Frycheiniog. Wrth osod geiriau'r pennill ar yr alaw fe sylwir bod yn rhaid dyblu tri nodyn. Ymddengys hefyd fod sillaf ar goll o linell agoriadol y pennill. Er cydnabod diffyg tystiolaeth uniongyrchol i gysylltu'r pennill ag alaw Ieuan Ddu, mae hwnnw o leiaf yn cynnig enghraifft ddiddorol o'r gydberthynas sydd rhwng pennill traddodiadol a'r geiriau a geir gan Ieuan.

Mae'n amlwg fod patrwm odlau pennill Ieuan yn llawer mwy cymhleth na'r pennill traddodiadol. Trafodir Ieuan y bardd ymhellach yn Rhan III, ond amheuir ei fod yn dangos ei ddoniau trwy greu'r holl odlau a geir yn ei bennill. Dyna esboniad posibl dros ddisodli'r terfyniadau benywaidd â rhai gwrywaidd i greu odlau acennog yn llinellau 1, 3 a 5. Sgileffaith hyn fyddai newid nifer y sillafau yn y llinellau hefyd. Mae'r gair 'wech' yn sefyll allan fel yr unig air sydd heb odl gyfatebol ym mhennill Ieuan uchod. Os tybir mai 'wych' oedd ym meddwl Ieuan wrth lunio'r pennill, byddai hynny'n ffurfio lledodl gyda'i 'ddryd' a 'pryd', a'r rheini yn eu tro yn creu effaith odl gyrch.

Llwydda i greu odl neu ledodl fel hyn ar gyfer y rhan fwyaf o'i benillion, gan ddewis odli llinellau 5 a 4 mewn nifer o achosion lle na cheir lledodl.

Weithiau ystyrir bod terfyniadau gwrywaidd yn nodweddu alaw o darddiad estron. Yn achos 'Y Garreg Lwyd', fodd bynnag, mae'n bosibl eu bod wedi codi yn sgil awydd Ieuan i ddangos ei ddoniau barddol a chreu patrwm odli cymhleth.

[Mae] ladi bach ben-fel-en, yn bys ar ben y graig, Mi
 bobith ac ni olchith, Gwnaiff i-mi burion gwaig; Mi
 storkith ac ni smwddith, Gwnaiff i-mi burion bydd, Fe
 ainaiff i'r haul dy-gwyn nu Ar ben y Gar-reg Lwyd

(II) Dosrannu cynnwys *Y Caniedydd Cymreig*

Yn *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* v, 74, tynnodd Leslie Wynne Evans sylw at y ffaith fod y gân 'Cul y Drws' a restrir gan Ieuan Ddu ymhlith y 43 a gasglwyd ganddo yn ymddangos yng nghorff y gyfrol fel 'Y Cul Drws, by J. T.'. Fe'i hatgynhyrchwyd yn yr atodiad i'w erthygl. Mae'r nodiant yn cynnwys motiff ailadroddus (gweler ymhellach y drafodaeth yn Rhan III) sy'n awgrymu alaw draddodiadol. Mae'n werth dyfynnu un pennill ohoni.

Fe – Prynaïs wely do werth chweugen, Digon gwir, digon gwir.

Hi – Gobeithiaf bod e led eich cefen, A digon hir, a digon hir.

Fe – O fy Nghat bydd lle i chwithau.

Hi – A fydd rhyngom ni wael i'r cathau?

Fe – O mor bengam i chwi Catrin, A'ch tafod lws a'ch tafod lws.

Hi – O mor sanctaidd i chwi Rhysyn, Tu fa's i'r drws, tu fa's i'r drws.

Mae thema'r ymddiddan yn un ddigon traddodiadol ac ymddengys ei bod yn perthyn i gyfnod cyn i foesoldeb Oes Fictoria gydio'n llwyr. Gellir sylwi ar

‘wael’ am ‘wâl’, ‘i’ yn lle ‘ÿch’, ‘bod e’, y ffurf luosog ‘cathau’, a’r defnydd o’r gair Saesneg ‘loose’. Nid yw’r rhain yn nodweddiadol o waith Ieuan Ddu. Yn ei ragymadrodd sonia am dair cân nad ydynt o’i waith ei hun. Ceir un, heb nodiant cerddorol, ar d. 185 ynghyd â’r geiriau ‘J. Rees a’i cânt’. Efallai fod yr uchod yn un arall o’r tair. Gan fod Ieuan Ddu wedi rhestru’r gân ymhlith y 43, gan nodi hefyd rif tudalen ar ei chyfer, mae’n ddigon rhesymol derbyn hon fel eitem a gasglwyd. Peth digon hawdd fyddai ychwanegu ‘by J. T.’ at enw cân trwy gamgymeriad.

O ran yr eitemau mewn nodiant cerddorol (gweler ymhellach Atodiad 3), yn ôl fy nghyfrif i, mae’r dosraniad fel a ganlyn:

- 58 eitem i’w holrhain i’r casgliadau telyn
 - 42 eitem wedi’u cyfansoddi gan Ieuan Ddu
 - 43 eitem wedi’u casglu gan Ieuan Ddu
 - 5 eitem o ffynonellau ansicr
- cyfanswm 148

Gwelwn yn y man fod rhywfaint o orgyffwrdd yn bosibl yn y dosraniad uchod. Y pum eitem o ffynhonnell ansicr yw ‘Dull o’r Triban’, ‘Auld Lang Syne’ (‘Yr Hen Amser Gynt’), ‘Tri Thrawiad’, ‘The Mary Ann’, ac ‘Y Deryn Glas sydd ar y Tŷ’.

Dywed Ieuan Ddu iddo gynnwys ‘Auld Lang Syne’ am iddo gyfansoddi geiriau Cymraeg ar ei chyfer rhai blynyddoedd ynghynt. Mewn gwirionedd, yr oedd y geiriau wedi ymddangos yn *Telyn y Cantorion*¹¹ yn 1828, ond roedd gan Ieuan resymau dros beidio â thynnu gormod o sylw at hynny, fel y gwelir yn Rhan III. Dywed mai dyma’r unig eitem yn y casgliad nad yw’n alaw Gymreig. Bydded hynny fel y bo, mae ‘The Mary Ann’ yn dangos nodweddion a allai awgrymu iddi darddu o wreiddiau Gwyddelig neu Albanaidd os ydyw mewn gwirionedd yn eitem draddodiadol. Ar y llaw arall, dim ond pedair gwaith mae Ieuan Ddu yn defnyddio ffurf Saesneg ar enw alaw o’r casgliadau telyn (‘Glamorganshire March’, ‘Captain Morgan’s March’, ‘Sir Watkin’s Delight’, ‘Prestwick Bells’). Ac eithrio ‘Auld Lang Syne’ a ‘The Mary Ann’ mae pob un arall o’r 27 teitl Saesneg sy’n weddill i’w cysylltu ag alawon gan Ieuan Ddu. Mae teitl Saesneg yr alaw ‘The Mary Ann’ a’r ffaith fod y teitl yn cyd-fynd â thestun y geiriau Saesneg (sy’n sôn am dref Caerfyrddin) yn awgrymu y gallai’r alaw fod o waith Ieuan Ddu. ‘The Mary Ann’ yw’r alaw sy’n dilyn ‘Cul y Drws’ yn *Y Caniedydd Cymreig*. Ai dyma’r alaw a ddylai fod wedi cael ei dynodi ‘by J. T.’?

Manylir ar y tair alaw sy'n weddill.

(1) Dull o'r Triban (*Y Caniedydd Cymreig*, t. 2)

Fel y dangoswyd uchod, mae alawon telyn yn ffurfio'r dosbarth mwyaf niferus yn *Y Caniedydd Cymreig*, ac yn wir, cyhoeddodd Bardd Alaw ffurf ar yr alaw hon yng nghyfrol gyntaf *The Welsh Harper*. Serch hynny, nid cainc delyn mohoni, fel y cawn weld yn y man. Nodwyd yr alaw fel cân cathreinwr ym Mro Morgannwg gan y Parchedig Bevan o Grucywel a'i hanfon i Eisteddfod Caerfyrddin ym 1819. Trosglwyddwyd yr alaw i Dr William Crotch, awdur *A Selection of Various Styles of Music*¹² ac fe wnaeth yntau gyfansoddi bas iddi. Mae hyn i'w ddeall yng nghyd-destun agenda hynafiaethol y ceir amlinelliaid ohono mewn llythyr gan Iolo Morganwg dyddiedig 1802,¹³ lle ceir sôn am *ranz des vaches* y Swistir. Cynhwyswyd enghreifftiau o'r *ranz des vaches* yng nghyfrol Crotch.

Ym mis Gorffennaf 1823 cyhoeddwyd nodiant y Parchedig Bevan yn ddigyfeiliant ac yn ddideitl yn *Seren Gomer* trwy law Thomas Price, 'Carnhuanawc'. Dywed Carnhuanawc:

Yr wyf yn credu bod llawer o hen alawon Cymreig ar hyd y Dywysogaeth, y sawl fel hon nid ydynt yn argraffedig: ond, pe cymerai rhyw un medrus y drafferth i'w ysgrifenu a'u cyhoeddi, y talent yn dda iddo am ei waith; oherwydd bod gwerthiant parod ym mhlith y Saeson i un rhyw fath gyhoeddiad, os trefnir mesurau addas tuag at hyny.¹⁴

Dyma'r alaw fel y'i cyhoeddwyd yn *Seren Gomer*.




Mae'n debyg mai dyma'r gyntaf o'r caneuon cathreinwr i ymddangos mewn print. Mae rhywfaint o amwysedd o bosibl ynghylch swyddogaeth y geiriau 'Tra chwynfanus' ond mae'n debyg eu bod yn cyfleu naws y darn. O anwybyddu'r anacrwsis gwelir bod y nodau'n cyfleu'r rhythm 7,7,8,7 sy'n

nodweddu triban a bod y nodyn olaf yn alwad i'r ychen. Cododd Ifor Ceri y darn i'w gasgliad yntau. Yr oedd Ifor Ceri wedi nodi cân cathreinwr arall ym Mro Morgannwg, ac yn ei nodiant o'r gân uchod estynnodd yr alwad i hyd tri nodyn.¹⁵ Ceir gohebiaeth rhwng Ifor Ceri a Charnhuanawc ynghylch yr alaw yng nghofiant Carnhuanawc.¹⁶ Ymddengys i'r Parchedig Bevan roi'r gân i Fardd Alaw ac iddi ffurfio rhan o gasgliad Aneurin Owen a gyflwynwyd yn Eisteddfod Aberhonddu yn 1826. Yn y cyswllt hwnnw dywed Bardd Alaw iddi ymddangos yn *The Musical Quarterly Review* viii. Fe'i cyhoeddwyd ganddo yn *Trafodion y Cymmrodorion* II (1828), t. 183, ac fe'i ceir mewn ffurf debyg mewn llawysgrif o waith Bardd Alaw a ddechreuwyd tua 1826.¹⁷ Erbyn i Fardd Alaw gyhoeddi'r alaw yn *The Welsh Harper I* dan y teitl 'Glamorganshire Shepherd's Ditty' ('Cân Bugail Morgannwg') yr oedd rhai o'r nodau wedi'u newid, hyd nodau eraill wedi'u haddasu, ac ail hanner yr alaw (ynghyd â'r nodyn sy'n cyfateb i'r alwad) yn cael ei ailadrodd. Dyma'r gyngail sydd y tu ôl i'r gân fel y'i ceir yn *Treasury of Welsh Songs*,¹⁸ er enghraifft. Yno ceir penillion 6 llinell sydd wedi'u llunio i gyd-fynd â phob nodyn o'r ffurf hynod honno a greodd Bardd Alaw! Mae olrhain hanes cân fel hon yn amlygu newidiadau a allai fod wedi digwydd i nifer o'n halawon yn ystod eu hoes. Roedd Ieuan wedi gwrthsefyll y demtasiwn i gyfansoddi pennill 6 llinell ar yr alaw, ac efallai mai dyma'r unig enghraifft yn *Y Caniedydd Cymreig* lle yr ailadroddir rhan o'r pennill yn gyfan. Mae hynny i raddau yn mynd yn erbyn arfer y cyfnod – cymharer sylwadau Taliesin ab Iolo a ddyfynnir yn Rhan III. Gellir gweld arwyddocâd o bosibl yn y ffaith fod Ieuan wedi dewis 'Dull o'r Triban' yn enw ar yr alaw. Er hynny, mae'n debyg iddo gael ei ddylanwadu gan Fardd Alaw. Mae'r patrwm esgynnol o dri nodyn sydd i'w weld ym marrau 6 a 10 hefyd i'w weld yn *The Welsh Harper I* ynghyd â'r ailadrodd. Sylwer bod amseriad yr alaw yn tueddu i gyflymu hefyd – ceir 'spiritoso' yn *The Minstrelsy of Wales*,¹⁹ er enghraifft.

Oni bai fod y geiriau 'Tra chwynfanus' yn cyfateb i eiriau agoriadol rhyw bennill o drihan, mae'n amlwg nad oes unrhyw eiriau neilltuol i'w cysylltu â'r alaw a gyhoeddwyd yn *Seren Gomer*. Gan nad oes prinder alawon 'tra chwynfanus', efallai y dylid croesawu ffurf yr alaw fel y'i cyhoeddwyd yn *Y Caniedydd Cymreig*. Dylid pwysleisio, wrth gwrs, fod gofyn am drihan sydd â digon o ergyd yn ei ail hanner i gynnal yr ailadrodd. Gobeithio y gellir maddau dewis mympwyol sy'n amlygu'r sylwadau uchod. Daw'r triban o'r un ffynhonnell â rhai o'r geiriau a drafodwyd yn yr erthygl

flaenorol, sef *Llen Gwerin Blaenau Rhymni*.²⁰ Nid yw'r triban wedi'i nodi'n hollol gywir yn y ffynhonnell honno, felly rhaid ei drwsio drwy ychwanegu dau air dibwys i ateb gofynion y mydr a thacluso ychydig ar yr iaith yn ogystal.



Mae cyfres o dribannau fel yr uchod yn fwy effeithiol o lawer na'r geiriau cyfansoddedig ar yr alaw hon. Mae hi'n haeddu cael ei chanu, a'r canu hwnnw'n bendant yn 'spiritoso'!

(2) Tri Thrawiad (*Y Caniedydd Cymreig*, t. 72)

Fel yn achos 'Dull o'r Triban', dyma enghraifft bellach o enw mesur barddonol yn gwasanaethu fel enw ar gyfer alaw. Fe ddengys y 'Tri Tharawiad' a gyhoeddodd Bardd Alaw yn *The Welsh Harper II*²¹ yn 1848 nad oedd yntau'n gyfarwydd â hanfodion y mesur hwn ychwaith, ac fel yn achos yr enghraifft flaenorol gallai'r enw fod yn arwyddocaol.



Cyhoeddwyd 'Tri Tharawiad' arall sydd â rhan gyntaf hynod o debyg yn *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* III, iv, t. 185. Codwyd hwnnw (gyda mân wahaniaethau) o lawysgrif Ifor Ceri, lle mae'n dwyn yr enw 'Tri Tharawiad Morganwg'. Y ffynhonnell a nodir yw Richard Williams, Glyn Cynon. (Hwn oedd y 'Dryw Bach' yn nhyb Daniel Huws, gweler ei nodiadau i'r 'Mab Addfwyn' yn *Ancient National Airs*.) Mae Ifor

Ceri yn nodi'r llyfr *Blwch o Bleser*²² yn ffynhonnell y geiriau 'Clywch bawb yn gyffredin ...' gan Gwilym Morganwg. Mae'r ffaith honno'n awgrymu nad oes o bosibl unrhyw gysylltiad arbennig o agos rhwng yr alaw a'r geiriau (gweler erthygl Daniel Huws 'Melus-Seiniau Cymru', *Canu Gwerin* 8, tt. 32–50).

Yr unig addurniadau mae alaw Ieuan yn eu cynnwys yw dau lithriad i'r nodyn dilynol ar drydydd nodyn bar 5 a nodyn olaf bar 7, ond mae'r ddwy alaw yn rhannu'r un nawws lawen, yn ogystal â thebygrwydd trawiadol yn enwedig yn y rhan gyntaf.

Gwnaeth Ifor Ceri ddefnydd o *Canwyll y Cymry*²³ yn ffynhonnell ar gyfer geiriau i alaw arall ar batrwm y mesur tri thrawiad, sef carol Nadolig gyda llostau teirsill ym mhob pennill. (Gellir diffinio *llost* fel y rhan o'r llosgwrn sy'n dilyn yr orffwysfa.) Mae 'Tri Thrawiad' Ieuan Ddu ar gyfer penillion lle ceir llostau pum sill a theirsill bob yn ail. Y llostau yn y pennill isod yw'r geiriau 'i foli Mab Duw', a 'rhag distryw'. Dewiswyd y penillion canlynol eto o *Canwyll y Cymry* er mwyn hyrwyddo ein gwerthfawrogiad o gân Ieuan. Hepgorir yr addurniadau. Dyma sylw Phyllis Kinney wrth sôn am garolau'r ail ganrif ar bymtheg yn y nodiadau i'r grynoddig *Cadw Gŵyl*: 'Mae'n werth nodi fod bron naw deg pump y cant o'r carolau yn y cyfnod hwn yn y mesurau traddodiadol Cymraeg, yn arbennig y mesur tri thrawiad.'

Tri Thrawiad

Deuch bawb yn garedig, Yn ffres ac yn ffrolig, Yn awr y Nadolig i foli Mab Duw, A
Psalmau a Hymnau, Yn hŷgrac yn foreu, Am gadw'n heneidiau -rhag distryw.

I'r 'stabal anghymmen,
O'r nefoedd ddisglaerwen,
I breseb yr ychen, o'i oruchaf lys,
O blith yr angylion,
I gadw blant ddynion,
Y daeth yr Oen tirion cariadus.

Gan hynny'n enwedig
Trwy wyliau'r Nadolig,
Rhown ddiolch caredig i'n cariadus Dad,
Am roddi mor rasol
Ei etifedd naturiol,
I fod i ni'n nerthol wir Geidwad.

Er nad oes dim tystiolaeth uniongyrchol i ddangos o ble daeth yr alaw hon, mae'n arwyddocaol fod dau o'r pedwar canwr a enwir gan Ieuan Ddu (gweler Rhan I) i'w lleoli yng Nghefnpennar yng Nglyn Cynon – dyma leoliad tyddynnod Cefn Pennar Isaf a'r Ton-coch a fu yn eu tro yn gartref i Edward Evan.²⁴ Yr oedd hwnnw'n delynor proffesiynol,²⁵ yn gyfansoddwr ceinciau,²⁶ ac yn fardd poblogaidd y ceir dwy o'i ganeuon yn *Ancient National Airs*. Ei fab Rhys, cyhoeddwr gwaith ei dad yn *Afalau'r Awen*,²⁷ yw'r Rees Evans a enwir gan Ieuan, mae'n debyg – tanysgrifiodd i'r gyfrol a phrynu pum copi ohoni yn 1837. Rhys oedd enw un o'i feibion yntau, a dyma a ysgrifennodd hwnnw i'r Ton-coch tuag 1870:²⁸

Yn iach i ti, 'r hen fwthyn,
Hen gartre'r beirdd dros ronyn,
Lle buont ganwaith wrth y tân
Yn gwneuthur cân ac englyn.

Dros fwy na chant o flwydda'
O fewn i'r breswyl yma
Bu'r awen yn blaguro'n llon
Ond darfu hon ei gyrfa.

Ar d. 177 o'r *Caniedydd Cymreig* ceir 'Cân o Goffadwriaeth am William Thomas o Gefnpennar'. Fe'i rhestrir yng nghyfrifiad 1841 fel ffermwr tua 70 oed a oedd yn byw yng Nghefn Pennar Uchaf, a'r canwr arall o Lyn Cynon, Edward Thomas, yn was yno: nodir ei fod rhyw bum mlynedd yn ieuengach na William. Y tebygolrwydd felly yw eu bod yn frodyr. Erbyn cyfrifiad 1851 Edward oedd yn ffermio 300 erw Cefn Pennar Uchaf ac roedd yn cyflogi pedwar gwas. Gellir deall yn hawdd fod tipyn o'r hen ddiwylliant ar aelwyd y Ton-coch, a'r un peth yn debygol o fod yn wir am Gefn Pennar yn ôl y disgrifiad a geir ym marwnad Ieuan:

Mor hoff bydd ymadael â Merthyr a'i chri,
I dreulio ar barth Cefn Penar rhyw hwyr,
A thrafod peth na ellir drafod rhy lwyr.

Ie, noswaith i ganu a galw i go
Bennillion dyfyrgar wnaeth hen feirdd y fro –
Yr hoff Edward Ivan, goreufardd o foes,
A Iolo fendigaid, disgleiriaf o'i oes ...


Fel y gwelir yn Rhan III, yr oedd Ieuan Ddu yn ei ystyried ei hun yn fardd yn anad dim. Gan nad yw Ieuan yn sôn am Edward Evan fel telynor yn ei draethawd dyddiedig 1840, efallai iddo gasglu caneuon Rhys Evans yn y cyfnod 1840–45. Mae'n amlwg fod cysylltiadau Ieuan â Glyn Cynon yn rhai pwysig, ac o ystyried tebygrwydd y ddwy dôn a gymherir uchod, mae'n anodd peidio ag amau bod 'Tri Thrawiad' Ieuan Ddu a'i gwreiddiau yn yr un diriogaeth.

Beth a ddywed y cyfrifiad ynghylch J. Price, pedwerydd canwr Ieuan? Y mae'n debyg mai fe yw'r John Price o Chapel Street, George Town, Cyfarthfa, a restrir fel labrwr yn y gwaith haearn a'i oedran yn 1841 tua 55. Er bod cyfrifiad 1841 yn rhestru o leiaf dri Robert Roberts ym Merthyr Tudful, yr un sy'n fwyaf tebygol o fod wedi canu i Ieuan yw'r saer maen a fu'n byw yn 56 High Street, Pontmorlais. Fe'i ganed ym mhlwyf Aberdâr a'i oedran yn 1841 oedd tua 45 – hynny yw, o gwmpas yr un oedran ag Ieuan ei hun.

(3) Y Deryn Glas sydd ar y tŷ (*Y Caniedydd Cymreig*, t. 200)

Mae'n bosibl fod hon yn gân yr oedd Ieuan Ddu yn gyfarwydd â hi o ddyddiau ei blentyndod, ac os felly dyma brawf nad yw'r rhestr o 43 alaw draddodiadol yn un gynhwysfawr. Yn anffodus, dim ond geiriau Saesneg sydd gan Ieuan, a'r rheini ar y mesur 86868686 ond y mae'n bosibl fod pennill(ion) Cymraeg ar gael o hyd yn rhywle sy'n cyfateb i'r teitl uchod. Yn *Canu Gwerin* 28 awgrymais fod Ieuan Ddu weithiau'n rhoi llinell Saesneg wyth sillaf ar frawddegau cerddorol sy'n gysylltiedig â llinellau Cymraeg saith sillaf. Mae teitl yr alaw yn awgrymu cân latai.

Cyflwyno *Llen Gwerin Blaenau Rhymni*, o gasgliad Bechgyn Ysgol Lewis, *Pengam* bennill ar y mesur 76767676 dan y teitl 'Llatai'. Yn niffyg y geiriau gwreiddiol gellir gwerthfawrogi'r alaw trwy osod y geiriau hynny arni:



Gellir hepgor yr haphodau heb niweidio'r alaw. Nid oedd Ieuan wedi nodi y dylai'r ail G ym mar 7 fod yn un naturiol, ond cywirwyd y gwall hwnnw yn yr ailargraffiad yn *Davidson's*.²⁹ Cynhwysir yr addurniadau gan gredu bod y rheini'n dibynnu ar chwaeth yr unigolyn. Dim ond yn y bar olaf ond un y mae Davidson yn cynnwys yr addurn.

Cyhoeddwyd pennill arall sy'n debyg i'r un uchod ym mhapur *Y Gweithiwr Cymreig* (3 Rhagfyr 1885):

Aderyn du pigfelyn
 A aed di drosto'i dal
 I dŷ Shon Watkin Morgan
 A disgyn ar y wal;
 A dywed wrtho'n union
 Fy mod i yn glaf iawn,
 Más o giwr doctoriaid
 Y bechgyn goreu'u dawn.

Cyhoeddwyd pennill arall eto sy'n debyg yn *History of Llangynwyd*:³⁰

Y 'deryn du pigfelyn, a ai di drosto i'n dâl
 Oddiyma i Ynys Forgan a disgyn ar y wâl;
 A dweyd yn fwyn wrth Gwenni am dd'od i ma's yn bost,
 Fod ar ei charwr llawen eisiau'i gwel'd yn dost.
 (i'w barhau)

NODIADAU

1 John Thomas 'Ieuan Ddu' (gol.), *Y Caniedydd Cymreig: The Cambrian Minstrel, being*

a Collection of the Melodies of Cambria with original words in English and Welsh, together with several original Airs (Merthyr Tudful, 1845).

- 2 Llawysgrif LIGC 1138B, ff. 92.
- 3 *Y Darian*, 22 Chwefror 1923.
- 4 Tegwyn Jones, *Tribannau Morgannwg* (Llandysul, 1976), t. 69.
- 5 D. Rhys Phillips, *History of the Vale of Neath* (Abertawe, 1925), t. 562.
- 6 Maria-Jane Williams, *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg* (Aberystwyth, 1988), ffacsimili o gynhyrchiad 1844, t. xv.
- 7 John Thomas, 'The Harps and Harpers of Gwent and Morganwg', *Cambrian Journal*, ii (1855), tt. 191–202.
- 8 John Parry, *The Welsh Harper I* (Llundain, 1839).
- 9 Meredydd Evans, 'Ieuan Ddu: Eisteddfodwr a Cherddor', *Taliesin* 58 (1986), t. 67.
- 10 David Morgans, *Music and Musicians of Merthyr and District* (Merthyr Tudful, 1922).
- 11 J. Brychan (gol.), *Telyn y Cantorion ... sef caniadau newyddion ... wedi eu cyfansoddi i gyfatted rhai o'r tonau pereiddiaf ag a arferir yn mhlith y Cymry, y Saeson, yr Albaniaid, &c* (Merthyr Tudful, 1828), t. 47.
- 12 William Crotch, *A Selection of Various Styles of Music* (Llundain, c. 1806).
- 13 G. J. Williams, *Iolo Morganwg* (Caerdydd, 1956), t. 61.
- 14 *Seren Gomer*, Gorffennaf 1823, t. 214.
- 15 Llsg. LIGC 1940A i, *Melus-Seiniau Cymru*, t. 188.
- 16 Jane Williams, *The Literary Remains of the Rev. Thomas Price, Carnhuanawc*, ii (Llanymddyfri, 1855), t. 85.
- 17 Llsg. Caerdydd 2.1363, t. 92.
- 18 D. Emlyn Evans, *Treasury of Welsh Songs* (Llundain, 1909), t. 34.
- 19 Alfred Moffat, *The Minstrelsy of Wales* (Llundain, 1906), t. 50.
- 20 *Llen Gwerin Blaenau Rhymni, o gasgliad Bechgyn Ysgol Lewis, Pengam* (Rhymni, 1912), t. 47.
- 21 John Parry, *The Welsh Harper II* (Llundain, 1848), t. 23.
- 22 *Blwch o Bleser i Ieuenctyd Cymru gan y Beirdd Goreu yn Neheubarth Cymru* (Caerfyrddin, 1816).
- 23 Rhys Prichard, *Canwyll y Cymry* (Llundain, 1672).
- 24 Gomer M. Roberts, *Crwydro Blaenau Morgannwg* (Llandybïe, 1962), t. 115.
- 25 G. J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (Caerdydd, 1948), t. 247.
- 26 Jane Williams, *The Literary Remains of the Rev. Thomas Price, Carnhuanawc*, ii (Llanymddyfri, 1855), t. 408.
- 27 Edward Evan, *Afalau'r Awen, sef Caniadau Moesol a Duwiol* (Merthyr Tudful, 1804).

- 28 R. T. Jenkins, *Bardd a'i Gefndir* (Caerdydd, 1949), t. 23.
- 29 G. H. Davidson, *Davidson's Musical Miracles: Two Hundred and Fifty Welsh Airs for a shilling, adapted for the violin, flute, accordion, or any treble instrument* (Llundain, 1859); cyhoeddwyd ffacsimili gan wasg Llanerch (Felinfach, [?1999]), t. 54.
- 30 T. C. Evans, *History of Llangynwyd Parish* (Llanelli, 1887); cyhoeddwyd ffacsimili gan Lyfrgell Pen-y-bont ar Ogwr (Pen-y-bont ar Ogwr, 1992), t. 158.

DYCHANGERDD O DREF DOLGELLAU

John Clough

Tybed a fyddai gan ddarllenwyr *Canu Gwerin* ddiddordeb mewn cân ddychanol a luniwyd yn 1874, ac sy'n cyfarch masnachwyr Dolgellau? Cafodd y ddogfen wreiddiol ei phlygu dros y blynyddoedd ac o'r herwydd mae wedi crychu, sy'n golygu bod y testun yn anodd ei ddarllen mewn mannau: dyna sydd i gyfrif am fwy nag un gofynnod yn y testun isod.

Nid yw'r ffynhonnell yn hysbys. Yn sicr, nid y papur lleol, *Y Dydd*, yw'r ffynhonnell. Ar gefn y ddogfen wreiddiol ceir tystiolaeth y gallai'r testun fod wedi ei gymryd o lyfr samplau ('*swatch book*') a ddefnyddiwyd ar un adeg i hysbysebu darnau o frethyn. Byddai fy hen nain yn bedair ar ddeg oed yn 1874 ac yn y flwyddyn honno fe weithiai i gwmni yn Nolgellau – cwmni yr oedd iddo fri mawr, ac a gynhyrchai frethyn o'r safon uchaf. Ymhlith cwsmeriaid enwog y cwmni hwn yr oedd y bardd Seisnig, Alfred Lord Tennyson, a hefyd y Dywysoges Alexandra, a chafodd y ddau ohonynt ddillad wedi eu llunio gan weithwyr y cwmni.

Cafodd fy mam, Mrs Olwen Clough, ei geni yn Nolgellau yn 1920. Clywodd



Dau lais cryf.

Mary Elizabeth Thomas (nain yr awdur) ac Anne Meredyth Thomas (hen nain yr awdur) yng ngardd eu cartref yn Nolgellau, sef Bank View, South Street, c. 1918

amryw o ganeuon yr ardal gan Meredith Jones a oedd yn byw yn Arthog, ond nid yw fy mam yn cofio caneuon y cyfnod yn fanwl iawn. Yr hyn y *mae* yn ei gofio, fodd bynnag, a'r hyn a wnaeth argraff gref arni, yw'r *dull* o gyflwyno – dull arbennig a ddefnyddid bob amser gan Meredith Jones ac un sy'n perthyn i gyfnod llawer cynharach na dauddegau'r ugeinfed ganrif. Yr oedd yn ddull gwahanol iawn i leisiau Dolgellau, a'r bobl hynny a gafodd eu hyfforddi i ganu yn y capel. Mae hi'n cofio gweision ffermydd yn canu hen ganeuon mewn arddull sydd bellach wedi diflannu, i bob golwg. Y dull tebycaf a glywsom ni i'r arddull honno oedd y gerddoriaeth a genid gan The Watersons yn y chwedegau. Cened harmonïau clòs, a cheid rhyw fath o floedd neu fanllef ('*whoop*'), ac y mae fy mam yn dal i gofio hynny o'i phlentyndod.

CAN NEWYDD I FASNACH WYR HAELFRYDIG DOLGELLAU

Er cof am ei gwaith yn atal Christmas Boxes

Nadolig, 1874

Cenir ar y Dôn – “Wait for the Waggon”

Mewn Undeb, ŵyr Dolgellau

'Rhown gan i'r Christmas Box;

Ni chawn yn Mhbont-yr Aran

Gan Williams hoelion Clocs

Gan Huw ni cheir had moron

Na ffagods yn Mhlas Coch

Na “glasiad” gan Rhys Roberts

Na Mills – y blewiau moch

Cydgan

Ffarwel byth i'r shopwyr

Gwnawn Undeb yn ein tref

Dim plaster gan R. Williams

Na phapur gan Owen Rees

Na phwt o gutta percha

Heb dalu'n ôl y pris

Dim pin gan Edward Williams

Na thorth o bobty Star

Na rice gan Edward Griffith

Mae'r oll o dan y bar

Cydgan

Dim te gan Dick Shop Newydd
Gan Tedi cheir 'un ddol
Na photel mwy gan Olyvr
Rhag colic yn y bol
Gan Miles ni cheir 'un lemon
Na phickles gan y "Shah"
A Dafydd Hughes sy'n gwaeddi
Y Almanac sy'n dda

Cydgan

Gan Williams - Doctor wtches
Ac Ifan awdwr clocs
A Morris hefyd weithan
Ni cheir 'run Christmas Box;
Dim triag gan T. Griffith
Na barrow flowes (?)
Na Jones o'i hoelio taxes
Na'r Post 'run gnwyll wen!

Cydgan

Dim jolop geir an (?)
Nac oil gan Hughes Ty Mawr
Na Williams "Arian Parod"
'Rhydd ddim a'i siaud mawr;
Gan Hughes a Charly Edwards
Gan Richards cheir mor bones
Na rowlsan gan D. Davies
Na match gan Gruffyd Jones

Cydgan


Gan Roberts – meddyg lledar
A Pugh 'does dim i'w gael
A'r "Ready Made" adyngodd
"Ni byddaf byth yn hael!"
Am hyny, wyr Dolgellau
Gwrandewch ar lais y llu,
Ac unwech yn y (?)
Am shop fel hyn ni

Gwelir bod y gân hon i'w chanu ar yr alaw 'Wait for the Wagon', sef alaw Americanaidd a oedd yn boblogaidd iawn yng Nghymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ceir adran ar yr alaw hon gan Dr Meredydd Evans yn ei ddarlith *Canu Jim Cro* (Aberystwyth, 1990), tt. 14–15, a gellir ychwanegu'r gân hon at y rhestr a welir yno o ganeuon cynnar a ganwyd ar yr alaw hon.

CERDD GALENNIG O ARDAL TREFEGLWYS

Dafydd Ifans

Ym mis Medi 2006, ychydig fisoedd cyn ei farwolaeth, cyflwynodd Daniel Gruffydd Jones (1933–2007), cyn-Gofrestrydd Prifysgol Cymru, Aberystwyth, ddau bapur a berthynai i’w dad, Ifor Ceredig Jones, i’r Llyfrgell Genedlaethol. Yr oedd I. C. Jones yn ddarlithydd Ffiseg ar un adeg yn Aberystwyth ac yn fab i’r Parchedig J. D. Jones, brodor o Daliesin, Ceredigion, a gweinidog gyda’r Methodistiaid Calfinaidd yn Nhrefeglwys rhwng 1895 a 1900 ac wedi hynny am chwarter canrif yn Gellifor, Dyffryn Clwyd. Bu farw yn Rhuddlan ym mis Mai 1929 yn 61 oed a cheir coffād iddo yn *Y Blwyddiadur* am 1930, tt. 219–20. [Rwy’n ddiolchgar i’r Athro R. Geraint Gruffydd, Mrs Gwenhwyfar Job a Mrs Maureen Gruffydd Jones am wybodaeth am y teulu]. Yr oedd yn gyfaill i’r hanesydd enwadol Richard Bennett.



Toriad o’r *Goleuad*, 5 Ionawr 1910, sef adolygiad gan J. D. Jones ar gyfrol Richard Bennett, *Blynyddoedd Cyntaf Methodistiaeth*, oedd un o’r ddau bapur a gyflwynwyd gan Daniel Gruffydd Jones i’r Llyfrgell. Am yr ail ddernyn dyfynnaf yr hyn a ysgrifennodd Daniel Gruffydd Jones ataf mewn llythyr, 22 Medi 2006, wrth gyflwyno’r rhodd i’r Llyfrgell Genedlaethol:

‘Llawysgrif yw’r ail – a’r mwyaf diddorol o bell! – o gân gofyn calennig, testun celfydd a difyr. Ar gefn y papuryn ysgrifennwyd, mewn llaw wahanol tybed, ‘Samuel Thomas his paper’, a’r dyddiad ‘December 7 1854’ – tyst hwyrach i ddwy-ieithrwydd ardal Trefeglwys yn y 19 ganrif. Yn ôl tipyn o ymchwil gan fy ngwraig yn nhudalennau’r Cyfrifiadau ymddengys mai brawd oedd y Samuel

hwn i daid fy nhad (a thad yng nghyfraith J. D. Jones), sef Matthew Thomas, Trefeglwys (1843–1913). Os felly, byddai Samuel tua 13 neu 14 oed ym mis Rhagfyr 1854: oedran addas i ofyn calennig hwyrach.’

Erbyn hyn mae’r gerdd hon yn rhan o lawysgrif LIGC 23925. Cyhoeddir y testun isod a gwelir pa mor fanwl yw’r gerdd yn dymuno llwyddiant i deulu’r tŷ ac i’w hanifeiliaid a’u cynnyrch gardd yn ogystal.

Mi godais heddiw’n fore
I gerdded at eich tai
I ’mofyn ambell chwechyn,
Mi gymraf peth fo lai.

Gobeithio caf fynd adref
Yn llawen er fy lles
A nghod yn llawn o arian
A bara chaws a phres.

O diolch fyddo ichwi
Am ddim a gefais i
A bendith fyddo arnoch
A phopeth yn eich tŷ.

Boed bendith ar eich gwartheg
A’u llaeth a’u caws fo’n bur
Ac iechyd i’ch ceffylau
I droi a thrin eich tir.

Boed llwyddiant ar eich llafur
Y gwair a’r tatw mawr
A magu moch a wneloch
A’u torrau’n llusgo’r llawr.

Ynghyd â’r cwn a’r cathod
Boed llwyddiant ar y rhain
I ladd y wadd a’r llygod,
Y piod oll a’r brain.

Cynyddu wnelo'ch defaid
A'r wyn fo'n chwarae'n lew
A thyfu wnelon' burlan
I'w cadw rhag y rhew.

Boed llwyddiant ar eich cennin
A'ch wynwyns cochion hardd
A llysiau'r *cabbage* gwynion
A phopeth sy'n eich gardd.

Coed 'falau a'r coed eirin
Coed ffebrys* oll o'r bron
Ynghyd â'r goeden beran,
Boed crop go dda ar hon.

Beth penna' wy'n dymuno
Dywedaf yw marn i
Cael gras i lywodraethu
Pob enaid yn eich ty.

Pan byddoch yn cyfrannu
Doed bendith lawr o'r nen
A'ch gwna yn berffaith dduwiol
Yw ngweddi byth, Amen.

'Samuel Thomas his Paper Gliniant, Trefeglwys December 7 1854'

*'ffebris, ffebrins', Eirin Mair, gwsberis; benthyciad o'r Saesneg
'*feaberries*'. Ar lafar yn sir Drefaldwyn, gweler *Geiriadur Prifysgol
Cymru*, t. 1279.

'O DEUED POB CRISTION'

Rhiannon Ifans

Cyhoeddwyd un o bedair carol plygain o waith Jane Ellis, yr Wyddgrug (g. 1779)¹ yn *Canu Gwerin* cyn hyn² a dyma gyhoeddi eleni garol arall a luniwyd ganddi, yn ddi-os y fwyaf cyfarwydd ohonynt i gyd (ar un ystyr), 'O deued pob Cristion i Fethlem yr awron'. Bydd darllenwyr y cylchgrawn hwn wedi canu'r garol droeon – neu felly y byddant o'r farn. Ond ai sôn am garol wreiddiol Jane Ellis a wneir, ynteu'r golygiad ohoni a gyhoeddwyd yn y casgliadau? Dyma'r fersiwn golygedig fel y'i caed yn *Llyfr Emynau* y Methodistiaid Calfinaidd (1927), wedi ei briodoli i fardd anhysbys.



1. O! deued pob Cristion i Fethlem yr awron,
I weled mor dirion yw'n Duw;
O! ddyfnder rhyfeddod! fe drefnodd y Duwdod
Dragwyddol gyfamod i fyw!
Daeth Brenin yr hollfyd i oedfa ein hadfyd
Er symud ein penyd a'n pwn;
Heb le yn y llety, heb aelwyd, heb wely,
Nadolig fel hynny gadd Hwn!
Rhown glod i'r Mab bychan, ar liniau Mair wiwlan—
Daeth Duwdod mewn baban i'r byd;
Ei ras, O! derbyniwn; ei haeddiant cyhoeddwn,
A throsto Ef gweithiwn i gyd.

2. Tywysog tangnefedd wna'n daear o'r diwedd
Yn aelwyd gyfannedd i fyw;
Ni fegir cenfigen na chynnwrf na chynnen,
Dan goron bydd diben ein Duw.
Yn frodyr i'n gilydd, drigolion y gwledydd,
Cawn rodio yn hafddydd y nef;
Ein disgwyl yn Salem, i ganu yr anthem,
Ddechreuwyd ym Methlem, mae Ef.
Rhown glod i'r Mab bychan, ar liniau Mair wiwlan—
Daeth Duwdod mewn Baban i'r byd!
Ei ras, O! derbyniwn, ei haeddiant cyhoeddwn,
A throsto Ef gweithiwn i gyd.

Ond o gymharu'r geiriau uchod â geiriau gwreiddiol Jane Ellis, gwelir bod gwahaniaeth enfawr rhwng y naill destun a'r llall. Dyma gyhoeddi, felly, benillion gwreiddiol Jane Ellis am y tro cyntaf ers llawer blwyddyn faith.

Lluniwyd y geiriau ar y mesur 'Duw Gadwo'r Brenin'.³ Efallai mai yn unsain y canai cynulleidfa capel New Street, yr Wyddgrug, eiriau Jane Ellis (a oedd yn aelod o'r gynulleidfa honno), ond cefais sylwadau'r Arglwydd Elystan Morgan ar drefniant pedwar llais o'r alaw hyfryd yn ddifyr. Cyfansoddodd J. T. Rees, Bow Street (1857–1949),⁴ drefniant o'r alaw draddodiadol a'i gyhoeddi o dan y teitl 'Olwen'. Yn ddiweddar clywyd yr Arglwydd Elystan Morgan yn cael ei holi gan Beti George ar y rhaglen 'Beti a'i Phobol'. Gresynai na fu iddo etifeddu meistrolaeth ei fam ar gerddoriaeth, a soniodd amdani'n cydweithio â'r cerddor lleol J. T. Rees. Pan luniodd ef drefniant o 'Duw Gadwo'r Brenin' ar gyfer y geiriau 'O deued pob Cristion', fe'i henwodd ar ôl mam yr Arglwydd Elystan Morgan, Olwen. Cyhoeddir y trefniant drwy ganiatâd caredig wyres J. T. Rees, sef Mrs Morfudd Rhys Clark, Bronceiro, Bow Street, Ceredigion.

OLWEN. (12.8.12.8. T.)

Hen Garol.
Tr. J. T. R., 1857—



1. O deued pob Cristion! Cewch gennyf gysuron,
Cyddanwn o galon i gyd
O glod i'r mab bychan fu ar liniau Mair wiwlan,
Daeth Duwdod mewn baban i'r byd;
O ddyfnder rhyfeddod! O drefen y Duwdod!
Tragwyddol gyfamod a fu!
I achub ffordd rasol i achub ei bobl [I ?agor ffordd]
'Mostyngodd Duw freiniol oedd fry—
'Mostyngodd mor isel dan wreiddyn ein llygredd
Nes dyfod a'i agwedd fel gwas;
Er llwytyd y llety, er gwaelod y gwely,
Fe anwyd yr Iesu trwy ras.

2. Pan anwyd y Bachgen mor siriol fu'r seren,
Daeth doethion o'r dwyrain cyn dydd;
'Nôl gair y proffwydi hwy gawsant yr Iesu
Yn Geidwad i'n rhoddi ni'n rhydd.
Ond Herod annhirion, y gelyn o galon,
Ac ymddwyn yn greulon a wnaeth,
Ow! mamau'r babanod, fe'u drylliwyd gan drallod
Wrth ddioddef trwy syndod y saeth;
Er maint ei elyniaeth roedd trefn Iachawdwriaeth
A'i gallu yn fwy helaeth o hyd;
Er cymaint o gynnwrf fwriadai'r hen fradwr
Byw eto yw Barnwr y byd.
3. Ni fedraf mewn geiriau fyth draethu mo'i wyrthiau,
Rhy fychain yw doniau pob dyn,
Na'r seintiau sydd uchod, yn gwbl 'rwy'n gweled
Neb ond y Duw hynod ei hun.
'Roedd mab y wraig weddw ar elor yn farw,
Fe 'mwelodd â hwnnw mewn hedd,
Fe'i cododd i fyny, i'w fam ca'dd ei roddi
Yn lle mynd i bydru mewn bedd.
Bryd arall trwy wyrthiau'n troi'r dŵr yn win gorau,
Pam byddwn ni a'n bronnau mor brudd?
Rhown arno ein pwysau, er mynd i nos angau
Cawn olau fel haul hanner dydd.
4. Wrth gofio am ei loesau yng ngardd Ge'semane
Pwy galon na ddrylliai yn ddwy?
Er chwerwed y cwpan fe'i hyfodd ei hunan,
Yn lle'r aflan un glân aeth dan glwy.
Daeth llu o Iddewon o dwllwch fel deillion,
Ei gymryd yn union a wnaed;
Fe'i dygwyd o deirgwaith i'w holi'n dra helaeth,
Dim achos marwolaeth ni chaed;
Ond fel roedd yn Feichiau, deffroi wnâi'r cleddau [deffroi ?a wnâi'r]
A'i enaid hyd angau trist oedd,
Ein pechod yn pwyso, a Duw yn ymguddio,
Gan faint oedd yn flino rhoes floedd.

5. Fe waeddodd 'Gorffennwyd' a'n dyled a dalwyd
A'n biliau ni a groeswyd gan Grist;
Llawenydd fydd eto, a moliant fydd iddo
Gan filoedd wrth gofio'r awr drist.
Pan ddelo fe a'i Eglwys i'r buredig Baradwys
Ei foli fe'n felys a fydd;
Fe ddaw â'i blant adrau o'r moroedd a'r beddau,
Oddi ar angau fe'u rhoddir hwy'n rhydd.
Wrth gofio llawenydd sy 'Nghaersalem newydd
Anghofio rwy' 'nghystudd yn awr,
Rwy' ynddo'n ymddiried, fe'm dwg o'r caethiwed,
Hiraethaf am weled y wawr.
6. Rhown glod yn dragywydd, daeth hanes ein Harglwydd
Mewn Testament Newydd i ni;
Mae seintiau, angylion, ceriwbiaid 'run moddion
Yn moli'r Iôr cyfion Dduw Tri;
Dymunwn o galon gael meddu'r un moddion
I foli Duw'n ffyddlon drwy ffydd,
O dyro inni adnabod, er camwedd, fod cymod
Trwy'n Priod cyn darfod ein dydd,
I glirio ein heuogrwydd sy'n boen i ni beunydd,
Ein Llywydd o tu draw i'r llen;
Mae hedd yn ei haeddiant, rhoi iddo'r gogoniant
Mae miloedd mewn moliant. Amen.

Efallai fod gwall cysodi yn y pennill cyntaf, ac y dylid darllen 'I agor ffordd rasol i achub ei bobl' yn llinell 7, ond mae cerdd Jane Ellis yn canu'n hyfryd. Fe'i codwyd am y tro cyntaf oddi ar lafar gan y Fonesig Ruth Herbert Lewis ym mis Medi 1910 a hynny yn ardal Caerwys yn Sir y Fflint. Robert Jones oedd y datgeinydd, ac yr oedd ef yn briod â Lucy Jones a oedd yn cael ei chyflogi gan y Fonesig Ruth Herbert Lewis i wneud gwaith tŷ ac i olchi iddi.

Gan nad oedd y ladi yn medru cofnodi cerddoriaeth mewn na sol-ffa na hen nodiant y cynllun oedd y byddai'n recordio'r garol, a chytunodd Robert Jones i ganu i'w ffonograff. Bu cryn straффig ynghylch y recordio gan mai dyma'r tro cyntaf i'r gwron ganu i beiriant, a chan mai dyma'r gân werin

gyntaf y bu i'r ladi hithau ei chasglu erioed. Ond daeth llwyddiant i ran y ddau, er mai fersiwn ychydig yn garbwl o'r garol (y pennill cyntaf yn unig) a ganodd Robert Jones i ffonograff Ruth Herbert Lewis: drysodd ryw faint ar drefn y llinellau, a bu iddo gloi'r pennill cyntaf â chwpled o ail bennill Jane Ellis. Ond ei fersiwn ef a gofnodwyd yn *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* yn 1919, gyda'r nodyn 'Several Caerwys people remember their fathers singing this carol'.⁵

Golygwyd carol Jane Ellis yn bur chwyrn erbyn cyhoeddi dau bennill ohoni yn ddienw yng nghasgliadau'r enwadau yn 1921 (*Y Caniedydd Cynulleidfaol Newydd*, llyfr emynau'r Annibynwyr) a 1927 (*Llyfr Emynau y Methodiastiaid Calfinaidd*). Erbyn cyhoeddi yr un golygiad o'r ddau bennill yn y llyfr emynau cydenwadol *Caneuon Ffydd* yn 2001 fe'i priodolwyd i Jane Ellis, er nad hi yn dechnegol a luniodd y golygiad hwnnw.

Er hyfryted a gwyched y golygiad o'r garol, ac er ei fod wedi haeddu ei le ymysg carolau gorau ein cyfnod, tybed a fydd carol wreiddiol Jane Ellis yn magu gwreiddiau unwaith eto yng nghalonau'r Cymry? Dyna'r gobaith, a hyderir y byddwn yn medru dweud eto fod llawer o'r genhedlaeth nesaf yn cofio eu tadau (a'u mamau) yn ei chanu, ac y pery ar lawr gwlad a llawr dinas am genedlaethau i ddod.

NODIADAU

- 1 Ar Jane Ellis gw. Rhiannon Ifans, 'Ar Drywydd y Gyfrol Brintiedig Gyntaf o Waith Llenyddol yn y Gymraeg gan Ferch' yn *Cynheiliaid y Gân – Cyfrol deyrnged i Meredydd Evans a Phyllis Kinney*, goln Sally Harper a Wyn Thomas (Caerdydd, 2007), 189–205.
- 2 Rhiannon Ifans, '“Dynoliaeth a grewyd mor loyw ...”': un arall o garolau plygain Jane Ellis', *Canu Gwerin*, 29 (2006), 71–7.
- 3 Ar y mesur 'Duw Gadwo'r Brenin' gw. Alun W. G. Davies, 'A Variation on Two Carols', *Welsh Music*, 4, rhif 5 (1973–4), 51–61, 81; D. Roy Saer, 'Carol y Cymro ac Anthem y Sais', *Welsh Music*, 7, rhif 9/10 (1985), 6–19; Phyllis Kinney, 'The Tunes of the Welsh Christmas Carols (II)', *Canu Gwerin*, 12 (1989), 7–8.
- 4 *Y Bywgraffiadur Cymreig 1941–1950* (Llundain, 1970), 48; *Y Bywgraffiadur Cymreig 1951–1970* (Llundain, 1997), 287; D. H. Lewis, *John Thomas Rees ... cofiant* (Llandysul, 1955); Dienw, 'J. T. Rees Mus Bac (1857–1949): Dathlu hanner can mlynedd ei farw', *Y Tincer*, Mehefin 1999, tt. 6–7; Rhidian Griffiths, 'Cerddor y Cysegr', *Cerddoriaeth Cymru*, 10, rhif 6 (Haf 2001), 13–15, sef anerchiad a

draddodwyd yn y Garn ar achlysur coffáu hanner canmlwyddiant marw J. T. Rees yn 1999.

- 5 Cyhoeddwyd y garol yn *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, II (1919), 127–8.

Adolygiad

Adolygiad: Sally Harper a Wyn Thomas (goln), *Cynheiliaid y Gân: Ysgrifau i anrhydeddu Phyllis Kinney a Meredydd Evans / Bearers of Song: Essays in honour of Phyllis Kinney and Meredydd Evans* (Caerdydd, 2007), xix + 328tt.

Cynheiliaid y Gân Meinir Macdonald

Dyma deitl Cymraeg cyfrol o 'Ysgrifau i anrhydeddu Phyllis Kinney a Meredydd Evans'. Cyfrol lwyr ddwyieithog yw hon, a'i theitl Saesneg yw *Bearers of Song – Essays in honour of Phyllis Kinney and Meredydd Evans*. Fe'i golygwyd gan Sally Harper a Wyn Thomas o Adran Gerdd Prifysgol Cymru, Bangor, a'i chyhoeddi yn 2007 gan Wasg Prifysgol Cymru. (Rhif ISBN: 978-0-7083-2081-5 a'r pris: £45)



Meredydd Evans, Sally Harper, Phyllis Kinney a Wyn Thomas yn lansiad y gyfrol yn y Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

Llun: Einion Dafydd

Yn ‘Merêd a Phyllis: Rhagair Personol’, dywed R. Geraint Gruffydd, ‘Y mae cynifer o fedrau gan Merêd a Phyllis, a’r rheini wedi’u defnyddio mor ddibrin er lles eu cyd-ddynion, fel ei bod yn anodd meddwl y gellid fyth eu hanrhydeddu’n briodol.’ Mae’r gyfrol gain hon a’i herthyglau safonol a diddorol gan awduron sy’n arbenigwyr yn eu meysydd yn ymdrech ganmoladwy iawn i anrhydeddu’r ddeuddyn dan sylw.

Mae enwau’r cyfranwyr yn rhai cyfarwydd i bawb sy’n gwybod unrhyw beth am y Pethe yn y Gymru gyfoes. Mae Mary-Ann Constantine yn ‘Mynd ar Drywydd Derynnau: Iolo, Ritson a Robin Hwd’, a Hywel Teifi yn sôn am ‘*Aelwyd Angharad: Y Cyd-destun Hanesyddol*’. Gwrthrych erthygl Rhidian Griffiths yw “‘Y Cyfansoddwr Gorau’: Ieuan Gwyllt a’r Alaw Gymreig’, ac mae Sally Harper yn mynd ar drywydd ‘Cerddoriaeth yn Llyfr Lloffion Phillip Powell o Aberhonddu (c.1630–35)’. Teitl gogleisiol erthygl Daniel Huws yw ‘Gwisgo Merched â Mesurau’, ac mae Rhianon Ifans ‘Ar Drywydd y Gyfrol Brintiedig gyntaf o Waith Llenyddol yn y Gymraeg gan Ferch’. Mae a wnelo erthygl Cass Meurig yn fwy uniongyrchol efallai â’r traddodiadol: ‘Cyfansoddi Cerddoriaeth Draddodiadol’. Felly hefyd erthygl Wyn Thomas, sef “‘Ffarwel i Aberystwyth . . .’: Jennie Williams (1885–1971) a Byd yr Alaw Werin yng Nghymru’. Ni fyddai cyfrol deyrnged Gymraeg yn gyflawn heb gerdd neu ddwy i gyfarch y sawl a anrhydeddir ac nid yw’r gyfrol hon heb ei cherddi. Cyflwynodd neb llai na Gwyn Thomas, Anthony Conran a Robin Gwyndaf o ffrwyth eu hawen i gyfarch Phyllis a Merêd. Gwelir bod yr arlwy yn arbennig o gyfoethog a cheir porfa fras i’r neb sy’n ymddiddori ym maes barddoniaeth a cherddoriaeth Cymru.

A dychwelyd eto at ‘Merêd a Phyllis: Rhagair Personol’ R. Geraint Gruffydd, rhaid dyfynnu ei gasgliad, ‘O edrych yn ôl ar yrfaeodd y ddau, ni ellir ond synnu at yr hyn a gyflawnwyd ganddynt, a hynny mewn cynifer o wahanol feysydd.’ Ac o edrych ar yr 20 tudalen a mwy, a hynny mewn print mân, o lyfryddiaethau Merêd ei hun, Phyllis ei hun a’r ddau ynghyd, a gasglwyd ac a drefnwyd gan Huw Walters, hawdd cytuno â chasgliad yr Athro Gruffydd. Fel y canodd Gwyn Thomas am Phyllis a Merêd:

‘Dyma ddau ’oedd ar wahân
Ond a wnaed yn un
Gan gynghanedd ac ymgeledd Cân.’

Bearers of Song – Essays in honour of Phyllis Kinney and Meredydd Evans

Meinir Macdonald

As its title suggests, this is a carefully planned bilingual volume in which Welsh and English versions of the learned and interesting articles are given equal attention. It is an essential read for anyone interested in the music and, indeed, the poetry of Wales. Its articles bear titles ranging from Mary-Ann Constantine's 'Chasing Fragments: Iolo, Ritson and Robin Hood', to the 'Aelwyd Angharad: the Historical Context' of Hywel Teifi Edwards. Rhidian Griffiths writes of "'The Best Composer": Ieuan Gwyllt and the Welsh Melody', and Sally Harper studies the 'Music in the Commonplace Book of Phillip Powell of Brecon (c.1630–35)'. Daniel Huws's article, 'Dressing Women in Tunes', with its titillating title will be of interest to those eager to learn more about the origin of penillion singing, and Rhiannon Ifans leads the reader 'On the Trail of the First Literary Volume Published in Welsh by a Woman'. The last two articles deal more directly maybe with traditional music, viz. Cass Meurig's 'Composing Traditional Music', and Wyn Thomas's "Ffarwel i Aberystwyth . . .": Jennie Williams (1885–1971) and the World of Welsh Folk Song'. Truly a feast of learning to be relished and to nourish! Add to all this the poems written in honour of Phyllis and Merêd and the 20+ pages of Bibliographies, and you will appreciate the importance of this fine volume.

Trem yn ôl

Cip ar y saithdegau, a'r Cwrs Preswyl (fel y gelwid y Gynhadledd bryd hynny) yn Llanbedr Pont Steffan yn 1975



Buddug Lloyd Roberts, Frances Môn Jones, Emrys Cleaver, Emrys Bennet Owen, Kitty Idwal Jones, Meredydd Evans, D. Roy Saer, Alun Davies

